Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

Gwneud pethau'n iawn 2009

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Cynllun Gweithredu treigl pum mlynedd ar gyfer Cymru yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau allweddol y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgymryd â hwy mewn ymateb i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2008

ISBN 978 0 7504 5388 2
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2009
CMK-22-07-404
E3940910

Cynnwys

1. Y Broses Adrodd
   - 1.1 Sefydliadau Hawliau Dynol Annibynnol
   - 1.2 Cyrff Anllywodraethol
   - 1.3 Plant a Phobl Ifanc

2. Blaenoriaethau ar gyfer Cymru

3. Sylwadau Terfynol, Argymhellion a Chamau Gweithredu

4. Fframwaith Blaenoriaethau yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru

5. Y Cynllun Gweithredu

6. Meysydd Eraill sy'n cael eu Datblygu

7. Monitro ac Adolygu

8. Crynodeb a Chasgliadau

9. Crynodeb o'r Camau Gweithredu

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

1. Y Broses Adrodd

Cadarnhaodd Plaid Gwladwriaeth y DU y Confensiwn ym 1991 ac, o ganlyniad, mae'n ofynnol iddi gyflwyno adroddiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi sut y mae'n cyflawni ei rhwymedigaethau hawliau dynol. Rhaid cyflwyno'r adroddiadau hyn bob 4-5 mlynedd. Ym Medi 2008 bu Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn archwilio'r cynnydd a oedd wedi'i wneud gan Blaid Gwladwriaeth y DU wrth geisio gweithredu 54 Erthygl Confensiwn y Cenhedloedd ar Hawliau'r Plentyn a thrwy hynny ddiogelu hawliau dynol plant a phobl ifanc.

Yn ystod 2004 mabwysiadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail i'w gwaith o lunio polisïau yn y maes hwn. Ers hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu'r Confensiwn a phrotocolau cysylltiedig fel sail i bopeth y mae'n ei wneud ym maes plant a phobl ifanc.

Darparwyd gwybodaeth am y cynnydd a oedd wedi'i wneud ers yr adolygiad blaenorol gan Blaid Gwladwriaeth y DU (h.y. Llywodraethau Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r tiriogaethau tramor) a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn Hawliau Plant yn 2007.[1] Roedd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn awyddus i ddeall ac archwilio'r gwahanol bolisïau a rhaglenni sy'n cael eu defnyddio ym mhedair gwlad y DU, ac roedd yn cydnabod bod datganoli wedi arwain at ddulliau gweithredu gwahanol ym Mhlaid Gwladwriaeth y DU.

1.1 Sefydliadau Hawliau Dynol Annibynnol

Mae'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn yn awyddus i glywed barn cyrff hawliau dynol annibynnol. Cyn archwilio Plaid Gwladwriaeth, mae'r pwyllgor yn cynnal gweithgor 'cyn sesiwn' er mwyn clywed sylwadau gan sefydliadau hawliau dynol annibynnol. Chwaraeodd Comisiynydd Plant Cymru ran allweddol yn y gwaith o ddarparu tystiolaeth i Bwyllgor Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

1.2 Cyrff Anllywodraethol

Yn ychwanegol at hyn, anogir cyrff anllywodraethol[2] megis elusennau plant cenedlaethol i gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor ynglŷn â'r modd y mae'r Confensiwn yn cael ei roi ar waith mewn gwlad benodol. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yw'r unig gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n rhoi rôl ffurfiol i gyrff anllywodraethol yn y gwaith o fonitro'i weithrediad. Yng Nghymru, cyflwynodd Grŵp Monitro'r Cyrff Anllywodraethol dystiolaeth mewn adroddiad cydgysylltiedig.

1 Llywodraeth y DU, Periodic report to the UN Committee on the rights of the child, Gorffennaf 2007 a Gweithredu'r Hawliau, 2007
2 Aros, edrych, gwrando, Adroddiad amgen cyrff anllywodraethol Cymru ac Adroddiad Comisiynwyr Plant y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

1.3 Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn yn awyddus i glywed barn plant a phobl ifanc ynglŷn â'r modd y gweithredir eu hawliau. Mae gan gyrff anllywodraethol ran allweddol i'w chwarae drwy gynorthwyo plant a phobl ifanc i gyflwyno'u barn a'u profiadau i'r pwyllgor. Rhaid i lywodraethau hefyd gael barn plant a phobl ifanc ynglŷn â pha mor dda y mae eu hawliau'n cael eu parchu. Lluniodd Draig Ffynci (Y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru) adroddiadau i'w hystyried gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer Cymru. Yn ychwanegol at hyn, cafodd aelodau o Draig Ffynci gyfle i deithio i'r gwrandawiad cyn sesiwn yng Ngenefa a rhoi tystiolaeth lafar gerbron Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig.[3]

3 Pam fod oed pobl yn mynd fyny ddim lawr? (plant 7-10 oed) ac Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni (pobl ifanc 11-18 oed)

2. Blaenoriaethau ar gyfer Cymru

Cyn adolygiad Medi 2008, gofynnodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig nifer o gwestiynau atodol ynglŷn â blaenoriaethau allweddol ar gyfer y dyfodol. Cytunwyd ar y blaenoriaethau isod ar gyfer Cymru rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynrychiolwyr Grŵp Monitro'r Cyrff Anllywodraethol a chyflwynwyd hwy i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig.

1. Ymdrin â thlodi plant a phobl ifanc yng Nghymru
2. Sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed
3. Cynyddu ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ymhlith plant ac oedolion
4. Lleihau'r bwlch rhwng polisi a chanlyniadau i blant a phobl ifanc
5. Gwella cyrhaeddiad addysgol pob plentyn a pherson ifanc
6. Cefnogi lles emosiynol pob plentyn a pherson ifanc
7. Gwella cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc chwarae'n ddiogel
8. Cynyddu cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt hwy
9. Gweithio er mwyn dileu gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc sydd ag anabledd; gwella'u mynediad at wasanaethau a chefnogaeth
10. Gweithio er mwyn gwneud cosb gorfforol i blant a phobl ifanc yn anghyfreithlon ym mhob sefyllfa
11. Gweithio er mwyn dileu bwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig
12. Gweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu sy'n ceisio lloches yng Nghymru'n gallu mwynhau eu hawliau dan y Confensiwn a'u hawliau dynol
13. Gweithio er mwyn dileu gwahaniaethu / anghydraddoldeb yn erbyn plant a phobl ifanc
14. Gweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru (e.e. ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf) yn gallu mwynhau eu holl hawliau dan y Confensiwn a'u hawliau dynol
15. Gwella tryloywder y gwaith o bennu cyllidebau ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru
16. Gweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol yn gallu mwynhau eu hawliau dan y Confensiwn a'u hawliau dynol

3. Sylwadau Terfynol, Argymhellion a Chamau Gweithredu

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei sylwadau terfynol yn Hydref 2008. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer Cymru sydd wedi'i ddatblygu yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y sylwadau terfynol isod, ac mae'n ffurfio rhan o gynllun gweithredu ehangach ar gyfer y DU a phlaid gwladwriaeth y DU sy'n seiliedig ar gynlluniau unigol ar gyfer pob un o weinyddiaethau datganoledig y DU.

- Roedd paragraff 15 o'r sylwadau hyn yn argymell y dylai'r Llywodraeth lunio cynlluniau gweithredu cynhwysfawr er mwyn gweithredu'r Confensiwn ar y cyd â chyrff sector cyhoeddus a phreifat sy'n ymwneud â hybu a diogelu hawliau plant.
- Roedd paragraff 23 yn nodi y dylai'r llywodraeth annog cymdeithas sifil, gan gynnwys cyrff anllywodraethol a chymdeithasau plant, i chwarae rhan weithredol a systematig yn y gwaith o hyrwyddo a gweithredu hawliau plant.
- Roedd paragraff 82 yn argymell y dylid cymryd pob cam priodol er mwyn sicrhau bod yr argymhellion a chamau pellach yn cael eu gweithredu'n llawn.

Roedd y sylwadau terfynol a'r argymhellion eu hunain yn ymdrin ag ystod eang iawn o feysydd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd y bydd Cymru'n canolbwyntio'n bennaf ar waith yn yr 16 maes allweddol uchod. Dynodwyd y rhain fel blaenoriaethau ar gyfer Cymru yn y lle cyntaf, ac mae nifer o wahanol bartneriaid wedi cytuno arnynt.

Yn ogystal â'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno i weithio ar y cyd â gweinyddiaethau eraill Plaid Gwladwriaeth y DU a sefydliadau partner ar faterion sy'n peri pryder ac sydd o ddiddordeb i bob un ohonynt. Bydd y materion hyn yn cael eu dynodi ar wahân yn y cynllun gweithredu ar gyfer Cymru, a cheir croesgyfeiriadau at gynllun gweithredu Plaid Gwladwriaeth y DU.

Bydd y Cynllun yn ddogfen organig a byw. Bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gydnaws â datblygiadau newydd mewn polisi a strategaeth a'i fod yn dal yn berthnasol ac yn gyfredol. Bydd hyn yn ein galluogi i ychwanegu meysydd blaenoriaeth newydd, os bydd rhai'n dod i'r amlwg yn ystod 5 mlynedd y cynllun, ac i ddileu statws blaenoriaeth maes penodol os byddwn ni, a'n partneriaid, yn credu bod digon o gynnydd wedi'i wneud yn ystod y cyfnod.

Ein gweledigaeth yw y byddwn yn gallu dangos cynnydd sylweddol, erbyn adolygiad nesaf Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig o'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan Blaid Gwladwriaeth y DU, ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth y mae gan Gymru gymhwysedd deddfwriaethol a phwerau datganoledig ar eu cyfer, er mwyn cynorthwyo holl blant a phobl ifanc Cymru i wybod am eu hawliau dan y Confensiwn, a'u hawliau dynol, i ddefnyddio'r hawliau hynny a gwneud y gorau ohonynt, a thrwy hynny fyw bywydau hapusach, gan gyflawni eu potensial yn llawn a chael sicrwydd o'u lles.

3.1 Rhwydwaith Gweithredu

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymwybodol bod y Confensiwn wedi'i sefydlu ac wedi'i gadarnhau gan Lywodraeth y DU er 1991. Rydym hefyd yn ymwybodol bod llawer o'r Sylwadau Terfynol yn 2008 yn debyg i'r rhai a wnaethpwyd gan y Pwyllgor ar adeg yr adolygiad blaenorol o waith Plaid Gwladwriaeth y DU yn 2002. Er mwyn ein cynorthwyo i symud ymlaen â'r gwaith hwn, byddwn yn gofyn am gymorth partneriaid allweddol, cenedlaethol a lleol, drwy'r rhwydwaith uchod. Bydd y rhwydwaith hwn yn ddefnyddiol iawn ac rydym yn ddiolchgar amdano.

3.2 Cynhadledd Gwneud Pethau'n Iawn

Cynhaliwyd y gynhadledd hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Grŵp Monitro'r Cyrff Anllywodraethol a Chomisiynydd Plant Cymru, ym Mawrth 2009 er mwyn dechrau ar y gwaith o ddatblygu'r Cynllun ar gyfer Cymru. Mae llawer o'r pwyntiau a godwyd yn y gweithdy (y "ffrwythau ar y coed" er mwyn y rhai a oedd yno) wedi'u cydblethu drwy'r camau gweithredu a amlinellir yn y Cynllun er mwyn sicrhau y byddant yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygiadau yn y dyfodol.[4]

3.3 Mesur arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 14 Gorffennaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog, Rhodri Morgan AC, y rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig ar gyfer 2009-11. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys datganiad o fwriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i edrych ymhellach ar y posibilrwydd o gyflwyno Mesur i ymgorffori egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn deddfwriaeth ar ran plant Cymru. Cafodd y cyhoeddiad gefnogaeth lawn gan bob un o'r pleidiau. Erbyn hyn mae'r gwaith o bennu hyd a lled y mesur arfaethedig a'i ddatblygu wedi dechrau. Bydd y gwaith hwn yn allweddol er mwyn rhoi sylw i argymhelliad y Pwyllgor i Blaid y Wladwriaeth ym mharagraff 11[5] - '…… *cymryd camau er mwyn sicrhau bod ei deddfwriaeth yn unol â'r Confensiwn*.'

4 http://www.uncrcletsgetitright.co.uk/
5 Ceir nifer o gyfeiriadau eraill at sicrhau bod deddfwriaeth yn unol â'r Confensiwn yn y sylwadau terfynol a'r argymhellion.

4. Fframwaith Blaenoriaethau yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru

Yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer Cymru gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn ei sylwadau terfynol yn 2008, sail y Cynllun Gweithredu fydd yr 16 blaenoriaeth allweddol y cytunwyd arnynt ar gyfer Cymru (gweler uchod). Mae'r blaenoriaethau i'w gweld yn yr adrannau isod ynghyd ag eglurhad manylach. Mae pob adran yn cyfeirio at y canlynol:

a. Y maes blaenoriaeth a nodwyd

b. Crynodeb o'r erthyglau yn y Confensiwn y mae'r maes blaenoriaeth yn ymwneud â hwy

c. Crynodeb byr o'r argymhellion a wnaethpwyd gan y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn (cyfeirir at y paragraffau sy'n cynnwys yr argymhelliad llawn yn y sylwadau terfynol)

ch. Y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn (Hydref 2009)

d. Beth fydd yn digwydd yn y dyfodol er mwyn rhoi sylw i'r argymhellion

dd. Pwy sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol am roi'r Camau Gweithredu ar waith yn Llywodraeth Cynulliad Cymru

e. Pwy fydd yn helpu i roi'r camau gweithredu ar waith a sut

f. Yr amserlen ar gyfer y Camau Gweithredu a nodwyd

Yn ogystal â'r 16 blaenoriaeth benodol a nodwyd ar gyfer Cymru, ceir gweithgareddau mewn nifer o feysydd eraill, a chyfeiriwyd at y rhain hefyd.

5. Y Cynllun Gweithredu

BLAENORIAETH 1:
Ymdrin â thlodi plant a phobl ifanc yng Nghymru

ERTHYGLAU: 22, 24, 26 a 27

Mae gan blant hawl i ofal iechyd o ansawdd da a safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai plant sy'n ffoaduriaid hefyd fwynhau'r hawliau hyn. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd sy'n methu â fforddio hyn.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Yn ei argymhellion awgrymodd y Pwyllgor y dylai Plaid y Wladwriaeth sicrhau safon byw ddigonol, sy'n hanfodol ar gyfer datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plentyn, drwy wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn lleihau tlodi ac anghydraddoldeb ym mhob sector; rhoi gwell ystyriaeth i'r gwaith o bennu cyllidebau ar gyfer plant er mwyn gweithredu polisïau a deddfwriaeth; a rhoi cymorth priodol i deuluoedd a pharatoi plant ar gyfer bywyd fel oedolion drwy ddarparu hyfforddiant ac addysg. Pwysleisiwyd yr ymagwedd hon yn y sylwadau terfynol ym mharagraffau 19, 45a&h, 55, 57 a 65 a-d.

Beth sydd wedi digwydd:

Mae strategaeth bresennol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Dyfodol Teg i'n Plant', wedi'i chyflwyno er 2005. Mae'r camau gweithredu'n canolbwyntio'n gyffredinol ar dlodi incwm, cyfranogiad a gwasanaethau, ac ar gynnwys cerrig milltir trawsbynciol 2010 a thargedau tlodi plant 2020.

Sefydlwyd Grŵp Arbenigol yn Ebrill 2008, i ystyried a gwneud sylwadau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth geisio cyrraedd ei thargedau tlodi plant, i gynnig cyngor ynglŷn â gofynion polisi eraill er mwyn cyrraedd y targedau ac i helpu i ddatblygu Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru. Mae'r grŵp hyd yn hyn wedi cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn ag: addysg plant 4-14 oed, addysg pobl ifanc 14-19 oed, anweithgarwch economaidd a thlodi mewn gwaith.

Datblygwyd Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru yn 2008 ac mae'n darparu data am gynnydd ar sail targedau tlodi plant Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan eu gosod yng nghyd-destun pethau eraill a wyddom am amgylchiadau a phrofiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cyflwynwyd Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) ar 2 Mawrth 2009 ac mae'n gwneud darpariaeth statudol, drwy fframwaith deddfwriaethol, er mwyn gwireddu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes tlodi plant a phlant sy'n agored i niwed. Mae'n cynnig deddfwriaeth a fydd yn rhoi mwy o gymorth i deuluoedd, lle gallai plant fod mewn perygl, a gorfodaeth reoleiddiol gryfach mewn lleoliadau plant. Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn darparu sail statudol ar gyfer Cyfranogiad a Chwarae (Erthyglau 12 a 31 o'r Confensiwn yn y drefn honno). Cyfeiriwyd at yr angen i gryfhau ymdrechion yn y maes hwn ym mharagraffau 69 (ar gyfer chwarae) a 23, 33 a 67g (ar gyfer cyfranogiad) yn sylwadau terfynol y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, ac ymdrinnir â hwy yn nes ymlaen yn y cynllun hwn.

Mae'r Mesur arfaethedig yn amlinellu nifer o nodau eang er mwyn dileu tlodi plant, ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau Cymreig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, bennu amcanion (i'w cynnwys yn eu strategaethau tlodi plant). Mae hefyd yn cefnogi Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, ac yn nodi'r cymorth y gall pob person ifanc (11-25 oed) yng Nghymru ei ddisgwyl er mwyn ei helpu i fanteisio ar gyfleoedd sydd ar gael mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac i gymryd rhan ym mywyd y gymuned.

Mae nifer o gynlluniau wedi'u cyflwyno hefyd er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi plant. Mae'r rhain yn cynnwys Genesis, Dechrau'n Deg, Yn Awyddus i Weithio, Cronfa Ymddiriedolaeth Plant, cynyddu'r nifer sy'n cael budd-daliadau, y Cyfnod Sylfaen, y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref a chronfa Cymorth. Yn yr un modd, mae nifer o gynlluniau ariannu wedi'u cyflwyno er mwyn helpu i leddfu tlodi plant (e.e. grant gwisg ysgol a phrydau ysgol am ddim).

Beth fydd yn digwydd:

Bydd **Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ac 'awdurdodau Cymreig' eraill sy'n cael eu henwi yn y Mesur, baratoi a chyhoeddi strategaeth er mwyn helpu i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Bydd angen i'r strategaeth gynnwys amcanion a ddewiswyd gan Weinidogion Cymru / yr 'awdurdodau Cymreig' mewn perthynas â'r nodau eang sy'n cael eu hamlinellu yn Adran 1 o'r Mesur arfaethedig. Cyhoeddir y strategaeth gyntaf gan Weinidogion Cymru yn 2010 a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

Dan y Mesur arfaethedig, bydd awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gallu cyflawni'r ddyletswydd hon drwy eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, a bydd Canllawiau'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn cael eu hadolygu yn unol â hynny. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu canllawiau penodol ar gyfer 'awdurdodau Cymreig' eraill a fydd yn etifeddu dyletswyddau newydd o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig.

Y **Strategaeth Tlodi Plant newydd**, a fydd (dan Fesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)) yn adeiladu ar yr ymrwymiadau a wnaethpwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 'Cymru'n Un' ac yn rhoi hwb ychwanegol i ymdrechion yng Nghymru, i ddefnyddio pob lifer polisi sydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad er mwyn gwella cyfleoedd ein plant a'n pobl ifanc mwyaf difreintiedig mewn bywyd. Bydd y Strategaeth newydd yn cael ei datblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid yng Nghymru a bydd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Bydd yn canolbwyntio ar y meysydd polisi hynny y gwyddom eu bod yn debygol o fod o'r budd mwyaf i'n hamcanion tlodi plant. Mae gwaith paratoadol ar gyfer y strategaeth wedi'i ddechrau ac mae'n cael ei oruchwylio gan Dîm Dadansoddi Tlodi Plant mewnol. Bydd gan y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant rôl hefyd fel un o'r cymheiriaid a fydd yn adolygu'r Strategaeth Tlodi Plant newydd.

Bydd camau'n cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod **materion tlodi plant yn cael eu prif ffrydio** yn holl bolisïau a rhaglenni perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy'r broses Porth i Bolisïau a thrwy ymgysylltu ar draws adrannau i sicrhau bod polisïau a strategaethau sy'n cael eu datblygu'n 'bodloni'r prawf tlodi plant'. Bydd camau'n cael eu cymryd hefyd er mwyn gweithio ar draws Llywodraeth y Cynulliad a nodi ym mhle y gellir addasu polisïau sy'n bodoli'n barod er mwyn iddynt allu cael mwy o effaith ar ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Gweithredu rheoliadau sy'n gysylltiedig â Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Ar ôl eu cymeradwyo, gweithredir y rheoliadau'n raddol
Cynhyrchu Strategaeth Tlodi Plant	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Rhagfyr 2010
Gweithredu Strategaeth Tlodi Plant a monitro'n gyson	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2010 ymlaen
Datblygu a gweithredu canllawiau i gefnogi Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)	Llywodraeth Cynulliad Cymru	O Ebrill 2010

BLAENORIAETH 2:
Sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed

ERTHYGLAU: 9, 19, 20, 21, 23, 25 a 29

Mae gan blant hawl i gadw mewn cysylltiad â'u rhieni oni bai bod angen eu cadw rhag niwed neu esgeulustod er eu lles eu hunain. Dylid parchu eu crefydd a'u diwylliant, ac mae'r un peth yn berthnasol os bydd plant yn cael eu mabwysiadu. Os yw plentyn yn anabl dylai gael gofal arbennig, a dylai plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol gael eu hadolygu'n rheolaidd. Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod pob un o'r plant hyn yn cael gofal priodol.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion yn ymwneud â'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed. Roedd y rhain yn nodi y dylai Plaid y Wladwriaeth sicrhau amddiffyniad llawn rhag gwahaniaethu ar unrhyw sail (Para 25); gwella'i chefnogaeth i rieni a gwarcheidwaid cyfreithlon (gan gynnwys cefnogi plant a allai fod â rhieni mewn carchar) a gwella trefniadau monitro (Para 45); trefnu, er pennaf les plant, iddynt gael eu mabwysiadu cyn gynted ag y bo modd, gan roi ystyriaeth briodol i'w cefndir diwylliannol (Para 47); cymryd y camau angenrheidiol er mwyn ymestyn cymhwysiad Confensiwn yr Hâg ar Fabwysiadu rhwng Gwledydd i'r Tiriogaethau Tramor (Para 49); a sicrhau bod deddfwriaeth sy'n diogelu plant/pobl sydd ag anableddau yn cael ei gweithredu'n effeithiol, gan gynnwys hyfforddiant i staff proffesiynol sy'n gweithio yn y maes (Para 53).

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion yn ymwneud â'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed hefyd er mwyn rhoi sylw i faterion trais, cam-drin ac esgeuluso (Paragraffau 39 a 51). Ymdrinnir â'r rhain dan flaenoriaeth 10. Yn yr un modd, ymdrinnir â materion yn ymwneud â phlant sydd ag anableddau (fel ym mhwynt bwled 5 uchod) dan flaenoriaeth 9.

Beth sydd wedi digwydd:

Mae strategaeth yn cael ei datblygu ar gyfer plant agored i niwed, a bydd yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, plant a phobl ifanc sy'n gadael gofal a phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal. Cefnogir datblygiadau gan ddarpariaethau yn y Mesur Plant a Phobl Ifanc ynghyd â deddfwriaeth yn ymwneud yn benodol â Chymru drwy Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch Plant Agored i Niwed a Thlodi Plant, gan ddefnyddio pwerau dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn rhoi pwerau ehangach i Lywodraeth y Cynulliad gan ei galluogi i ddeddfu ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd yn unol â blaenoriaethau ac amserlen Cymru.

Cyhoeddwyd Strategaeth Cymru Gyfan ar Gam-drin yn y Cartref yn 2005. Roedd y strategaeth hon yn cefnogi nifer o wahanol gamau gweithredu, gan gynnwys prosiectau unigol, rhaglen ysgolion a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol sydd wedi'u sefydlu ledled Cymru. Lansiwyd ymgyrch gyhoeddusrwydd i gyd-fynd â'r gwaith hwn ac mae'r

cynnydd wedi bod yn cael ei fonitro gan ddefnyddio data amrywiol, gan gynnwys Arolwg Troseddu Prydain. Mae'r strategaeth wreiddiol wedi cael ei hadolygu yn dilyn y dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg gyda'r nod o lunio cynllun gweithredu strategol newydd (sydd hefyd yn cefnogi blaenoriaeth 10 yn y Cynllun Gweithredu hwn - Gweithio er mwyn gwneud cosb gorfforol i blant a phobl ifanc yn anghyfreithlon ym mhob sefyllfa).

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar yn tynnu sylw at faterion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn gwella profiadau gofalwyr ifanc. Mae ymateb i'r adroddiad hwn yn cael ei baratoi ar hyn o bryd.

Mae mesurau sy'n gofalu am les a diogelwch plant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod plant agored i niwed yn cael eu diogelu. Amlinellwyd hyn yn Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 (a gyhoeddwyd yn 2006) ac mae'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Sefydlwyd Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru yn 2006 er mwyn sicrhau bod sefydliadau perthnasol ym mhob ardal awdurdod lleol yn cydweithio er mwyn diogelu a hybu lles plant, ac er mwyn sicrhau effeithiolrwydd yr hyn y maent yn ei wneud. Mae'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am gynnal adolygiadau o achosion difrifol mewn amgylchiadau penodedig, sy'n cynnwys marwolaeth ac anafiadau difrifol. Yn 2008 cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru adolygiad o drefniadau amddiffyn plant mewn awdurdodau lleol a Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru, a bydd canlyniadau'r adolygiad yn cael eu cyhoeddi yn hydref 2008. Ar wahân i hynny, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cynnal adolygiad o ddarpariaeth yn Ymddiriedolaethau'r GIG a rhai practisiau meddygon teulu, a bydd canlyniadau'r adolygiad hwn hefyd yn cael eu cyhoeddi. Bydd canlyniadau'r arolygiadau hyn yn sail i newidiadau sydd eu hangen i'r trefniadau amddiffyn plant presennol yng Nghymru.

Mae diogelu plant agored i niwed yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad. Cyflwynwyd trefniadau yn 2008 i adolygu effeithiolrwydd trefniadau diogelu a oedd yn bodoli drwy nifer o asiantaethau statudol a oedd â chyfrifoldebau cyfreithiol ym maes diogelu plant er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n ddigon cadarn. Yn dilyn hynny cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru arolygiad o bob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn gwirio canlyniadau'r hunanarchwiliadau ac, ar wahân, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru waith tebyg yn y GIG drwy arolygu Ymddiriedolaethau'r GIG a rhai practisiau meddygon teulu. Cafodd canlyniadau'r arolygiadau hyn eu cyhoeddi yn Hydref 2009. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r adroddiad a luniwyd gan yr Arglwydd Laming ym Mawrth 2009 a chamau a gymerwyd yn dilyn yr adroddiad hwnnw.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu prosiect peilot i brofi ymarferoldeb sefydlu proses adolygu marwolaethau plant ar gyfer Cymru gyfan. Mae yna eisoes broses sefydledig ar gyfer adolygu marwolaethau plant unigol yng Nghymru lle tybir bod camdriniaeth neu esgeulustod wedi bod yn ffactor yn y farwolaeth ac mae dyletswydd statudol ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant i gynnal Adolygiadau Achosion Difrifol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian i Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru er mwyn iddo allu llunio argymhellion yn ymwneud â phroses Adolygu Marwolaethau Plant ar gyfer Cymru Gyfan. Bydd astudiaeth beilot gychwynnol, a ddechreuodd yn Hydref 2008, yn dod i ben yn 2010.

Mae adolygiad yn cael ei gynnal o drefniadau ar gyfer cynnal Adolygiadau Achosion Difrifol yng Nghymru a'u heffeithiolrwydd wrth wella ymarfer a gwaith rhyngasiantaethol. Bydd y gwaith hwn yn edrych ar rôl adolygiadau achosion difrifol yn y dyfodol a sut y byddant yn

cael eu cynnal yng nghyd-destun y rhaglen genedlaethol ar gyfer gwella gwaith i ddiogelu plant yng Nghymru. Bydd hefyd yn argymell trefniadau er mwyn gwella'r arferion presennol yn y dyfodol.

Cydnabyddir ei bod yn debygol y bydd ar lawer o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed angen cymorth ychwanegol er mwyn cael gafael ar gefnogaeth a gwasanaethau. Bydd y model newydd ar gyfer darparu Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru'n helpu i fynd i'r afael â'r bwlch hwn. Bydd hyn, yn ei dro, yn sicrhau bod mwy o wasanaethau eiriolaeth annibynnol proffesiynol ar gael i bob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig plant a phobl ifanc agored i niwed, er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried pan fo penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy'n cael eu gwneud a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar fwy o wasanaethau cymorth.

Beth fydd yn digwydd:

Mae **Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)** yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu **model Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd**, sy'n cynnwys partneriaethau statudol, amlddisgyblaethol sy'n ceisio sicrhau gwell canlyniadau i blant agored i niwed drwy ddarparu gwell gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i deuluoedd sydd ag anghenion cymhleth. Ei nod yw diwygio gwasanaethau sy'n cael eu darparu i blant a theuluoedd agored i niwed yng Nghymru a bydd yn darparu cymorth wedi'i dargedu, sy'n canolbwyntio ar y teulu fel uned. Bydd y model yn canolbwyntio i ddechrau ar deuluoedd lle mae problem rhieni'n camddefnyddio sylweddau yn ogystal â phryder ynglŷn â lles y plentyn, ond y nod yw ymestyn y model i gynnwys teuluoedd lle mae anawsterau trais domestig, iechyd meddwl neu anabledd dysgu. Bydd y model yn cael ei brofi mewn tair ardal arloesi ddynodedig gan ddechrau yng ngwanwyn 2010. Mae nifer o ddatblygiadau eraill ar y gweill er mwyn cryfhau trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i wella canlyniadau i blant agored i niwed a'u teuluoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd mewn angen, yn derbyn gofal ac yn gadael gofal. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pwerau newydd i **gryfhau'r trefniadau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal** a phlant sy'n gadael gofal drwy weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008
- Canllawiau statudol '**Pe bai'n blentyn i mi**' a '**Swyddogaeth ac Atebolrwydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol**' wedi'u dosbarthu i aelodau etholedig lleol a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cadarnhau pwysigrwydd eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol dros blant mewn gofal in care

Bydd **Gorchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009** yn rhoi pŵer i'r Cynulliad ddatblygu Mesurau i gefnogi'r gofal a ddarperir gan ofalwyr a hybu lles gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc. Ein bwriad yw ymgysylltu â gofalwyr ifanc a rhanddeiliaid eraill er mwyn cyflwyno mesurau a fydd yn helpu i sicrhau nad oes gan ofalwyr ifanc ormod o faich gofalu.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu gwaith i **werthuso effeithiolrwydd Adolygiadau Achosion Difrifol** sydd wedi cael eu cynnal yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn canfod arferion da a sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau hyn yn cael ei rannu'n briodol ag aelodau o Fyrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru.

Sicrhau bod mwy o **eiriolaeth annibynnol broffesiynol** ar gael i bob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig plant a phobl ifanc agored i niwed, er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried pan fo penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy'n cael eu gwneud a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar fwy o wasanaethau cymorth. Bydd hyn yn deillio o'r model newydd ar gyfer darparu Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc. Bydd hwn yn cael ei weithredu dros y 2 flynedd nesaf.

Bydd camau gweithredu a gynigiwyd dan y **Cynllun Gweithredu ar Gam-drin Domestig** yn cael eu rhoi ar waith hefyd er mwyn helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cam-drin domestig. Darperir hyfforddiant i nifer o wahanol weithwyr proffesiynol, gan gynnwys athrawon, penaethiaid a staff eraill mewn ysgolion er mwyn **cynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â phriodasau dan orfod, anffurfio organau cenhedlu merched a thrais er anrhydedd**.

Mae **diwygiad arfaethedig y fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig (cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol 2007) (gweler blaenoriaeth 9)** yn cynnwys cynigion i sefydlu model amlasiantaethol yn ymdrin â gwaith adnabod, asesu, cynllunio, ymyrryd ac adolygu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol difrifol a chymhleth. Mae cynllun peilot ar y gweill i ddatblygu'r model i sicrhau tîm effeithiol 'o amgylch y plentyn a'r teulu'. Un elfen o'r cynigion hyn yw datblygu mecanweithiau heb lawer o straen i alluogi rhieni, gofalwyr a phobl ifanc i fynegi eu pryderon a'u cwynion. Rhagwelir y bydd mesur i sicrhau bod y model hwn yn cael ei weithredu'n cael ei gynnig yn 2013.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Gweithredu'r model Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau yng ngwanwyn 2010
Rhoi'r Cynllun Gweithredu ar Gam-drin Domestig ar waith	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2009 ymlaen
Llunio canllawiau statudol ar Pe bai'n blentyn i mi a Rôl a Swyddogaethau Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Gorffennaf 2009
Cyhoeddi adroddiad cyfunol ar yr Adolygiadau Achosion Difrifol sydd wedi cael eu cynnal er 2007, a dosbarthu canlyniadau'r ymarfer hwn i Fyrddau Lleol Diogelu Plant i helpu i wella dysgu	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mai 2010
Ystyried canlyniad yr astudiaeth beilot ar weithredu adolygiad o farwolaethau plant drwy Gymru gyfan	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2010
Datblygu a gweithredu hyfforddiant yn cynyddu ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol o briodasau dan orfod, anffurfio organau cenhedlu merched a thrais er anrhydedd	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2011

BLAENORIAETH 3:
Cynyddu Ymwybyddiaeth o'r Confensiwn a'r Sylwadau Terfynol

ERTHYGL: 42

Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod pob rhiant a phlentyn yn gwybod am y Confensiwn.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Yn y maes hwn argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai Plaid y Wladwriaeth wneud rhagor i gryfhau ei hymdrechion i sicrhau bod holl ddarpariaethau'r Confensiwn yn hysbys i bawb, a'u bod yn cael eu deall gan oedolion a phlant fel ei gilydd, mewn nifer o wahanol ffyrdd (Para 21), er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r Confensiwn ac yn cael hyfforddiant amdano, gan gyfeirio'n benodol at swyddogion gorfodi'r gyfraith, swyddogion mewnfudo, pobl sy'n gweithio yn y cyfryngau, athrawon, gweithwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol a staff sefydliadau gofal plant. Yn yr un modd, ym Mharagraff 83, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cynyddu ymwybyddiaeth o'r Sylwadau Terfynol a'r Argymhellion er mwyn hybu dadl a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn.

Beth sydd wedi digwydd:

Canfu ymchwil OROS Draig Ffynci mai dim ond 8% o blant a phobl ifanc Cymru oedd wedi cael gwybodaeth am y Confensiwn yn yr ysgol. Awgrymodd arolwg a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru fod 30% o bobl ifanc Cymru'n ymwybodol o'r Confensiwn. Mae astudiaethau amrywiol eraill hefyd wedi nodi lefelau amrywiol (ond isel yn gyffredinol) o ymwybyddiaeth o hawliau yn gyffredinol.

Roedd nifer o wahanol ddogfennau seiliedig ar bolisi a ddosbarthwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n nodi'n benodol sut y maent yn helpu i weithredu'r Confensiwn yng Nghrymu, gan gynnwys cyfeiriadau at yr erthyglau penodol yn y Confensiwn y mae'r cynlluniau'n eu cefnogi, megis y Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc a'r Strategaeth Iechyd a Lles Rhywiol, i enwi rhai yn unig. Bydd hyn yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth llunwyr polisïau a gweithwyr proffesiynol. Yn Hydref 2008, dechreuodd y Rhwydwaith Datblygu Plant a Phobl Ifanc, rhwydwaith mewnol sy'n cynnwys swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, ar y broses o gynyddu ymwybyddiaeth yn eu meysydd polisi perthynol.

Mae gwaith i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn yn mynd rhagddo'n dda yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Rhwydwaith Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc Cymru wrthi'n ymgynghori ynglŷn â Strategaeth ddrafft ar gyfer Gweithlu Plant a Phobl Ifanc, sy'n cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth fel rhan o'r Craidd Cyffredin o Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth. Bydd y ddogfen yn cael ei hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Nhachwedd. Bydd ymgyrch gyhoeddusrwydd drwy Gymru gyfan yn dechrau yn ystod 2009 i gyd-fynd â lansio 'brand' newydd ar gyfer holl gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed.

Mae'r Fframwaith ABaCh diwygiedig ar gyfer ysgolion yn cynnwys cyfeiriad at y Confensiwn a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn. Y nod yw gwneud mwy o waith cynyddu ymwybyddiaeth gyda phlant a phobl ifanc. Yn ôl y Fframwaith '*Dylai'r dysgwyr archwilio'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd, a ategir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn' …… 'a deall: eu hawliau, e.e. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*.'

Casglwyd gwahanol ddarnau o dystiolaeth yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r Confensiwn a hawliau ynghyd. Nodwyd yr amrywiadau yn y dystiolaeth sylfaenol ac awgrymwyd ffyrdd o symud ymlaen er mwyn gwella'r sefyllfa yn y dyfodol. Er mwyn gwella'r dystiolaeth sylfaenol, datblygwyd arolwg peilot ar gyfer pobl ifanc a'i ychwanegu at yr Arolwg Byw yng Nghymru er mwyn ystyried rhai o'r materion a godwyd. Bydd hyn yn helpu (ar y cyd â dulliau eraill, e.e. y Monitor Plant a Phobl Ifanc) i ddangos newid dros gyfnod ac i ddarparu tystiolaeth sylfaenol y gellir ei defnyddio yn y dyfodol fel sail i gamau gweithredu.

Dyfarnwyd Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd i helpu i ddatblygu rhaglen waith ar gyfer Cymru a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu a darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn (Achub y Plant, Cymru). Mae Cyrraedd y Nod, sydd wedi cael arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn cael ei ddefnyddio fel llwyfan i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn, ac fel rhan o hyn mae Draig Ffynci (Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru) a CLIC (Y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol ar gyfer Pobl Ifanc) wedi bod yn darparu rhaglenni gwaith penodol sy'n helpu i gynyddu ymwybyddiaeth yng Nghymru.

Ym Mawrth 2009 cynhaliwyd cynhadledd 'Gwneud Pethau'n Iawn!' er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn a'r Sylwadau Terfynol. Yn y gynhadledd hon addawodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y byddai'n cynnal cynhadledd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn yn Nhachwedd bob blwyddyn, ac ymhen amser bydd y gynhadledd hon hefyd yn cael ei defnyddio fel llwyfan i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud ar sail y Cynllun Gweithredu hwn. Cyhoeddodd prosiect CLIC hefyd grynodeb ar gyfer pobl ifanc o'r argymhellion terfynol, Erthyglau'r Confensiwn, a'r blaenoriaethau cytunedig ar gyfer Cymru. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld bellach ar wefan CLIC. http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/y-gyfraith-hawliau-a-dinasyddiaeth/

Beth fydd yn digwydd:

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn ledled Cymru, a bod angen cyfleu neges glir a chyson gan dargedu nifer o wahanol gynulleidfaoedd. Rhan o gylch gwaith Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc yw rhoi'r Confensiwn ar waith yng Nghymru. Darparodd y gwaith mapio dystiolaeth sylfaenol bwysig ar gyfer y gwaith hwn, a rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu adnoddau i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth yng Nghymru ymhlith plant a phobl ifanc, rhieni, gweithwyr proffesiynol (gan gynnwys grwpiau penodol) a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth â chynulleidfa mor eang bydd angen datblygu **ymagwedd gynhwysfawr a thrawsbynciol at farchnata a chyfathrebu** a fydd yn nodi sut y gellir cyfleu neges gyson. I'r perwyl hwn, mae gwaith cychwynnol wedi'i ddechrau'n barod er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a strategaethau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc

yng Nghymru'n nodi'n glir sut y maent yn helpu i weithredu'r Confensiwn yng Nghymru. Bydd **datblygiadau yn y Canllawiau Partneriaethau a Chynllunio ac yn y Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc** yn arfau pwysig er mwyn cyflawni hyn. Yn yr un modd, bydd angen i bob taflen wybodaeth yn ymwneud â pholisïau neu wasanaethau o'r fath a fydd yn cael ei chynhyrchu sicrhau ei bod yn cyfleu neges gyson yn unol â'r hyn a nodwyd mewn polisïau a strategaethau. Atgyfnerthir hyn drwy **ddatblygu rhagor ar adnoddau sy'n seiliedig ar y Confensiwn** gan ganolbwyntio'n benodol ar gynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc, nid yn unig drwy ABaCh a dysgu ffurfiol, ond hefyd mewn ystod eang o leoliadau eraill lle maent yn dod i gysylltiad â gweithwyr proffesiynol ac yn defnyddio gwasanaethau.

Datblygir **adnoddau hyfforddi** i gefnogi'r gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn mewn cysylltiad â'r Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc a'r **Craidd Cyffredin o Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth** sy'n gysylltiedig â'r strategaeth. Mae hyn yn debygol o gynnwys cyrsiau cyffredinol ar nifer o lefelau a modiwlau proffesiynol penodol.

Byddwn yn ceisio datblygu **Strategaeth Rianta newydd ar gyfer Cymru** a fydd yn ystyried anghenion amrywiol pob rhiant, a thrwy hynny'n codi ymwybyddiaeth o'r Confensiwn ymhlith rhieni a theuluoedd.

Bydd y gwaith o fonitro newid mewn ymwybyddiaeth yn cael ei wneud drwy nifer o wahanol fecanweithiau, gan gynnwys arolygon ar gyfer y plant a'r bobl ifanc eu hunain mewn ysgolion a chartrefi a mesurau yn y **Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc** presennol a'r un diwygiedig.

Cynhelir dathliad o Ddiwrnod Rhyngwladol Hawliau Plant yng Nghymru ym mis Tachwedd bob blwyddyn i gyd-fynd â phen-blwydd y Confensiwn. Defnyddir y diwrnod hwn i ddathlu ac adrodd am gynnydd sydd wedi'i wneud wrth gynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn.

Rhagwelir y bydd datblygu Mesur arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (fel y nodwyd yn 3.3 uchod) yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r flaenoriaeth hon hefyd, os cytunir arno.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Tîm Hawliau, APADGOS, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Sicrhau bod pob polisi, strategaeth a chyfarwyddyd sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru'n cynnwys cyfeiriad at y Confensiwn a'r elfennau y mae'r ddogfen yn anelu at eu cefnogi	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau ar unwaith
Sicrhau bod y Confensiwn yn ganolog i'r Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc a'r Craidd Cyffredin o Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Rhagfyr 2009
Datblygu a dosbarthu adnoddau newydd i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant, pobl ifanc, gweithwyr proffesiynol, rhieni a'r cyhoedd yn gyffredinol	Llywodraeth Cynulliad Cymru; Achub y Plant, Cymru a Draig Ffynci	Dechrau erbyn Rhagfyr 2009
Datblygu adnoddau/deunyddiau am y Confensiwn i'w defnyddio mewn prosiectau CLIC lleol a chenedlaethol	Prosiect CLIC	Erbyn Rhagfyr 2009
Datblygu rhagor ar y ffyrdd o fonitro newid mewn ymwybyddiaeth o'r Confensiwn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau yn Ebrill 2010

BLAENORIAETH 4:
Lleihau'r bwlch rhwng polisi a chanlyniadau i blant a phobl ifanc

ERTHYGLAU: 2, 3, a 4

Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn. Dylai sefydliadau geisio sicrhau pennaf les y plentyn a dylid sicrhau bod yr hawliau sydd yn y Confensiwn ar gael i bawb gan ddefnyddio pa gamau bynnag y mae angen eu cymryd er mwyn gwneud hyn yn bosibl.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Ar ôl edrych ar y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo, teimlai'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn fod bwlch rhwng y pethau da yr oedd polisïau'n ceisio'u cyflwyno a'r pethau a oedd yn cael eu darparu'n ymarferol i blant a phobl ifanc. O ganlyniad, teimlai nad oedd plant a phobl ifanc yn cael y budd y bwriedid iddynt ei gael o'r polisïau.

Nododd y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn ym mharagraff 13 y dylai'r llywodraeth 'sicrhau bod y gwaith o weithredu'r Confensiwn yn cael ei gydgysylltu'n effeithiol, yn lleol hefyd, lle mae gan awdurdodau lleol bwerau sylweddol i bennu eu blaenoriaethau a dyrannu cyllidebau.' Mae hyn yn adeiladu ar Erthygl 4 o'r Confensiwn sy'n nodi y dylai'r llywodraeth 'gymryd pob cam deddfwriaethol a gweinyddol, ynghyd â chamau priodol eraill, er mwyn gweithredu hawliau sy'n cael eu cydnabod yn y Confensiwn'.

Beth sydd wedi digwydd:

Fel yr amlinellwyd yn Adran 1 yr adroddiad hwn, mabwysiadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (yn 2004) fel sail i'w gwaith o lunio polisïau ym mhob maes sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Pwysleisiwyd hyn yn Gweithredu'r Hawliau 2004, ac yn fwy diweddar mewn Canllawiau Partneriaethau a Chynllunio o dan Ddeddf Plant 2004[6].

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod llawer o'i pholisïau'n newydd a'u bod wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau newid strategol hirdymor ym mywydau plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyflwyno systemau i fonitro'u heffaith ac yn gweithio mewn cysylltiad agos â nifer o wahanol bartneriaid cenedlaethol a lleol i helpu i weithredu polisïau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio er mwyn datblygu fframwaith effeithiol i fesur canlyniadau, ac am y 3 blynedd diwethaf mae wedi bod yn datblygu model canlyniadau 'Dangos Llwyddiant' sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru yn Nhachwedd 2008, ac mae'n ceisio tynnu sylw at dueddiadau a phroblemau allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt yng Nghymru yng nghyswllt lles plant a phobl ifanc.

6 Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau 2006 a Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau 2007

Fel y nodwyd yn y flaenoriaeth bydd y Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc a'r Craidd Cyffredin o Sgiliau, pan fyddant wedi'u sefydlu, yn helpu i bontio'r bwlch ymddangosiadol rhwng polisi a'r hyn sy'n cael ei gyflawni ar lawr gwlad. Yn yr un modd, mae mwy o bwyslais ar sicrhau bod polisïau, strategaethau a chanllawiau yn y maes yn dangos sut y maent yn helpu i gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Confensiwn.

Yn gysylltiedig â blaenoriaeth 3 (uchod) mae gwaith i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn wedi'i ddechrau er mwyn sicrhau bod cysylltiadau pendant yn cael eu gwneud rhwng y Confensiwn a pholisi sy'n ceisio rhoi'r Confensiwn ar waith.

Beth fydd yn digwydd:

Er mwyn gallu hybu ei pholisïau a'i rhaglenni'n fwy effeithiol mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu Brand Unigol, **Cymry Ifanc**, i egluro'i gweledigaeth a'i hagenda ar gyfer plant a phobl ifanc wrth asiantaethau partner a dinasyddion Cymru mewn ffordd syml, sy'n gwneud synnwyr. Bydd y Brand yn helpu i sicrhau bod pobl yn deall rôl Llywodraeth y Cynulliad, a bydd yn helpu i ddangos effeithiolrwydd gwasanaethau cyhoeddus wrth wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Bydd yn cael ei ddefnyddio i ddynodi a hyrwyddo polisïau a rhaglenni ar gyfer plant a phobl ifanc, a lle mae unrhyw bolisi cenedlaethol newydd yn cael ei gyflwyno neu ei ddiwygio.

Bydd **strategaeth newydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 0-25 oed yng Nghymru** yn cael ei datblygu. Bydd y strategaeth hon yn mynegi'r weledigaeth yn glir ynghyd â'i nod o weithredu'r Confensiwn. Bydd y strategaeth yn troshaenu'r 22 Cynllun Plant a Phobl Ifanc lleol gyda'r nod o ddarparu cyfeiriad strategol clir. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu yn unol â'r cylch cynllunio er mwyn sicrhau bod cyfeiriad teithio clir yn cael ei ddarparu tuag at gylchoedd cynllunio yn y dyfodol.

Yn unol â blaenoriaeth 3 (uchod) ymagwedd allweddol er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch ymddangosiadol rhwng polisi ac ymarfer fydd sicrhau bod **pob polisi'n nodi'n glir sut yn union y mae'n helpu i wireddu'r Confensiwn**. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn gwella dealltwriaeth, a chefnogir hynny drwy'r Strategaeth Datblygu Gweithlu a'r Craidd Cyffredin o Sgiliau a fydd ar gael cyn bo hir.

Yn APADGOS mae gwaith wedi'i ddechrau er mwyn **datblygu model polisi** sy'n sicrhau bod y Confensiwn yn rhan o'r broses datblygu polisi o'r dechrau. Bydd hyn yn sicrhau bod y Confensiwn yn cael ei brif ffrydio yng nghyfeiriad strategol polisïau APADGOS yn y dyfodol, gan gyfeirio'n benodol at dlodi plant a'r Confensiwn.

Mae gwaith yn dechrau cael ei wneud er mwyn **dynodi a hybu cyfeiriad strategol a gweledigaeth APADGOS**, sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei ymgorffori yn y broses datblygu polisi fel rhan o weithgaredd prif ffrwd APADGOS a datblygu fframwaith ar gyfer cydlyniaeth strategol polisïau APADGOS yn y dyfodol, gan gyfeirio'n benodol at dlodi plant a'r Confensiwn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gweithio gyda'i phartneriaid er mwyn datblygu model **Dangos Llwyddiant ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid** (Ymestyn Hawliau) a **Llwybrau Dysgu 14-19**. Model sy'n seiliedig ar ganlyniadau yw hwn a'i nod yw canolbwyntio ar wella gwasanaethau ar sail y canlyniadau y maent yn eu sicrhau i'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi. Ar ôl datblygu rhagor ar y

model dechreuwyd ar y gwaith o'i dreialu ledled Cymru ym Medi 2009. Bydd y gwaith hwn yn parhau tan Fawrth 2010 pan fydd rhagor o waith yn cael ei ystyried. Mae'r model yn darparu fframwaith a chanllawiau i helpu sefydliadau i fesur a chofnodi cynnydd a phellter a deithiwyd. Ceir rhagor o fanylion yn http://demonstratingsuccess.co.uk/site/

Mae **Canllawiau Partneriaeth a Chynllunio lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc** yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae ffyrdd o gryfhau cyfeiriad at y Confensiwn yn cael eu hystyried er mwyn cryfhau trefniadau lleol ar gyfer gweithredu'r Confensiwn fel rhan o drefniadau cynllunio a phartneriaeth. Cefnogir hyn gan ddatblygiadau yn y Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc a'r Craidd Cyffredin o Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth. Er mwyn helpu i fonitro newid sy'n digwydd yn lleol bydd **Fframwaith Mesur Canlyniadau** yn cael ei ddatblygu. Bydd hyn yn helpu i fesur canlyniadau plant a phobl ifanc ar lefel leol[7].

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

7 Ceir rhagor o fanylion yn adran 7 o'r cynllun hwn

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Gweithredu Strategaeth Gweithlu Plant a Phobl Ifanc a'r Craidd Cyffredin drwy sefydlu Grŵp Gweithlu swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhaglen Rhwydwaith Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc o sefydliadau partner. Rhaglen 3 blynedd wedi'i chyhoeddi yn y ddogfen Strategaeth	Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid	2009-2011
Cynhyrchu canllawiau diwygiedig ar gynllunio lleol a phartneriaethau â chyfeiriad cryfach at y Confensiwn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Ebrill 2010
Hybu'r Confensiwn drwy ddatblygu brand cydnabyddedig ar gyfer holl waith Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda Phlant a Phobl Ifanc dan faner Cymry Ifanc	Llywodraeth Cynulliad Cymru; Achub y Plant, Cymru, a'r Ddraig Ffynci	Manylion i'w cyhoeddi cyn bo hir
Cynhyrchu ac ymgynghori ynglŷn â chynllun strategol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn seiliedig ar y Confensiwn	Prosiect CLIC	Gwanwyn 2010
Dal i gefnogi gwaith megis Dangos Llwyddiant a'r Fframwaith Mesur Canlyniadau er mwyn cynorthwyo sefydliadau i ddangos y canlyniadau y maent yn eu cael a chydnabod llwyddiant	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS

BLAENORIAETH 5:
Gwella cyrhaeddiad addysgol pob plentyn a pherson ifanc

ERTHYGLAU: 13, 28, 29 a 30

Mae gan blant hawl i wybodaeth, hawl i addysg a ddylai ddatblygu personoliaeth a thalentau'r plentyn i'r eithaf a hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Yn ei Sylwadau Terfynol tynnodd y Pwyllgor sylw at yr angen i Bleidiau Gwladwriaethau fynd i'r afael ag anghydraddoldeb sylweddol mewn cyrhaeddiad drwy ddarparu addysg a hyfforddiant cyffredinol, ac ar bynciau penodol, i blant, eu rhieni a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu dysgu; lleihau effeithiau cefndir cymdeithasol ar gyrhaeddiad plant a sicrhau bod addysg amgen o safon ar gael i'r rhai hynny nad ydynt yn cael addysg drwy gyfrwng ysgol; sicrhau bod plant yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â materion o bob math sy'n ymwneud ag ysgolion. Pwysleisir y materion hyn yn yr Argymhellion Terfynol ym Mharagraffau 42d, 45h, 61, 67 a-c & g a 78e).

Beth sydd wedi digwydd:

Roedd *Y Wlad sy'n Dysgu (2001) ac Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwneud Cymru'n wlad sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr, a chanddi ymagwedd gynhwysol at addysg a dysgu, drwy sicrhau bod pob person ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a'r cyfle i gyflawni ei botensial yn llawn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu nifer o gynlluniau i gefnogi datblygiadau yn y maes hwn. Y nod yw gwella cyrhaeddiad dysgwyr.

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw fframwaith polisi cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau gwelliannau ac effeithiolrwydd ysgolion gan ddefnyddio proses ddiwygio ar dair lefel. Mae'n ymwneud â gwneud y system addysg yn ei chyfanrwydd (y Cynulliad, llywodraeth leol ac ysgolion) yn fwy effeithiol a rhoi'r cychwyn gorau posibl i blant a phobl ifanc. Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw cyfrwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad hwn drwy gysoni polisïau a'u gweithrediad er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn meysydd megis y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm sy'n Seiliedig ar Sgiliau, a'r Cwricwlwm 14-19, adolygiad yn cynnwys plant a phobl ifanc o bresenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol; adolygiad o addysg 8-14; a gwaith i roi hawl i blant a phobl ifanc apelio i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (gan gynnwys 3 gweithdy wedi'u cynllunio'n arbennig er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc fynegi eu barn ynglyn â'r cynigion). Ar gyfer dysgu ôl-16 rydym wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu *Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd* newydd ar gyfer dysgu ôl-16. Mae gwaith wedi'i wneud hefyd dan y *Fenter Dysgu ar gyfer Pobl Ifanc yn y System Cyfiawnder Troseddol*[8].

8 Ceir rhagor o fanylion am y cynllun hwn dan Flaenoriaeth 16 yn y cynllun hwn

Cyhoeddwyd yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb ym Mai 2008. Adolygiad cenedlaethol annibynnol o ymddygiad a phresenoldeb oedd hwn. Amlinellwyd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r argymhellion a wnaethpwyd yn 'Ymddygiad a Phresenoldeb', a lansiwyd ar 30 Mawrth 2009. Gellir llwytho copïau o'r crynodeb i lawr hefyd yn: www.cymru.gov.uk/darparwyr dysgu.

Nod Strategaeth *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* yw gwella diffyg sgiliau a chyflogadwyedd; ac mae'r strategaeth ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ceisio sefydlu cynlluniau a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae datblygiadau ar gyfer y dyfodol yn y canllawiau ar gyfer *Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid* yn amlinellu ymagwedd gyfannol at wasanaethau cymorth ieuenctid, gan gynnwys addysg i bobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder troseddol a phwysigrwydd y gwasanaethau hyn er mwyn gwella mynediad at addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a bywyd cymunedau. Mae'r *Strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid* yn pwysleisio cyfraniad pwysig dysgu anffurfiol.

Nod Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru yw lleihau nifer yr oedolion â sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael. Mae ymyriadau cynnar yn ceisio sicrhau bod llai o blant yn mynd i addysg heb fod yn barod i ddysgu neu'n gadael addysg amser llawn heb y sgiliau i'w galluogi i weithredu mewn gwaith ac yn y gymdeithas yn gyffredinol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hybu cyrhaeddiad addysgol lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys plant Sipsiwn a Theithwyr, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phlant gweithwyr mudol) drwy nifer o wahanol fesurau, megis cymorth grant penodol i awdurdodau lleol (gweler 6.2).

Bydd cynlluniau yn y blynyddoedd cynnar yn cynnwys ariannu'r rhaglen Dechrau Da sy'n darparu pecyn o lyfrau i bob teulu yng Nghymru pan fo plentyn yn 9 mis oed ac yna'n 18 mis oed ac adnoddau dysgu tebyg ar gyfer plant hŷn sy'n derbyn gofal. Darperir dwy raglen arall sy'n rhoi grantiau i awdurdodau lleol i gefnogi datblygiad cynnar iaith drwy chwarae ac i gefnogi llythrennedd a rhifedd teuluoedd. Mae'r ddwy raglen hyn wedi'u targedu tuag at yr ardaloedd a'r teuluoedd lle mae'r angen mwyaf. Mewn ysgolion mae'r strategaeth sgiliau sylfaenol yn darparu arian ychwanegol i gefnogi rhaglenni cefnogaeth dal i fyny un-i-un i'r plant hynny sy'n mynd ar ei hôl hi â'u dysgu ac adnoddau ar gyfer athrawon a dysgwyr gyda'r nod o gau'r bwlch llythrennedd rhwng bechgyn a merched drwy'r cynllun Darllenwch Filiwn o Eiriau yng Nghymru.

Dyfarnwyd y contract newydd i gyflenwi CLIC (gwasanaeth gwybodaeth a chyngor cenedlaethol i bobl ifanc) yn ystod 2008. Mae'r cynllun hwn yn rhan allweddol o'r ymrwymiad i ddarparu gwybodaeth o safon. Bydd hyn hefyd yn cefnogi datblygiadau lleol mewn gwasanaethau gwybodaeth i blant a phobl ifanc.

Beth fydd yn digwydd:

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithredu ffrydiau gwaith er mwyn datblygu'r gallu sydd ei angen i gyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn llwyddiannus ym mhob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru o Fedi 2010 ymlaen. Mae'r elfennau trawsbynciol hanfodol yn cynnwys: ymrwymiad i weithio yn nwy iaith Cymru, yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddatblygu gwlad ddwyieithog; cydnabyddiaeth y dylai pob polisi roi sylw priodol i'r angen i gynnwys pob plentyn a pherson ifanc; pwyslais ar les ehangach plant a phobl ifanc; darparu arweiniad strategol i'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion drwy drefniadau gweithio cydgysylltiedig ac integreiddio polisi.

Mae'r **Gronfa Ysgolion Gwell** yn darparu cefnogaeth gychwynnol i helpu ysgolion ac awdurdodau i weithredu cynlluniau newydd a datblygu ymagweddau arloesol er mwyn gwella canlyniadau dysgwyr a chodi safonau cyrhaeddiad mewn ysgolion. Yn unol â chynlluniau eraill, mae parhau i wella'r canlyniadau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru'n dal yn un o brif flaenoriaethau'r Gronfa Ysgolion Gwell. Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn hybu cydweithio ar draws gwasanaethau mewn Awdurdodau Lleol, a rhwng gwahanol Awdurdodau Lleol, sy'n arbennig o bwysig er mwyn sicrhau perfformiad tecach a thorri'r cysylltiad rhwng anfantais a chanlyniadau dysgu gwael. Mae'r prif ffactorau sbarduno ar gyfer 2009-10 yn cynnwys: cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen Rhagori er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau negyddol allgáu cymdeithasol ac anfantais economaidd-gymdeithasol ar bresenoldeb a chanlyniadau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o wynebu allgáu cymdeithasol, gan gynnwys y rhai hynny o leiafrifoedd ethnig a phlant sy'n derbyn gofal; a'r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion a'r elfennau sy'n rhan ohoni.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n poeni am unrhyw blentyn sydd ar goll o'r system addysg. Mae'n bwysig iawn adnabod ac olrhain disgyblion sy'n 'diflannu' o'r system addysg er mwyn sicrhau eu lles. Mae Adran 4 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi dyletswydd statudol i bob awdurdod lleol wneud trefniadau i adnabod plant o oed ysgol gorfodol yn eu hardal sy'n mynd ar goll o'r system addysg. Bydd y ddyletswydd yn dod i rym ym Medi 2009. Rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru sefydlu system ganolog wedi'i chyd-drefnu er mwyn olrhain plant sydd ar goll o'r system addysg. Disgwylir iddynt weithio a rhannu gwybodaeth gydag awdurdodau lleol eraill ac asiantaethau er mwyn gwella systemau a phrosesau ar gyfer adnabod plant sy'n symud o un ardal i un arall. **Cyhoeddir canllawiau yn hydref 2009** a byddant yn helpu i sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar eu hawl i addysg.

Cynhelir **ymchwiliad i ymddieithrio o ddysgu** fel yr amlinellwyd yn Cymru'n Un. Bydd yr ymchwiliad hwn yn edrych ar y rhesymau pam y mae pobl ifanc yn ymddieithrio o ddysgu ac yn edrych yn fanwl ar y cysylltiad rhwng hyn a pholisïau addysg penodol yng Nghymru. Mae gwasanaethau cymorth ieuenctid a dysgwyr yn darparu mecanwaith allweddol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael y cymorth a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen er mwyn manteisio ar gyfleoedd mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Cynhyrchir canllawiau diwygiedig yn egluro pwysigrwydd y gwasanaethau hyn wrth ddarparu mynediad at hawliau. Yn yr un modd, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi gwaith i **wella trefniadau ar gyfer Cadw mewn Cysylltiad** â phobl ifanc 11-25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, neu sy'n debygol o fod yn y sefyllfa honno.

Nod **Llwybrau Dysgu 14-19** yw trawsnewid addysg yng Nghymru; codi cyrhaeddiad addysgol yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5; lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn heb gymwysterau; cynyddu cyfran y bobl ifanc 16 oed sy'n mynd ymlaen i addysg bellach, addysg amser llawn neu addysg yn y gwaith; a lleihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Bydd gan bob person ifanc Gynllun Llwybr Dysgu wedi'i deilwrio'n unigol er mwyn diwallu ei anghenion, a bydd hefyd yn gallu cael mynediad at gyfuniad unigryw o wasanaethau cymorth a fydd yn ei alluogi i wella'i gyrhaeddiad addysgol a chyflawni ei botensial yn llawn. Mae hyn yn helpu i gyflawni'r nod o sicrhau, erbyn 2015, y bydd 95% o bobl ifanc, erbyn y byddant yn 25 oed, yn barod ar gyfer cyflogaeth sgiliau uwch neu addysg uwch.

Mae Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru yn ymrwymo Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu **Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd newydd** i gefnogi gwelliannau parhaus yn ansawdd dysgu ôl-16. Mae'r fframwaith newydd yn ceisio 'codi'r bar' er mwyn cyrraedd ein nod o ariannu dysgu o'r safon uchaf yn unig. Byddwn hefyd yn canolbwyntio mwy ar gael dysgwyr i chwarae rhan weithredol mewn prosesau gwneud penderfyniadau, canlyniadau dysgwyr, gallu darparwyr i ddarparu ar gyfer y galw (gan gynnwys y galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg), partneriaethau effeithiol ac ymatebolrwydd. Defnyddir data ystadegol i fesur llwyddiant dysgwyr, helpu darparwyr i feincnodi eu perfformiad a gosod targedau ar gyfer gwella.

Yn 2010 bydd **Strategaeth Sgiliau Sylfaenol newydd** yn cael ei lansio mewn cysylltiad â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a fydd yn dal i dargedu cymorth tuag at y grwpiau hynny o blant a phobl ifanc sy'n tangyrraedd mewn llythrennedd a rhifedd.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Sefydlu'r system, newid a chyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i ysgolion	Llywodraeth Cynulliad Cymru/Llywodraeth Leol /Ysgolion/Estyn	Erbyn Medi 2010
Llunio canllawiau ar Blant sy'n Colli Addysg er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu manteisio ar ei hawl i addysg a llunio canllaw ymarfer da	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau yn hydref 2009
Llunio canllawiau diwygiedig ar Wasanaethau Cymorth Ieuenctid a'u rôl er mwyn hybu hawliau a mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a gwneud gwaith pellach i wella trefniadau a systemau Cadw mewn Cysylltiad yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau erbyn Rhagfyr 2010
Sefydlu Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd newydd i gefnogi gwelliannau parhaus yn ansawdd dysgu ôl-16 sy'n gysylltiedig â'r Confensiwn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	O hydref 2009 ymlaen
Gwneud gwaith pellach i leihau effeithiau cefndir cymdeithasol plant ar eu cyrhaeddiad yn yr ysgol drwy gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen*; dal i adolygu'r cwricwlwm seiliedig ar sgiliau diwygiedig** ac ymateb i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygu Addysg 8-14, gan ganolbwyntio ar leihau effeithiau cefndir cymdeithasol plant ar eu cyrhaeddiad yn yr ysgol***	Llywodraeth Cynulliad Cymru	* 2008/9 hyd 2011/12 ** Dechrau ym Medi 2009 *** Mawrth 2010
Cynnal ymchwiliad i ymddieithrio o ddysgu fel yr amlinellwyd yn Cymru'n Un	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mawrth 2010
Lansio Strategaeth Sgiliau Sylfaenol newydd a gweithredu camau sy'n gysylltiedig â hi	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Diwedd 2010 ymlaen

BLAENORIAETH 6:
Cefnogi lles emosiynol pob plentyn a pherson ifanc

ERTHYGLAU: 6, 24, 27 a 39

Mae gan blant hawl i ofal iechyd o ansawdd da a safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai plant sy'n cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael cymorth arbennig i adfer eu hunan-barch. Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach, a helpu teuluoedd sy'n methu â fforddio darparu ar gyfer eu hanghenion.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i amddiffyn hawliau plant i fywyd, gan gynnwys adolygu effeithiolrwydd mesurau ataliol. Mae safon byw ddigonol yn hanfodol ar gyfer datblygiad (corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol) plant a dylid mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran mynediad at ofal iechyd a gwella adnoddau er mwyn diwallu anghenion plant sydd â phroblemau iechyd meddwl. Dylid gwella cymorth sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd atgenhedlol a chamddefnyddio sylweddau. Yn ychwanegol at hyn, dylai'r llywodraeth wella cymorth i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol â'u cyfrifoldebau magu plant. Pwysleisir y materion hyn yn argymhellion terfynol 29, 45 (a), 55, 57, 61, 63 & 65.

Beth sydd wedi digwydd:

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, wedi sefydlu nifer o gynlluniau i helpu i ddatblygu cymorth sy'n ymwneud â gwella lles emosiynol plant a phobl ifanc. Mae angen cryfhau gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS). Yr ymagwedd yng Nghymru (sy'n cael ei hamlinellu yn *Busnes Pawb*) yw cynnwys pob asiantaeth, a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain, yn y gwaith o ddatblygu cymorth i blant a phobl ifanc a allai fod â phroblemau iechyd meddwl neu salwch meddwl. Mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu clustnodi er mwyn sefydlu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion a chymorth eiriolaeth cyffredinol ac wedi'i dargedu, ac er mwyn datblygu rhagor ar CAMHS y Gwasanaeth Iechyd Gwladol gan ganolbwyntio'n benodol ar weithwyr iechyd meddwl, â chefnogaeth gan dargedau penodol yn ymwneud â mynediad at driniaeth a chymorth.

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, a lansiwyd yn 2005, yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth yn gosod plant a'u teuluoedd wrth graidd darparu gwasanaeth drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dylunio er mwyn diwallu eu hanghenion penodol. Nid strategaeth ar gyfer iechyd yn unig yw hon. Mae'n strategaeth hefyd ar gyfer gwasanaethau lleol eraill sy'n dylanwadu'n gryf ar iechyd a lles plant. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn gosod safonau ar gyfer darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n cael problemau neu anhwylderau iechyd meddwl ac yn ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad teg at ystod gynhwysfawr o wasanaethau, sy'n seiliedig ar asesiad o'u hanghenion, ac yn cael eu darparu mewn modd cydgysylltiedig.

Mae iechyd a lles meddyliol plant, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gwnaethpwyd ymrwymiad yn Cymru'n Un, i roi blaenoriaeth newydd i ddarparu ar gyfer iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau. Gosodwyd targed CAMHS manwl ar gyfer y GIG yng Nghymru yn 2008-09, er mwyn sicrhau bod cymorth a chyngor yn cael ei ddarparu yn Haen 1, a bod amseroedd mynediad yn cael eu tynhau, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n dod i'r amlwg mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn cael eu hadnabod yn gynnar drwy hyfforddiant ar gyfer gweithwyr allweddol a bod Cynghorwyr Iechyd Meddwl ar gael i bob Tîm Troseddau Ieuenctid. Mae'r targedau hyn wedi cael eu hailadrodd ar gyfer 2009/10.

Mae Maes Gweithredu 2 yn y papur gweithio drafft ar Iechyd a Lles Rhywiol yn canolbwyntio ar waith cychwynnol i atal afiechydon rhywiol drwy roi i bobl ifanc yr wybodaeth, yr hysbysrwydd, y sgiliau a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen i wneud dewisiadau iach ynglŷn â'u hiechyd a'u lles rhywiol.

Mae'r strategaeth camddefnyddio sylweddau newydd ar gyfer Cymru'n rhoi pwyslais clir ar atal, mynd i'r afael â'r risgiau allweddol a ffactorau diogelu, ac ymgysylltu â rhieni a theuluoedd. Cyhoeddwyd Canllawiau Arfer Da i ddarparu gwasanaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Nod y ddogfen yw cynorthwyo cynllunwyr a darparwyr gwasanaethau i sefydlu gwasanaethau effeithiol ar gyfer pobl ifanc mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi sylw i brif gydrannau ymateb cynhwysfawr i fygythiad sylweddau amrywiol i blant a phobl ifanc. Rhaglenni addysgol cyffredinol, rhaglenni wedi'u targedu, ymyriadau er mwyn gwella rhaglenni posibl a dynodedig (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel triniaeth) yw'r rhain.

Bydd Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn cael ei gyflwyno yn ystod haf 2010/11. Rhaglen hyfforddiant yw hon sy'n addysgu pobl ynglŷn â phroblemau iechyd meddwl ac yn rhoi iddynt y sgiliau a'r hyder sydd ei angen i helpu'r rhai sy'n profi trallod meddwl.

Mae dogfen arferion da ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol wedi'i chyhoeddi er mwyn cael sylwadau ynglŷn â'r dulliau gweithredu y gallant eu defnyddio i hybu iechyd a lles emosiynol plant a phobl ifanc.

Cyhoeddwyd Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru - Strategaeth Genedlaethol yn Ebrill 2008. Mae'n amlinellu datblygiad gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar gyfer pobl ifanc sy'n ddiogel, yn hygyrch ac o safon uchel. Y nod yw sicrhau bod darpariaeth gwnsela ar gael i bob disgybl ysgol gan wneud iddynt deimlo'n hyderus y bydd rhywun yn gwrando ar eu hanghenion ac yn rhoi sylw iddynt. Mae'r Strategaeth yn ymwneud â chwnsela ffurfiol - cwnsela gan gwnselydd proffesiynol â chymwysterau priodol yn gweithredu mewn rôl arbenigol ac yn unol â chod moesau cydnabyddedig sy'n galw am gyfrinachedd, atebolrwydd, goruchwyliaeth a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae cwnsela'n un o nifer o wasanaethau sy'n helpu i ddiwallu anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol disgyblion ac mae'n arwain at ddiwylliant ysgol iach sy'n hybu iechyd a lles disgyblion ac yn helpu i greu amgylchedd dysgu effeithiol. Mae Strategaeth Cymru wedi cael ei rhannu ledled y DU mewn cyfres o gyfarfodydd rhwng y pedair gwlad ac â chydweithwyr ym Malta a Chenia.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP) wedi datblygu pecyn o safonau a chanllawiau ar gyfer pawb sy'n ymwneud â datblygu cwnsela yng nghymuned yr ysgol. Yn hytrach na bod yn ddogfen

swyddogol, bydd yn esblygu wrth i'n gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc ddatblygu. Mae hefyd yn ategu pedwerydd argraffiad Good practice guidance for counselling in schools, a gyhoeddwyd gan BACP. Mae'r Pecyn Cymorth yn seiliedig ar brofiad cydweithwyr ar hyd a lled y DU lle mae cwnsela wedi'i ymgorffori fel rhan brif ffrwd o ddarpariaeth yr ysgol.

Beth fydd yn digwydd:

Bydd fersiwn terfynol o Meddwl yn Gadarnhaol, canllaw arferion da ar gyfer iechyd a lles emosiynol plant a phobl ifanc, yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2009.

Bydd **Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, ar gyfer Plant a Phobl Ifanc** yn cael ei gyflwyno yn ystod haf 2010/11. Rhaglen hyfforddi yw hon sy'n addysgu pobl ynglŷn â phroblemau iechyd meddwl ac yn rhoi iddynt y sgiliau a'r hyder sydd ei angen er mwyn helpu'r rhai hynny sy'n profi trallod meddwl.

Rydym yn ariannu **Rhaglenni Cryfhau Teuluoedd** newydd ledled Cymru sy'n targedu pobl ifanc 10-14 oed a'u rhieni gyda'r nod o gryfhau agweddau ar fywyd teuluol sy'n diogelu rhag camddefnyddio sylweddau (rhianta, cyfathrebu, a sgiliau gwrthsefyll pobl ifanc). Cafwyd adroddiadau bod y rhaglen yn effeithiol wrth hybu integreiddiad teuluol, gohirio adeg dechrau defnyddio alcohol, lleihau'r nifer sy'n dechrau ysmygu, a lleihau nifer yr achosion o ddefnyddio cyffuriau caletach.

Lansiwyd y **Pecyn Cymorth o ganllawiau, safonau a deunydd enghreifftiol a'r DVD i bobl ifanc** ar gyfer cwnsela mewn ysgolion yn Hydref 2009. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu gwasanaethau newydd yn ogystal â sicrhau cysondeb, ansawdd a safonau mewn gwasanaethau cwnsela sy'n bodoli'n barod. Mae rhagor o waith yn cael ei ddatblygu er mwyn ei ychwanegu at y Pecyn Cymorth a rhoi cyngor penodol ar weithio gyda phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg brif ffrwd. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu'n rheolaidd er mwyn ychwanegu at yr ystod o becynnau cymorth a strategaethau ar gyfer partneriaid a chwnselwyr.

Mae'n hanfodol bod cwnselwyr yn gwerthuso'u gwaith gyda phobl ifanc. Mae hyn yn darparu gwybodaeth i bob rhanddeiliad, gan gynnwys pobl ifanc, ynglŷn â sut y mae'r gwasanaeth yn gweithio, a pha effaith y mae'n ei gael ar iechyd a lles emosiynol pobl ifanc. Bydd yr wybodaeth hefyd yn darparu adborth am faterion sy'n effeithio'n aml ar bobl ifanc a bydd yn bwysig fel sail i bolisi a chyllido. Mae'r **gwasanaethau'n cael eu monitro a'u gwerthuso'n barhaus o ran data allbynnau a chanlyniadau**. Mae hyn yn cynnwys defnyddio offer mesur canlyniadau, megis Young Person's Clinical Outcomes in Routine Evaluation (CORE) neu Holiadur Cryfderau ac Anawsterau Goodman, yn ogystal â holiaduron cyn ac ar ôl cwnsela. Cynhelir **Gwerthusiad cenedlaethol o weithrediad y Strategaeth** o Ragfyr 2009 hyd fis Gorffennaf 2010.

Byddwn yn dal i fonitro targedau CAMHS y Fframwaith Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2009/10 ac yn datblygu'r targedau ar gyfer 2010/11. Byddwn yn dal i weithio gyda Phrifysgol Durham er mwyn datblygu prosiect mapio CAMHS, a darparu adolygiad o ddarpariaeth CAMHS arbenigol yng Nghymru; cefnogi gweithrediad y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth a'r weledigaeth a amlinellwyd yn Busnes Pawb; a darparu data cymharol ynglŷn â chynnydd wrth geisio cyflawni fframweithiau gwasanaeth a chyrraedd targedau cyflenwi.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Cyflwyno rhaglen hyfforddi ar gyfer Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Haf 2010/2011
Llunio canllawiau arferion da dan y teitl Meddwl yn Gadarnhaol - Iechyd a Lles Emosiynol mewn Ysgolion a Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Rhagfyr 2009
Cwblhau adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Haf 2010
Dal i weithredu'r Rhaglen Cryfhau Teuluoedd	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2009
Gwerthusiad cenedlaethol o Gwnsela mewn Ysgolion	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Rhagfyr 2009 - Gorffennaf 2010
Monitro'r Fframweithiau Gweithredu Blynyddol ar gyfer CAMHS	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2007/10 a 2010/11
Parhau â'r gwaith mapio a'r adolygiad o ddarpariaeth CAMHS arbenigol yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2009/10 ac yn parhau

BLAENORIAETH 7:
Gwella cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc chwarae'n ddiogel

ERTHYGLAU: 15, 31

Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno ag ystod eang o sefydliadau gan gymryd rhan yn y gweithgareddau y maent yn eu darparu (cyn belled nad yw hyn yn atal eraill rhag mwynhau eu hawliau).

Argymhellion a wnaethpwyd:

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cryfhau ymdrechion i warantu hawl y plentyn i orffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden sy'n briodol i oed y plentyn ac i gymryd rhan yn rhydd mewn bywyd diwylliannol ac yn y celfyddydau. Dylid rhoi sylw arbennig i ddarparu digon o leoedd chwarae hygyrch i blant, gan gynnwys plant sydd ag anableddau, lle gallant ymarfer eu gweithgareddau chwarae a hamdden (Para 69). Yn yr un modd, er mwyn hybu iechyd a lles sylfaenol plant sydd ag anableddau, dylid datblygu strategaeth genedlaethol er mwyn cynnwys plant sydd ag anabledd yn y gymdeithas (Para 53d).

Beth sydd wedi digwydd:

Mae tystiolaeth a gasglwyd yng Nghymru drwy nifer o astudiaethau wedi awgrymu bod ar blant a phobl ifanc eisiau mwy o leoedd lle gallant chwarae'n ddiogel. Mae Cynulliad Cymru wedi bod yn rhoi sylw i hyn drwy Gynllun Gweithredu ar gyfer Polisi Chwarae 2002. Yn ychwanegol at hyn, mae Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) yn cynnwys darpariaeth i roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn eu hardal. Byddai'r Mesur arfaethedig hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn cael digon o gyfleoedd i chwarae, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, a byddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio'u hasesiadau digonolrwydd chwarae fel sail ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd hon. Bydd y Mesur arfaethedig (os bydd yn cael ei gytuno) yn darparu sail statudol ar gyfer chwarae am y tro cyntaf yng Nghymru. Yr un pryd, mae safonau cenedlaethol sylfaenol ar gyfer darpariaeth chwarae a chanllawiau ar gyfer awdurdodau lleol yn cael eu datblygu.

Mewn Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, mae pob partneriaeth leol wedi amlinellu ei blaenoriaethau strategol ar gyfer sicrhau cyfleoedd i chwarae dan Nod Craidd 4. Cyhoeddwyd Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae yn 2006 gyda'r bwriad o roi sylw i nifer o wahanol faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar chwarae ac mae wedi bod yn sail i ddatblygu strategaethau chwarae lleol ledled Cymru.

Roedd Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae'n egluro sut y byddai egwyddorion y polisi chwarae'n cael eu gweithredu. Roedd hefyd yn nodi sut roedd yn berthnasol a sut roedd yn cyfrannu tuag at gynlluniau strategol cyflenwol eraill Llywodraeth y Cynulliad. Wrth gyflawni'n hymrwymiad i hybu chwarae, ar y cyd â SkillsActive, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cymorth ariannol dros y pedair blwyddyn ariannol rhwng 2007/08 a 2010/11 i Chwarae Cymru er mwyn datblygu Canolfan Genedlaethol Gwaith Chwarae, Addysg a

Hyfforddiant yng Nghymru. Erbyn hyn rydym yn awyddus i asesu sut mae hyfforddiant Gwaith Chwarae wedi cael ei ddatblygu a'i ddarparu yng Nghymru er mwyn gwella'r modd y darperir cyfleoedd chwarae yng Nghymru. Rydym hefyd yn awyddus i ystyried y model darparu gorau sydd ar gael ar hyn o bryd a sefydlu fframwaith cadarn ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod Mai-Gorffennaf 2009 cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Strategol drafft, Dringo'n Uwch: Creu Cymru Egnïol. Mae sylwadau'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a bydd y cynllun terfynol yn cael ei gyhoeddi yn Ionawr 2010. Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu o amgylch pedair thema allweddol, ac un o'r rhain yw Plant a Phobl Ifanc Egnïol. Un o'r blaenoriaethau dan y thema hon yw 'sicrhau mynediad at gyfleoedd safonol i chwarae'.

Gan weithio drwy Gyngor Celfyddydau Cymru a'r gweithgareddau y mae'n eu noddi ac yn eu darparu, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu nifer o wahanol gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu drwy chwarae.

Cyhoeddwyd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yn ystod Mawrth 2007 ac mae wedi arwain at ddatblygu canllaw arferion da, methodoleg gytunedig ar gyfer gwaith ieuenctid a safonau drafft, gan sefydlu Wythnos Gwaith Ieuenctid hefyd.

Beth fydd yn digwydd:

Mae mynediad diogel at chwarae a mwy o gyfleoedd i chwarae wedi cael eu nodi fel materion pwysig gan blant a phobl ifanc yng Nghymru. Dyrannwyd **grant diogelwch ar y ffordd** yn flynyddol i awdurdodau lleol. Anogir awdurdodau lleol i ddefnyddio cyfran o'r arian hwn er mwyn gweithredu parthau 20 milltir yr awr mewn ardaloedd lle mae plant yn debygol o fod o gwmpas. Mae Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn cynnwys nifer o gynlluniau sy'n gwella diogelwch plant sy'n cerdded ac yn beicio i ysgolion, canolfannau hamdden a mannau chwarae.

Roedd **Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae** yn cyfeirio at 19 o gamau i'w gweithredu. Roedd hefyd yn cyfeirio at nifer o agweddau, megis addysg, iechyd, cludiant, hamdden a diogelwch, ac at holl anghenion chwarae plant yn ystod pob cam o'u datblygiad. Mae'n amser yn awr i ailwerthuso cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae a'i 19 cam gweithredu er mwyn inni allu datblygu Strategaeth Chwarae newydd wedi'i diweddaru i fynd â ni ymlaen i'r dyfodol.

Gan adeiladu ar ei waith blaenorol, bydd Cyngor Celfyddydau Cymru'n ymestyn y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar y celfyddydau drwy gymryd rhan yn y prosiectau Cyrraedd y Nod sy'n cael eu harwain gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd hyn yn cynyddu'r arian sydd ar gael i gefnogi gweithgareddau o'r fath ac yn sicrhau eu bod ar gael i fwy o bobl ifanc.

Cynhelir **gwerthusiad o'r Strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid** o Fedi hyd fis Mawrth 2010. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r canlyniadau o safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gwasanaethau Ieuenctid Statudol, Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol a Sefydliadau Addysg Uwch a bydd yn sail i nifer o wahanol ddatblygiadau, er mwyn sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn unol â safonau ac arferion gorau a'u bod mewn gwell sefyllfa i gyflawni disgwyliadau'r plant a'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi.

Mae'n bwysig sicrhau bod trefniadau diogelu digonol yn bodoli o hyd pan fo plant a phobl ifanc yn dewis cymryd rhan mewn chwaraeon. Byddwn yn sicrhau bod Cyngor Chwaraeon Cymru'n dal i gynorthwyo'r sefydliadau y mae'n eu hariannu, yn enwedig Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon yng Nghymru, i gyflawni'r **gofynion ar gyfer sicrhau lles a diogelwch** plant a phobl ifanc tra byddant yn cymryd rhan mewn chwaraeon ar bob lefel.

Bydd **Dringo'n Uwch - Creu Cymru Egnïol**, y Cynllun Gweithredu Strategol 5 mlynedd ar gyfer gweithgaredd corfforol, yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2010, a bydd yn cynnwys camau gweithredu penodol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynorthwyo Plant a Phobl Ifanc Egnïol er mwyn eu helpu i fyw bywydau egnïol a dod yn oedolion egnïol. Bydd cynllun gweithredu'n cael ei greu hefyd er mwyn gwella perfformiad a rhagoriaeth mewn chwaraeon.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Cangen Rhaglenni Plant a Theuluoedd, APADGOS

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Cyhoeddi fersiwn terfynol Cynllun Gweithredu Strategol Dringo'n Uwch: Creu Cymru Egnïol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau 2010
Byddwn yn dal i weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac yn ei gynorthwyo i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymwneud â'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt drwy weithgareddau fel cynllun Sblash Cymru a chyrff megis Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ac Asiantaeth Genedlaethol Cymru ar gyfer Theatr i Bobl Ifanc	Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ARTS	PARHAUS
Canlyniadau'r adolygiad/gwerthusiad o'r Strategaeth ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid i fod yn sail ar gyfer datblygu strategaeth arloesol newydd ar gyfer 2010 - 2013	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2010-13
Gwerthuso Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae a datblygu Strategaeth Chwarae newydd	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth yn mynd rhagddo
Bydd Cynllun Gweithredu'n cael ei roi ar waith er mwyn gwella Perfformiad a Rhagoriaeth mewn Chwaraeon yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	O Ebrill 2010 ymlaen

BLAENORIAETH 8:

Cynyddu cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt hwy

ERTHYGL: 12

Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy, ac i'w barn gael ei hystyried.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod rhywfaint o waith da wedi'i wneud yn y maes hwn, ond bod angen gwneud mwy er mwyn symud ymlaen â'r gwaith o weithredu Erthygl 12 ledled y DU. Rhoddwyd pwyslais ar y canlynol:

- annog cymdeithas sifil, gan gynnwys cyrff anllywodraethol a chymdeithasau plant, i ymwneud yn weithredol ac yn systematig â'r gwaith o hybu a gweithredu hawliau plant (Para 23)
- dal i hybu'r egwyddor o gynnwys pobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau ym mhob maes sy'n effeithio ar y plentyn, gan gynnwys mewn teuluoedd, ysgolion, y gymuned, achosion gweinyddol a barnwrol, fforymau ar gyfer cyfranogiad plant a'r cyfryngau yn unol ag Erthygl 12. Dylid ymgorffori hyn mewn deddfwriaeth (Para 33)
- cryfhau cyfranogiad mewn ysgolion, ystafelloedd dosbarth ac unrhyw leoliadau dysgu (Para 67g)

Beth sydd wedi digwydd:

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud er 2002, gan gynnwys datganiad bachog ar gyfranogi i Gymru, Consortiwm Cyfranogiad amlasiantaethol, cynghorau ysgolion a chynlluniau cyfranogiad disgyblion, a chyhoeddi a mabwysiadu Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad. Y cam nesaf yw cydgrynhoi a sicrhau cynaliadwyedd strwythurau a ffynonellau cyllid, yn ogystal â symud ymlaen eto. Cyhoeddwyd Canllawiau ar Strategaethau Cyfranogi Lleol yn 2007 i gefnogi datblygiadau lleol a sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried fel rhan o strwythurau a phrosesau cynllunio lleol. Mae Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) hefyd yn ceisio gosod cyfranogiad ar sail statudol drwy ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu a hwyluso cyfranogiad plant mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan yr awdurdod ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt hwy.

Mae Prosiect Cyfranogi Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn cynnwys pobl ifanc yn y broses o recriwtio staff sy'n cael dylanwad uniongyrchol ar bolisïau sy'n effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc. Darparwyd hyfforddiant i bobl ifanc i'w galluogi i feithrin sgiliau a gwybodaeth y gallant eu defnyddio i wneud penderfyniad deallus yn nhrefniadau recriwtio a dewis staff Cynulliad Cymru. Mae'r hyfforddiant hefyd yn rhoi i bobl ifanc y sgiliau a'r wybodaeth i'w galluogi i ymwneud â phrosesau recriwtio a dewis staff lleol.

Gwnaethpwyd cynnydd hefyd wrth brif ffrydio cyfranogiad plant a phobl ifanc yng ngweithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy sefydlu Swyddog Cyswllt Is-adrannol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Datblygwyd pecynnau i gefnogi'r hyfforddiant hwn. Mae hyn yn canolbwyntio ar ffyrdd o gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o lunio polisïau, ysgrifennu dogfennau, ymgynghori a ffyrdd eraill o ystyried eu sylwadau a'u barn. I gefnogi hyn, a datblygu rhagor ar sgiliau pobl ifanc, mae hyfforddiant cyfranogi Eich Llais, Eich Dewis yn cael ei ddatblygu ymhellach ac yn cael ei ddarparu dan Brosiect ESF Cyrraedd y Nod.

Mae Draig Ffynci (Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru) wedi parhau i ddatblygu. Mae ei Brosiect Plant fel Ymchwilwyr yn dilyn yr adroddiad Pam fod oed pobl yn mynd fyny nid lawr ac yn rhoi cyfle i blant drefnu eu hagendâu eu hunain a chael rhywun i wrando ar y materion a godir ganddynt ar lefel genedlaethol. Yr un pryd, mae'n galluogi plant i gael eu hyfforddi fel ymchwilwyr ac i gynnal prosiectau ymchwil sydd wedi'u cynllunio ganddynt hwy eu hunain. Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol diweddaraf Draig Ffynci yng Ngorffennaf 2009. Mae'r gweithdai yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn gyfle i bobl ifanc o bob cwr o Gymru siarad gyda Gweinidogion a mynegi eu barn a'u pryderon. Pleidleisiodd y Bobl Ifanc hefyd ynglŷn â meysydd polisi a ddylai gael blaenoriaeth, er mwyn gweithio ar y rhain gyda'i gilydd a chyda phob Awdurdod Lleol y flwyddyn nesaf. Y meysydd blaenoriaeth eleni oedd trafnidiaeth a swyddi/cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc.

Mae'r gwaith o ddatblygu Cynghorau Ysgolion wedi parhau fel a ganlyn:

- Mae'r Pecyn Gweithgareddau ar gyfer Cynghorau Ysgol wedi'i addasu a'i ailddylunio
- Mae Pecyn Cyfranogi wedi'i ddatblygu ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 1 (plant 5 - 7 oed) ac mae'n cynnwys storïau i'w hadrodd, drama a gemau
- Mae adnoddau ar gyfer Athrawon a Llywodraethwyr wedi cael eu treialu
- Datblygwyd Gwefan Cynghorau Ysgol a dwy gêm ar-lein
- Treialwyd Unedau Achredu Peilot (OCN) mewn Cyfranogiad yn ymestyn o lefel Mynediad i Lefel 3 gyda 5 ysgol yn Rhondda Cynon Taf a 4 lleoliad anffurfiol ym Mhowys yn ystod tymor yr haf.

Mae'r Prosiect Cyfranogiad Disgyblion wedi bod yn gweithio er mwyn prif ffrydio cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn meysydd polisi allweddol, yn fwyaf arbennig, y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd (ar gyfer y sector ôl-16) a Llwybrau Dysgu 14 - 19.

Yn ystod 2009 lansiwyd Gwobr Ansawdd Genedlaethol Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach. Mae'r cynllun hwn yn asesu'r hyn y mae ysgolion yn ei weithredu ar sail dangosyddion allweddol ar gyfer 7 pwnc iechyd a 4 maes blaenoriaeth. Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ddangosydd yn un o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer pob pwnc iechyd.

Cyhoeddwyd canllaw i'r Model ar gyfer cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o wasanaethau eiriolaeth annibynnol proffesiynol ar gael i bob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried pan fo penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy'n cael eu gwneud. Sefydlwyd Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol er mwyn llywio a darparu cyngor ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r Bwrdd yn cynnwys yr un faint o Oedolion a Phobl Ifanc.

Beth fydd yn digwydd:

Bydd y **Model ar gyfer cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru** yn cael ei weithredu yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Bydd **Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol** yn cael ei sefydlu, sy'n golygu y gall unrhyw blentyn neu berson ifanc ffonio, anfon neges testun neu fath arall o neges os ydynt yn teimlo bod arnynt angen gwybodaeth, cyngor neu gymorth eirioli er mwyn sicrhau bod eu llais a'u barn yn cael eu clywed mewn penderfyniadau neu sefyllfaoedd sy'n effeithio arnynt hwy. Bydd cymhwyster a fydd yn cael ei gydnabod yn genedlaethol yn cael ei ddatblygu ar gyfer eiriolwyr proffesiynol er mwyn sicrhau safonau uchel cyson a mwy o hygrededd i'r sector. Bydd y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth yn cael eu hailystyried er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Bydd y sefydliadau hynny sy'n comisiynu darpariaeth eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, dan y Model newydd, yn comisiynu drwy drefniadau Partneriaeth ac yn gweithio ar draws ffiniau siroedd er mwyn cynyddu annibyniaeth dybiedig a gwirioneddol yr eiriolwr ar y gwasanaeth y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn dymuno ei stopio, ei ddechrau neu ei newid.

Mae gwaith yn dechrau cael ei wneud er mwyn dynodi pob swydd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru lle gall plant a phobl ifanc ymwneud â'r broses benodi. Mae camau'n cael eu cymryd hefyd er mwyn sicrhau bod holl aelodau a chadeiryddion y panel sifftio a chyfweld yn ymwybodol o'r trefniadau pan fo plant a phobl ifanc yn bresennol ar baneli. Bydd newidiadau'n cael eu gwneud er mwyn ymgorffori hyn mewn hyfforddiant sifftio/cyfweld a hefyd mewn hyfforddiant ORMS er mwyn sicrhau bod yr holl weithdrefnau'n rhan o weithdrefnau a phrosesau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd **hyfforddiant ar gyfranogiad plant a phobl ifanc** yn elfen o gwrs cynefino Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n orfodol i bob aelod newydd o'r staff. Bydd cyfranogiad hefyd yn elfen o hyfforddiant datblygu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i ddatblygu cyrsiau hyfforddi sy'n seiliedig ar y canllawiau Tanio.

Mae'r angen am **Strategaeth Genedlaethol ar Gyfranogiad** wedi'i godi gan bartneriaid allweddol ac mae bellach yn cael ei weld fel ffordd ymlaen er mwyn darparu cyfeiriad strategol i strategaethau cyfranogiad lleol a dynodi rolau a chyfrifoldebau partneriaid a sectorau allweddol wrth symud yr agenda hon yn ei blaen. Mae rhagor o waith datblygu wedi'i gynllunio:

- Bydd **Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)** yn ymgorffori trefniadau lleol cydlynol ar gyfer cyfranogi
- **Gwerthuso Strategaethau Cyfranogiad Lleol**
- Treialu digwyddiad ar gyfer Cymru Gyfan a fyddai'n dod â phlant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru at ei gilydd er mwyn cymryd rhan mewn ymgyngoriadau amrywiol
- Datblygu dogfen adnodd **Young Spice** ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant 0-10 oed
- Gwella hyfforddiant cyfranogi **Eich Llais, Eich Dewis** dan Brosiect ESF Cyrraedd y Nod
- Mae **Rheoliadau a Chanllawiau ar gyfranogiad disgyblion** mewn lleoliadau addysg ffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc 3-18 oed yn cael eu drafftio a'u dosbarthu ar gyfer ymgynghoriad a byddant yn cael eu cyhoeddi yn Hydref 2010

- Mae **pecynnau hyfforddiant cenedlaethol** ar gyfer athrawon ar wahanol adegau yn eu gyrfaoedd, ac ar gyfer llywodraethwyr, gan gynnwys elfennau y cytunwyd arnynt gyda'r Consortiwm Cyfranogiad yng Nghymru'n cael eu cynhyrchu a'u treialu
- **Ailddylunio gwefan Cynghorau Ysgol Cymru** er mwyn creu adnodd rhyngweithiol y gall plant a phobl ifanc ei ddefnyddio i rannu gwybodaeth, syniadau ac arferion da mewn lleoliadau addysg ffurfiol ledled Cymru.

Bydd Mesur arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) am y tro cyntaf yn galluogi plant a phobl ifanc i apelio ynglŷn â'u hanghenion addysgol arbennig (AAA) i Dribiwnlys AAA Cymru. Mae'r Mesur arfaethedig arloesol yn ymestyn hawliau yn gyffredinol. Mae elfennau allweddol o'r Mesur arfaethedig yn cynnwys cyfnod treialu a gwerthuso a dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n cyflwyno/ystyried cyflwyno apêl. Bwriedir i adolygiad o'r Rheoliadau Tribiwnlysoedd cysylltiedig arwain at fwy o gyfleoedd i lais plant a phobl ifanc gael ei glywed, ac i'w barn gael ei mynegi, pa un a yw'r apeliadau/hawliadau wedi'u gwneud ganddynt hwy neu eu rhieni.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Tîm Hawliau, Y Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Bydd prosiect peilot eiriolaeth cenedlaethol yn cael ei sefydlu yng Nghymru a bydd yn dechrau cyn diwedd 2009*. Yr un pryd, bydd ymarfer tendro'n dechrau ar gyfer gwasanaeth tymor hwy**	Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol	* Rhagfyr 2009 ** Hydref 2010
Datblygu Strategaeth Cyfranogiad Genedlaethol i Gymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Hydref 2010
Gwerthuso Strategaethau Cyfranogiad Lleol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Hydref 2010
Cynhyrchu Rheoliadau a Chanllawiau ar gyfranogiad disgyblion mewn lleoliadau addysg ffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc 3 - 18 oed	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Hydref 2010
Datblygu deddfwriaeth dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) a Mesur Addysg (Cymru)	Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid	2010-12

BLAENORIAETH 9:

Gweithio er mwyn dileu gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc sydd ag anabledd; gwella'u mynediad at wasanaethau a chefnogaeth

ERTHYGLAU: 23, 26, 27 a 31

Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbennig i fyw bywydau llawn ac annibynnol a dylai'r llywodraeth gynorthwyo teuluoedd i allu fforddio hyn.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Cyfeiriodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig at ei bryder bod plant sydd ag anabledd yn dal i wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag mwynhau eu hawliau dan y Confensiwn. Er mwyn rhoi sylw i'r pryderon hyn mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai gweinyddiaethau datganoledig amddiffyn pobl sydd ag anabledd drwy ddatblygu deddfwriaeth a strategaethau cenedlaethol. Dylai hyn gyd-fynd ag ymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn cynnwys plant sydd ag anabledd yn y gymdeithas. Cyfeirir yn fwyaf arbennig at y meysydd hyn yn yr Argymhellion Terfynol ym Mharagraffau 45a ac f, 53 a, c-f, 69 ac 81.

Beth sydd wedi digwydd:

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod yr anfanteision economaidd a chenedlaethol a allai ddeillio o nam corfforol neu amhariad arall ac, fel rhan o'i hymrwymiad i sicrhau cynhwysiant, mae'n dymuno lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl ifanc sydd ag anabledd a'u teuluoedd rhag cyfranogi'n llawn ym mywyd cymdeithas sifil. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys sicrhau bod teuluoedd yn gwneud defnydd llawn o gymhorthdal incwm sydd ar gael a bod gwasanaethau chwarae, hamdden ac adloniant ar gael i bobl ifanc sydd ag anableddau ar yr un telerau ag y maent ar gael i blant a phobl ifanc eraill.

Mae'r llywodraeth wedi bod yn gweithio mewn cysylltiad agos ag Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru. Tynnodd yr ymgyrch sylw at nifer o bryderon yn ymwneud â gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Hawliau ar Waith i Blant a Phobl Ifanc, a sefydlwyd gan y Gweinidog ac sy'n cynnwys aelodau o'r ymgyrch ac uwch swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i sefydlu er mwyn symud ymlaen â'r gwaith hwn.

Lansiwyd *Ar y Trywydd Iawn* yn Rhagfyr 2008 ac roedd yn amlinellu agenda bolisi'r Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc anabl. Mae barn y bobl ifanc anabl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn ganolog i'r gwaith hwn. Dynodwyd nifer o feysydd fel canolbwynt i'r gwaith yn y maes hwn, sef:

- Ymgyrch Ymwybyddiaeth o Fudd-daliadau
- Yr Hawl i wneud Honiad o Wahaniaethu ar sail Anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Cynllun Cydraddoldeb Sengl

- Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig
- Lleoedd Newid a Thoiledau
- Gweithwyr Pontio Allweddol
- Y Rhaglen Cymorth Cynnar yng Nghymru
- Cyllid ar gyfer cyfleoedd chwarae i blant anabl
- Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar i Blant Anabl
- Seibiant Byr i Blant Anabl

Mae Cod Ymarfer AAA Cymru (2002), yn darparu canllawiau ac yn amlinellu trefniadau gyda'r nod o alluogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig i gyflawni eu potensial yn llawn. Mae'r cod yn nodi'n benodol y dylai rhieni gael eu cefnogi fel eu bod yn 'gwybod lle i gael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn ystod y broses asesu ac unrhyw brosesau penderfynu cysylltiedig ynglŷn â darpariaeth addysgol arbennig'. Anfonwyd canllawiau i rieni, 'Gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr plant a phobl ifanc y gall fod ganddynt anghenion addysgol arbennig', i bob Awdurdod Lleol er mwyn iddynt eu rhoi i unrhyw riant y mae gan ei blentyn AAA, pa un a yw wedi cael asesiad statudol ai peidio.

Rhaid i Blant a Phobl Ifanc sydd â datganiadau (ac eithrio plant dan ddwyflwydd oed) gael eu hadolygu'n flynyddol o leiaf. Mae'r adolygiad blynyddol o ddatganiad disgybl yn sicrhau bod y rhieni, y disgybl, yr AALl, yr ysgol, a'r holl weithwyr proffesiynol cysylltiedig yn ystyried unwaith y flwyddyn y cynnydd y mae'r disgybl wedi'i wneud yn ystod y 12 mis blaenorol ac a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r disgrifiad o anghenion y disgybl neu i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a nodir yn y datganiad. Mae'n ffordd o fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd a phriodoldeb parhaus y datganiad. Rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol sicrhau bod adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal cyn pen 12 mis ar ôl gwneud y datganiad neu 12 mis ar ôl yr adolygiad blaenorol. Lle bo plentyn â datganiad yn destun gorchymyn gofal, bydd yr awdurdod lleol a ddynodwyd gan y gorchymyn yn rhannu cyfrifoldeb rhiant â rhieni biolegol y plentyn. Gallai plentyn o'r fath fod yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol mewn lleoliad preswyl neu leoliad maeth, neu gallai fod yn byw gartref.

Beth fydd yn digwydd:

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Chynllun Cydraddoldeb Sengl cyntaf ym Mawrth 2009. Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn hybu cydraddoldeb a sut y bydd yn cyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb statudol (anabledd, hil a rhyw). Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cymhwyso'r un egwyddorion cyffredinol i'r meysydd cydraddoldeb newydd - oedran, crefydd neu gred neu ddiffyg cred, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywedd. Datblygwyd y cynllun drwy broses ymgysylltu ac ymgynghori dri cham yn cynnwys ystod amrywiol o randdeiliaid mewn gwahanol feysydd cydraddoldeb. Bydd y Cynllun tair blynedd yn cael ei fonitro bob chwe mis ac yn cael ei adolygu'n ffurfiol yn flynyddol. Bydd **Grŵp Cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl** yn darparu gwasanaeth craffu allanol a fydd yn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y gwaith o fonitro a chyflawni cynllun gweithredu'r Cynllun drwy drafod, cael dadl a herio'r cynnydd a wnaethpwyd, gan ddarparu mecanwaith i rannu arferion da yn ogystal â chynnig cyngor ynglŷn â rhoi camau gweithredu adrannol ar waith.

Cynllun grant i ddarparu cymorth ariannol i deuluoedd plant a phobl ifanc anabl hyd at 18 oed i brynu eitemau i wneud bywyd teuluol yn haws. Mae'r cynllun newydd hwn, **Disgownt Cronfa'r Teulu**, yn ceisio lleddfu tlodi plant gwael ac anabl a'u teuluoedd ym mhob rhan o'r DU. Mae'r cynllun hwn wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i greu cyfleoedd i bob teulu sydd â phlant anabl, beth bynnag ei incwm, gael mynediad at ystod o nwyddau a chyfleusterau angenrheidiol am brisiau is, pan brynir hwy drwy wefan Cronfa'r Teulu.

Yn Hydref 2008 cyhoeddwyd rhaglen i **gynyddu ymwybyddiaeth o'r budd-daliadau y mae gan rieni a gofalwyr plant sydd ag anabledd hawl iddynt**. Gofynnwyd bellach i Gyngor ar Boeth Cymru fod yn gyfrifol am yr ymgyrch fel ymgyrch beilot ar gyfer 2009-10 a 2010-11 er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau fel rhan o'r cynllun llwyddiannus presennol, Cyngor Da: Iechyd Da. Mae'r cynllun yn cael ei weithredu ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol, ac mae'n cynnig darpariaeth leol a chydgysylltiedig ar ffurf cyngor cyffredinol a chyngor ynglŷn â lles gan ganolfannau Cyngor ar Bopeth mewn cydweithrediad â thimau iechyd sylfaenol. Bydd Cyngor ar Bopeth Cymru'n gweithio mewn cysylltiad agos â chynlluniau a sefydliadau anabledd eraill ledled Cymru er mwyn sicrhau bod cyngor arbenigol priodol ar gael i deuluoedd sydd â phlant anabl.

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o ymestyn hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau allweddol. Fel y nodwyd ym mlaenoriaeth 8 uchod, mae **Mesur arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)** yn mynd â'r egwyddor hon yn ei blaen drwy roi hawl i blant a phobl ifanc sydd ag AAA a/neu anabledd apelio neu wneud honiad o wahaniaethu ar sail anabledd i'r Tribiwnlys. Mae'r Mesur arfaethedig yn adeiladu ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Saith Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad. Cymeradwywyd egwyddorion cyffredinol Mesur arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) yn y cyfarfod llawn ar 14 Gorffennaf, gan ganiatáu inni symud ymlaen i'r cam nesaf yn y broses ddeddfwriaethol.

Mae **Marc Ansawdd Cynhwysiant ar gyfer Cymru'n** cael ei ddatblygu er mwyn hybu dull cyson o ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ledled Cymru. Bydd yn rhoi offeryn i ysgolion i gefnogi proses Hunanadolygu Ysgolion, ac yn rhoi fframwaith i gynghorwyr a rheolwyr i gefnogi eu cyfrifoldebau statudol am fonitro anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion. Y dyddiad cwblhau arfaethedig yw Gorffennaf 2010.

Yn dilyn ymgynghoriad rhagarweiniol ar ddewisiadau ar gyfer **diwygio'r fframwaith asesiadau statudol** yng Nghymru, bydd pedwar cynllun peilot yn cael eu lansio. Bydd y cynlluniau peilot hyn, ynghyd â chynlluniau eraill, megis y Dyfarniad Ansawdd Cynhwysiant, yn arwain at ddatblygu system arloesol a llawer gwell o sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn cael eu diwallu a bod y disgyblion yn cael addysg o'r radd flaenaf. Bydd y cynlluniau peilot yn cael eu gweithredu o Fedi 2009 hyd fis Gorffennaf 2011 ac mae prosiect ymchwil weithredu yn cael ei gomisiynu er mwyn gwerthuso'r canlyniadau.

Cyhoeddwyd adnoddau ychwanegol i **ddatblygu rôl gweithwyr trosglwyddo allweddol** yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc sydd ag anabledd yn Nhachwedd 2007. Dyrannwyd yr adnoddau hyn i gefnogi pum safle peilot, yn dilyn proses geisiadau gystadleuol. Mae gwaith yn cael ei wneud yn barod yn y pum safle peilot. Mae'r adnoddau sydd ar gael a'r cymorth sy'n cael ei gynnig wedi cael eu hymestyn drwy gynnwys y maes hwn ym mhrosiect ESF Cyrraedd y Nod.

Cyhoeddwyd cyllid yn Rhagfyr 2007 i gefnogi gwaith datblygu a hyfforddiant ar gyfer **Deunyddiau Cymorth Cynnar**. Bydd y rhain yn cynorthwyo plant anabl a'u teuluoedd ac yn mynd i'r afael â materion a godwyd gan Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru. Mae Cymorth Cynnar yn fecanwaith ar gyfer gwella ansawdd, cysondeb a chyd-drefniant gwasanaethau i blant anabl dan bump oed a'u teuluoedd.

Cyhoeddwyd adnoddau i helpu i wella cyfleoedd chwarae i blant anabl yn Hydref 2008 a byddant yn cael eu defnyddio i gynyddu cyfleoedd chwarae cyn-ysgol i blant anabl. Lle bo Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth chwarae leol ar gyfer plant anabl mewn grwpiau oedran eraill, bydd y rhain hefyd yn cael eu hystyried. Yn yr un modd, darparwyd grant anghylchol i awdurdodau lleol er mwyn hybu a gwella gwasanaethau seibiant byr i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yng Nghymru.

Er mwyn datgloi potensial ysgolion arbennig mae camau wedi'u cymryd i sicrhau bod pob sefydliad addysgol mor gynhwysol ag sy'n bosibl. Yn 2006 neilltuwyd cyllid i bob awdurdod lleol yng Nghymru dros gyfnod o 3 blynedd er mwyn sefydlu prosiectau peilot dan y cynllun **Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig**. Nod y cynlluniau peilot cyflenwol hyn oedd hybu cynhwysiant a datblygu rôl ysgolion arbennig, canfod a lledaenu gwybodaeth am arferion da a datblygu cysylltiadau ymarferol ag ysgolion prif ffrwd. Mae pob awdurdod yn cymryd rhan yn y rhaglen hon, ac mae cyfanswm o 34 prosiect yn cael eu treialu. Bydd y rhaglen hon yn cael ei hymestyn am ddwy flwyddyn academaidd arall o Fedi 2009 ymlaen.

Mae grant i hybu a gwella **seibiant byr** i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yng Nghymru ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am y drydedd flwyddyn. Disgwylir i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a mudiadau gwirfoddol, a chynnwys plant anabl a'u teuluoedd yn y math a'r ystod o wasanaethau seibiant byr a fydd ar gael dan y grant hwn.

Bydd hyn yn trosglwyddo i Grant Cynnal Refeniw Awdurdodau Lleol, gan ddechrau ym mlwyddyn ariannol 2010-11.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Is-adran Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Cyflwyno estyniad i'r rhaglen Datgloi Potensial	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2009 hyd Awst 2011
Datblygu Marc Ansawdd Cynhwysiant ar gyfer Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Cwblhau erbyn Gorffennaf 2010
Sefydlu cynlluniau peilot ar ôl diwygio'r fframwaith asesiadau statudol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2009 - Gorffennaf 2011
Drwy symud ymlaen â Mesur arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) cynnal prosiectau peilot mewn dau Awdurdod Lleol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2010-12

BLAENORIAETH 10:

Gweithio er mwyn gwneud cosb gorfforol i blant a phobl ifanc yn anghyfreithlon ym mhob sefyllfa

ERTHYGL: 19

Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Gwnaeth Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig nifer o argymhellion sy'n ymwneud â'r maes blaenoriaeth hwn yng Nghymru, gan gynnwys:

1. trin gynau Taser a dyfeisiau AEP fel arfau, fel na ddefnyddir unrhyw ddyfeisiau niweidiol o'r fath wrth ymdrin â phlant
2. ailystyried ASBOs a mesurau fel dyfeisiau mosgito oherwydd y gallent fynd yn groes i hawliau plant i symud o gwmpas yn rhydd a dod at ei gilydd yn heddychlon (yn unol ag Erthygl 15 o'r Confensiwn)
3. sicrhau bod ataliaeth yn cael ei defnyddio yn erbyn plant fel dewis olaf yn unig, a dim ond er mwyn atal niwed i'r plentyn neu i eraill, a bod pob dull o atal plant yn gorfforol er mwyn disgyblu'n cael ei wahardd
4. hybu ffyrdd cadarnhaol a di-drais o ddisgyblu plant, a pharch i hawl gyfartal plant i urddas dynol ac integriti corfforol (gan gynnwys cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o hawliau plant a sicrhau bod llai o bobl yn ystyried trais yn dderbyniol wrth fagu plant)
5. cymryd pob cam angenrheidiol i weithredu'r argymhellion sydd yn adroddiad arbenigwr annibynnol astudiaeth y Cenhedloedd Unedig ar drais yn erbyn plant (gan gyfeirio at astudiaeth Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar drais yn erbyn plant)
6. sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant (gan gynnwys athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr meddygol proffesiynol, aelodau o'r heddlu a'r farnwriaeth) yn cael hyfforddiant ynglŷn â'u rhwymedigaeth i adrodd a chymryd camau priodol mewn achosion lle mae amheuaeth bod trais domestig yn effeithio ar blant.

Mae'r argymhellion hyn i'w gweld ym mharagraffau 31, 35, 39, 42, 43 a 51

Beth sydd wedi digwydd:

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn y sylwadau terfynol a wnaethpwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn 2002 y dylid dileu'r amddiffyniad o 'gosb resymol' (adran 58 o Ddeddf Plant 2004) fel bod plant a phobl ifanc yn mwynhau'r un amddiffyniad dan y gyfraith ag oedolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi ymagwedd sy'n ceisio darparu gwybodaeth a newid agwedd y cyhoedd, ac sy'n hybu rhianta cadarnhaol. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno sylwadau ar y mater hwn o'r blaen i Lywodraeth y DU, ac maent wedi

nodi'n glir y byddant yn dal i bwyso am newid. Mae ffyrdd cadarnhaol, di-drais o ddisgyblu wedi cael eu hybu drwy'r Cynllun Gweithredu Rhianta, ac mae cefnogaeth wedi parhau i'r gynghrair 'Sdim Curo Plant!' yng Nghmru a'r wybodaeth a gynhyrchwyd ganddynt, gan gynnwys gwybodaeth sy'n cael ei dosbarthu i rieni newydd gan Ymwelwyr Iechyd a'r pecyn cymorth Help wrth Law.

Gan adeiladu ar Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan (2005), mae cynllun gweithredu strategol i roi sylw i faterion sy'n ymwneud â Thrais Domestig yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd yn dilyn ymarfer ymgynghori.

Rhoddodd y gwaith o graffu ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 gyfle i Lywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu ei hymrwymiad i'r agenda hon a'i chefnogaeth i alwad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn am waharddiad byd-eang ar gosb gorfforol. Fodd bynnag, Senedd y DU ac nid y Cynulliad Cenedlaethol sydd â'r pŵer i newid y gyfraith.

Nid yw cyfrifoldeb polisi am ASBOs wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er eu bod yn cael eu hystyried yn opsiwn pwerus dylid eu defnyddio pan fo popeth arall wedi methu, a chred Llywodraeth Cynulliad Cymru na ddylid rhuthro i'w defnyddio.

Er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymwybodol o ddyfeisiau Mosgito nid yw erioed wedi cefnogi'r ddyfais hon, ac mae'n cytuno â Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig bod y ddyfais yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ifanc.

Mae safon yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru'n cydnabod bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael gwasanaethau o'r radd flaenaf mewn amgylchedd diogel. Mae'n dweud felly y dylai pob sefydliad fod â chyd-raglenni addysg a hyfforddiant craidd ar gyfer staff sy'n ymdrin â phlant a phobl ifanc, sy'n cynnwys nodi a rheoli achosion o drais yn y cartref.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi'r ymgyrch 'Sdim Curo Plant!' fel rhan o'i hymrwymiad i alwad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn am waharddiad ar gosb gorfforol. Mae hefyd wedi datblygu Cynllun Gweithredu 3 blynedd ar gyfer Priodasau dan Orfod a Throseddau er Anrhydedd. Mae is-grŵp Priodasau dan Orfod wedi'i sefydlu i wneud rhywfaint o'r gwaith.

Beth fydd yn digwydd:

Ym Mehefin 2009, derbyniodd Gweinidogion Cymru Ddatganiad yr Ymgyrch 'Sdim Curo Plant!': Rydym wedi ymrwymo o hyd i alwad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn am waharddiad byd-eang ar gosbau corfforol a fydd yn:

- cyflawni hawliau dynol plant
- lleihau trais yn erbyn plant
- gwneud amddiffyn plant yn fwy effeithiol
- rhoi sylfaen ar gyfer hyrwyddo disgyblaeth gadarnhaol sy'n gweithio

Mae gennym bolisi hirsefydlog o wrthwynebu cosb gorfforol a hybu ffyrdd cadarnhaol, di-drais o ddisgyblu. Rydym yn derbyn argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylid dileu'r amddiffyniad o 'gosb resymol', fel bod plant a phobl ifanc yn gallu mwynhau'r un amddiffyniad dan y gyfraith ag oedolion.

Gan adeiladu ar Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan (2005), mae cynllun gweithredu strategol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn merched a phlant, ac i ddiweddaru Strategaeth Cam-drin Domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cael ei lunio ar hyn o bryd yn dilyn ymarfer ymgynghori ffurfiol 12 wythnos. Bydd y cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd 2009. Bydd gwybodaeth ddiwygiedig yn cael ei chynhyrchu a'i dosbarthu i ymarferwyr sy'n ymwneud â thrais domestig ag amddiffyn plant ledled Cymru.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Dal i hybu ffyrdd cadarnhaol, di-drais o ddisgyblu drwy ein Cynllun Gweithredu Rhianta a thrwy gefnogi'r gynghrair Sdim Curo Plant yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS
Dal i ofyn i ymwelwyr iechyd ddosbarthu'r llyfryn Help wrth Law i rieni newydd, tua phedair i chwe wythnos ar ôl geni'r plentyn. Y trydydd llyfryn, Ymddygiad Dros Ben Llestri mewn Plant dan Ddeg bob Gorffennaf	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Gorffennaf 2010
Cyhoeddi cynllun gweithredu strategol i roi sylw i drais yn erbyn merched a phlant a diweddaru Strategaeth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Diwedd 2009

BLAENORIAETH 11:
Gweithio er mwyn dileu bwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig

ERTHYGLAU: 2, 3, 14, 28 a 29

Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb, beth bynnag eu hamgylchiadau neu eu cred, a dylid parchu rhyddid i feddwl. Dylid darparu cymorth er pennaf les y plentyn. Dylid hybu hawl i addysg, gan gynnwys gweithgaredd sy'n annog presenoldeb, a dylid helpu i ddatblygu personoliaeth, talentau a gallu.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylid dwysáu ymdrechion i fynd i'r afael â bwlio a thrais mewn ysgolion, gan ddysgu am hawliau dynol, heddwch a goddefgarwch. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio at hyn ym mharagraff 67(f).

Beth sydd wedi digwydd:

Mae bwlio'n achosi pryder difrifol i blant a phobl ifanc fel y dengys y dystiolaeth sydd ar gael o waith ymchwil. Mae'r pryder hwn mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach, ac mae nifer sylweddol yn dweud eu bod wedi cael eu bwlio. Ailbwysleisiwyd hyn yng nghanfyddiadau gwaith ymchwil diweddar. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn adolygu ei hymagwedd er mwyn gostwng y lefelau annerbyniol presennol, ac mae'n ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â pheidio â mynd i'r ysgol a chyfraddau gadael ysgol cyn pryd.

Cyhoeddwyd canllawiau gwrth-fwlio i ysgolion ym Medi 2003. Mae'r canllawiau hyn, Parchu Eraill, yn cynghori ysgolion i sicrhau bod staff a disgyblion yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu polisi gwrth-fwlio'r ysgol. Mae'n annog ysgolion i sicrhau bod copi o'r polisi ar gael yn rhwydd i bob aelod o'r staff a'r disgyblion, ac i roi cyfle iddynt ei drafod mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol a chefnogol. Am fwy o wybodaeth, gweler y wefan: www.cymru.gov.uk/parchueraill.

Datblygwyd a chyhoeddwyd pecyn cymorth hunanasesu i helpu ysgolion i wella'u polisïau gwrth-fwlio ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Nhachwedd 2008. Roedd Parchu Eraill yn cynnwys argymhelliad y dylai ysgolion ystyried datblygu a chynllunio'u polisïau gwrth-fwlio mewn ymgynghoriad â disgyblion a grwpiau allweddol eraill, gan gynnwys rhieni, athrawon, llywodraethwyr ysgolion, nyrsys ysgol, plismyn cymunedol a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Mae gan ysgolion ddyletswydd statudol i fynd i'r afael â phob math o fwlio, pa un a yw'n hiliol, yn homoffobig neu'n rhywiol, ac maent yn dod dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2007. Ni ddylid anwybyddu iaith ac ymddygiad homoffobig. Gall bwlio homoffobig effeithio ar unrhyw un sy'n cael ei weld yn wahanol, h.y. plant a phobl ifanc sydd â rhieni, ffrindiau neu aelodau o'r teulu sy'n hoyw. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu Stonewall Cymru i gyflawni eu hamcanion strategol, gan gynnwys ymgysylltu â'r gymuned, cyfranogiad, addysg, cyflogaeth, cyfleoedd teg mewn bywyd, newid agweddau a diogelwch cymunedol. Fel rhan o'u hamcanion maent yn ceisio cynorthwyo ysgolion,

Awdurdodau Addysg Lleol, a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg i fynd i'r afael â homoffobia a bwlio homoffobig a brwydro yn erbyn tangyflawniad disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Mae Stonewall wedi cynhyrchu canllawiau ac wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau yn ogystal â deunyddiau eraill ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant yn ymwneud â bwlio homoffobig.

Argymhellodd adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb y 'Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hyrwyddo arfer gorau mewn dulliau gwrth-fwlio yn gyffredinol.' Mae'r Cynulliad wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac mae wedi ymrwymo yn y cynllun gweithredu i barhau i hybu'r arferion gorau wrth fynd i'r afael â bwlio. Bydd y gwaith yn cynnwys: darparu rhagor o ganllawiau yn ymwneud â materion bwlio, hybu a chefnogi cynlluniau gwrth-fwlio.

Rhoddodd Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ddyletswydd ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i lunio Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan, gyda'r nod o wella diogelwch dysgwyr sy'n teithio o'u cartrefi i'r ysgol drwy nodi'r safonau ymddygiad sydd eu hangen. Mae'n rhoi'r hawl i benaethiaid gymryd camau yn erbyn disgyblion sy'n camymddwyn wrth deithio o'r cartref i'r ysgol. Datblygwyd y Cod â mewnbwn gan blant a phobl ifanc, Draig Ffynci a'r Comisiynydd Plant. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Hydref 2009 a bydd yn dod i rym yn Ionawr 2010.

Ddechrau 2009, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwil i edrych ar nifer yr achosion o fwlio mewn ysgolion yng Nghymru. Bydd y canfyddiadau, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn hydref 2009, yn rhoi data sylfaenol i Lywodraeth y Cynulliad a byddwn yn gallu defnyddio'r data hyn i dargedu polisïau'n fwy strategol a mesur ein perfformiad wrth leihau bwlio yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Rwydwaith Gwrth-fwlio i ddarparu gwybodaeth a chyngor ynglŷn â datblygiadau polisi er mwyn lleihau bwlio, a hwyluso'r gwaith o ledaenu'r arferion gorau ledled Cymru. Mae'r Rhwydwaith, sy'n cynnwys partneriaid allweddol o lywodraeth leol a'r sector gwirfoddol yn cyfarfod yn ffurfiol dair gwaith y flwyddyn. Mae'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o baratoi gweithgareddau ar gyfer yr wythnos gwrth-fwlio, ac mae wrthi ar hyn o bryd yn datblygu sioe deithiol sy'n ymdrin â bwlio ac a fydd yn ymweld â chymunedau ledled Cymru hyd at Wythnos Gwrth-fwlio 2009 ac yn ystod yr wythnos honno.

Cynrychiolir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fforwm Gwrth-fwlio Prydain ac Iwerddon. Sefydlwyd y Fforwm hwn yn 2004 er mwyn datblygu a chryfhau prosesau rhannu gwybodaeth a chyfleoedd ar gyfer cyd-drefnu a chydweithredu rhwng y prif asiantaethau llywodraethol ac anllywodraethol sy'n ymwneud â bwlio plant a phobl ifanc, yn awdurdodaethau Cymru, Lloegr, yr Alban a De a Gogledd Iwerddon.

Beth fydd yn digwydd:

Cyhoeddir canfyddiadau'r **arolwg cenedlaethol o ba mor gyffredin yw bwlio a nifer yr achosion ohono** yn hydref 2009. Bydd y rhwydwaith yn dal i gyfarfod dair gwaith y flwyddyn i ystyried materion sy'n codi ac i ddylanwadu ar gamau i'w cymryd yn y dyfodol er mwyn ymateb i'r materion sy'n codi.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda phartneriaid allweddol drwy'r **Rhwydwaith Gwrth-fwlio** i edrych ar weithgareddau ar gyfer yr Wythnos Gwrth-fwlio eleni. Bwriadwn fynd o amgylch Cymru gyda sioe deithiol yn ystod yr wythnos gwrth-fwlio. Bydd y sioe'n cynnwys nifer o weithdai a fydd yn edrych ar y gwahanol fathau o fwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig, a hefyd yn edrych ar yr agenda hawliau a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n datblygu cyfres o ganllawiau gwrth-fwlio newydd a fydd yn adeiladu ar y canllawiau Parchu Eraill a gyhoeddwyd yn 2003. Byddant yn cynnwys canllawiau manwl, penodol ynglŷn â bwlio homoffobig, ynghyd â mathau eraill o fwlio, megis seiberfwlio, bwlio sy'n gysylltiedig â hil, diwylliant a chrefydd, a bwlio sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc sydd ag AAA neu anabledd.

Bydd elfennau cymorth dysgwr Llwybrau Dysgu yn allweddol er mwyn helpu'r bobl ifanc hynny a allai fod mewn perygl o golli addysg oherwydd rhwystrau personol sy'n eu hatal rhag dysgu. Mae **Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009**, yn rhoi hawl i bobl ifanc gael cyfuniad unigryw o wasanaethau cymorth dysgwyr sy'n ceisio'u helpu i ddatblygu atebion, gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a goresgyn unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu, pa un a ydynt yn gysylltiedig ag amgylchiadau personol neu ddysgu. Bydd gwasanaethau cymorth personol, a fydd yn gydnaws â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl ifanc fel rhan o wasanaethau cymorth ieuenctid, yn bwysig iawn yn y cyd-destun hwn.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Cangen Ennyn Diddordeb Disgyblion, APADGOS

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Dal i hybu'r wythnos gwrth-fwlio. Fel rhan o Wythnos Gwrth-fwlio 2009, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda phartneriaid allweddol o'r Rhwydwaith Gwrth-fwlio i drefnu sioe deithiol a fydd yn ymweld â gwahanol rannau o Gymru. Bydd gweithgareddau'n cael eu hystyried ar gyfer y dyfodol	Llywodraeth Cynulliad Cymru, NSPCC, Stonewall Cymru, Barnardo's a Phlant yng Nghymru	4 - 20 Tachwedd 2009
Datblygu cyfres newydd o ganllawiau gwrth-fwlio â phwyslais ar fathau penodol o fwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig	Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda'r Rhwydwaith Gwrth-fwlio	Rhagfyr 2009
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda Childnet International er mwyn cynhyrchu DVD dwyieithog ar seiberfwlio a fydd yn cael ei ddosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghymru erbyn Rhagfyr 2009	Llywodraeth Cynulliad Cymru a Childnet	Rhagfyr 2009

BLAENORIAETH 12:

Gweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu sy'n ceisio lloches yng Nghymru'n gallu mwynhau eu hawliau dan y Confensiwn a'u hawliau dynol

ERTHYGLAU: 22, 37 yn gyffredinol a 22, 30, 32-36, 38, 39 a 40 (â chyfeiriad penodol at Geiswyr Lloches)

Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno. Ni ddylai plant gael eu cadw mewn canolfannau cadw neu eu carcharu onid yw pob dim arall wedi methu, ac os ydynt yn cael eu cadw dylent gael eu trin yn drugarog.

Dylai plant allu dysgu iaith ac arferion eu teuluoedd. Dylid eu hamddiffyn rhag gwaith peryglus, camdriniaeth rywiol ac unrhyw beth a allai amharu ar eu datblygiad, ac ni ddylent gael eu cipio na'u gwerthu.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Er bod y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn yn cydnabod ac yn croesawu'r newidiadau a oedd wedi'u gwneud ers y cyfnod adrodd diwethaf, roedd hefyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy i weithredu'r Confensiwn yn llawn ar gyfer plant sy'n ceisio lloches a phlant gweithwyr mudol.

Argymhellodd y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn (ym Mharagraff 71) y dylid:

- cadw plant mewn canolfannau cadw dim ond os yw pob dim arall wedi methu, a hynny am y cyfnod byrraf posibl
- gofyn i'r llywodraeth sicrhau bod Asiantaeth Ffiniau'r DU yn penodi staff wedi'u hyfforddi i gynnal cyfweliadau gyda phlant
- ystyried penodi gwarcheidwaid ar gyfer plant ceiswyr lloches a phlant mudol sydd ar eu pen eu hunain
- casglu a darparu data ystadegol manylach
- caniatáu mantais yr amheuaeth mewn achosion lle mae anghydfod ynglŷn ag oedran
- sicrhau bod mesurau diogelu'n bodoli pan fo plant yn cael eu dychwelyd
- ystyried diwygiadau i adran 2 o'r Ddeddf Lloches a Mewnfudo er mwyn caniatáu amddiffyniad i blant sy'n dod i'r DU ar eu pen eu hunain, heb oedolyn.

Beth sydd wedi digwydd:

Nid yw'r cyfrifoldeb am loches wedi'i ddatganoli i Gymru ac mae'r mater yn dal yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Serch hynny, yng Nghymru, mae cysylltiadau â gweithredu'r fframwaith gwasanaeth newydd wedi'u hymgorffori yn y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid er mwyn sicrhau y bydd datblygiadau ym maes eiriolaeth hefyd yn ystyried yr angen am eiriolaeth arbenigol. Bydd canllawiau statudol ar eiriolaeth yn y dyfodol hefyd yn hybu gwell mynediad

i'r grŵp hwn o blant ar lefel leol/ranbarthol. Yn ychwanegol at hyn, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dal i weithio gyda'r Cyngor Ffoaduriaid ac Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo'r DU er mwyn sicrhau bod gwasanaeth eiriolaeth arbenigol yn cael ei sefydlu (sy'n cynnwys cyngor cyfreithiol a chyngor arall) - sy'n cyfateb i'r hyn a weithredir gan y Panel Plant yn Lloegr ar gyfer ceiswyr lloches sydd angen cymorth cyfreithiol ychwanegol a chymorth arall er mwyn iddynt allu gwneud cais am loches yn unol â'u hawl. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu Fframwaith Gwasanaeth Newydd ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eirioli yng Nghymru yn y Dyfodol i'w weithredu yn 2008-2010. Mae'r Uned Eiriolaeth yn Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i sefydlu, ynghyd â bwrdd allanol i ddarparu gwybodaeth iddi ac i gefnogi ei gwaith. Mae swydd Swyddog Eiriolaeth Plant wedi'i chreu er Ionawr 2008 er mwyn darparu cefnogaeth ac eiriolaeth i blant agored i niwed sy'n ceisio lloches yng Nghymru ar eu pen eu hunain.

Yn ystod 2008, ariannodd Llywodraeth y Cynulliad Gyngor Ffoaduriaid Cymru i ddarparu eiriolaeth arbenigol i blant ar eu pen eu hunain a oedd yn ceisio lloches yn 2007/08. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn trafod trefniadau cyllido tymor hwy gyda'r Swyddfa Gartref.

Mae Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn cynorthwyo disgyblion rhwng 3 a 19 oed sy'n ceisio lloches ac maent yn cael y pwysoliad mwyaf dan y fformiwla gyllido ar hyn o bryd fel cydnabyddiaeth o'r cymorth arbennig y mae arnynt ei angen a'r ffaith bod yn rhaid i awdurdodau lleol dalu costau gwisg ysgol, prydau bwyd, cludiant a chyfieithu. Mae plant ffoaduriaid hefyd yn gymwys ar gyfer y grant hwn. Cydnabyddir y gall mynediad at Addysg Bellach ac Uwch fod yn anodd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches hefyd, oherwydd y ffioedd yn rhannol, ac mae canllawiau sy'n egluro'r rheolau ynglŷn â hyn yn cael eu paratoi ar gyfer myfyrwyr a sefydliadau.

Mae'r prosiect *Croeso* yn dathlu'r amrywiaeth sydd yng Nghymru, o ran pobl a diwylliant, ac mae'n cael ei weithredu gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'i ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru'n hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb, gan weithio er mwyn dileu gwahaniaethu, lleihau anghydraddoldeb, diogelu hawliau dynol a datblygu cysylltiadau da, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle teg i gymryd rhan mewn cymdeithas. Mae Croeso'n darparu nifer o wahanol weithgareddau a digwyddiadau i hybu cydraddoldeb hiliol ledled Cymru gan weithio gydag ysgolion a sefydliadau eraill. Mae'r prosiect wedi cynhyrchu cartŵn 30 eiliad sy'n herio gwahaniaethu. Seiliwyd y cartŵn hwn ar syniadau disgybl o Coryton yng Nghaerdydd. Anogwyd ysgolion hefyd i ddathlu diwrnod y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Dileu Gwahaniaethu ar sail Hil a chynhaliwyd cystadlaethau ar gyfer gwaith peintio a cherddoriaeth amlddiwylliannol.

Mae dyletswydd newydd wedi'i rhoi i Asiantaeth Ffiniau'r DU gan ei gwneud yn ofynnol iddi ddiogelu lles plant a hybu eu lles. Mae canllawiau'n cael eu datblygu i gyd-fynd â'r ddyletswydd hon a byddant yn ymateb i nifer o argymhellion y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn. O ran data ystadegol, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn casglu data sy'n dangos a oedd plentyn sy'n derbyn gofal hefyd yn blentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid i weld a ddylid cyhoeddi'r data hyn, a beth fyddai'r ffordd orau o wneud hynny.

Mae'r Gofrestr Genedlaethol ar gyfer Plant ar eu pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches yn gofrestr sy'n casglu gwybodaeth ystadegol yng Nghymru a Lloegr ynglŷn â phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

Yn Ebrill 2008 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ganllawiau ar Amddiffyn Plant a allai fod wedi cael eu Masnachu er mwyn galluogi ymarferwyr i adnabod plant sydd wedi cael eu masnachu a rheoli ymateb priodol. Cysylltwyd â chadeiryddion Byrddau Lleol Diogelu Plant ym Mawrth 2009 gan eu hatgoffa ynglŷn â'r canllawiau, a gofyn iddynt sicrhau eu bod yn cael eu dosbarthu'n eang. Mae trefniadau wedi'u gwneud er mwyn sefydlu grŵp i edrych ar fater masnachu plant drwy Gymru gyfan.

Beth fydd yn digwydd:

Mae'r **Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid** a lansiwyd yn 2008 yn ceisio diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu sy'n ceisio lloches drwy ddulliau sy'n seiliedig ar bartneriaeth ar gyfer darparu gwybodaeth ac eiriolaeth arbenigol, rhannu a choladu data a datblygu polisïau a phrotocolau a mesurau diogelu, hybu ac asesu iechyd wedi'u targedu. Mae cynllun gweithredu sy'n ymwneud â'r strategaeth hon, yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru a bydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Cynllun peilot ar gyfer **Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru gyfan** a fydd yn dod i rym yn ddiweddarach yn hydref 2009. Bydd yn ceisio safoni ansawdd dehongli a chyfieithu yng Nghymru a bydd hyn o fudd i blant sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid lle mae angen iddynt gael cymorth cyfieithwyr.

Mae'r **Strategaeth Cydlyniant Cymunedol**, a fydd yn cael ei chyhoeddi yn Rhagfyr 2009, yn nodi bod Cymru'n wlad amrywiol a bod gan bobl o bob cefndir gyfraniad i'w wneud i'w cymuned. Mae arian yn cael ei roi i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn eu galluogi i weithredu'r Strategaeth yn lleol drwy ddull sy'n seiliedig ar bartneriaeth.

Bydd y **Cyfrifiad Plant mewn Angen** sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n cofnodi nifer y plant mewn angen sy'n geiswyr lloches yn 2009 a 2010.

Comisiynodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant rywfaint o waith ymchwil i fasnachu mewn plant yng Nghymru. Cyhoeddwyd y gwaith ymchwil hwn ym Mawrth 2009 dan y teitl Ffiniau Pryder. Mae'r adroddiad hwn wedi gwneud nifer o argymhellion a bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu hystyried.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Cyhoeddi'r Strategaeth Cydlyniant Cymunedol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Rhagfyr 2009
Cynnal y Cyfrifiad Plant mewn Angen a chynhyrchu gwybodaeth yn ymwneud â Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS
Ariannu cynllun peilot ar gyfer Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru Gyfan	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Tachwedd 2009
Cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn gwanwyn 2010

BLAENORIAETH 13:
Gweithio er mwyn dileu gwahaniaethu / anghydraddoldeb yn erbyn plant a phobl ifanc

ERTHYGLAU: 2, 14, 22 a 30

Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb, beth bynnag eu hil, crefydd neu allu.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Yn ei argymhellion nododd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig bod angen sicrhau amddiffyniad llawn rhag gwahaniaethu ar unrhyw sail gan gynnwys; mynd i'r afael â syniadau negyddol am blant, yn enwedig yn y cyfryngau; cynyddu ymwybyddiaeth a chamau ataliol i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn grwpiau agored i niwed ym mhob rhan o'r gymdeithas; a rhoi sylw i anghydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau iechyd, addysg a hamdden. Mynegwyd pryder penodol ynglŷn ag anoddefgarwch ac agwedd negyddol y cyhoedd tuag at blant a phobl ifanc gan ddweud eu bod yn teimlo bod plant Prydain mewn perygl o gael eu trin yn annheg oherwydd 'hinsawdd gyffredinol o anoddefgarwch' tuag atynt. Cyfeiriwyd yn benodol at y materion hyn yn yr Argymhellion Terfynol a wnaethpwyd ym mharagraffau 19, 25 a-c, 53e, 55, 67 a-c, 69.

Beth sydd wedi digwydd:

Mae gwaith ymchwil diweddar wedi dangos bod syniadau negyddol ynglŷn â phlant a phobl ifanc yn gyffredin iawn yn y DU ac yng Nghymru. Ychwanegir at hyn gan adroddiadau yn y cyfryngau am ddigwyddiadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys y diwylliant 'Hwdis' a delweddau negyddol o blant a phobl ifanc.

Mae nifer o wobrau a seremonïau amrywiol wedi'u cynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn ceisio newid i ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol y mae plant a phobl ifanc yn eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau sydd wedi cael eu cynnal yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, megis Diwrnod Cymwysterau Galwedigaethol,[9] y Gwobrau Hyfforddiant a Phrentisiaethau Modern Cenedlaethol a'r rhai hynny a gynhaliwyd gan sefydliadau fel Draig Ffynci i ddathlu llwyddiannau'r bobl ifanc y mae'n gweithio gyda hwy.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau lleol hefyd i ddathlu'r hyn y mae plant a phobl ifanc wedi'i gyflawni. Mae llawer o'r rhain wedi cael sylw yn y wasg a chynhaliwyd astudiaethau achos i dynnu sylw at y pethau cadarnhaol sydd wedi'u cyflawni. Yn yr un modd, mae gwelliannau o ran llwyddiant mewn arholiadau wedi cael eu dathlu gan Weinidogion Cymru, gan gysylltu ag ymgyrchoedd cenedlaethol fel Lle Nawr - ymgyrch ar y cyd â Gyrfa Cymru a'r Llinell Gymorth Dysgu a Gyrfaoedd.

9 Lansiwyd Diwrnod Cymwysterau Galwedigaethol yn 2008 er mwyn gwella delwedd cymwysterau galwedigaethol a dathlu llwyddiant galwedigaethol

Mae Gwobrau Phillip Lawrence yn ceisio amlygu a hybu cyfraniad cadarnhaol pobl ifanc i gymdeithas. Mae'r cynllun yn cydnabod grwpiau sy'n gwneud cyfraniad gwirioneddol i'w cymuned leol ac i fywydau pobl eraill; a grwpiau sy'n hybu parch a dealltwriaeth o ffydd, diwylliant a chymunedau yn rhyngwladol. Canolbwyntir ar weithgareddau enghreifftiol - enghreifftiau o bobl ifanc yn gweithio gyda'i gilydd, hybu dinasyddiaeth a goresgyn yr anawsterau anodd y mae rhai pobl ifanc yn eu hwynebu.

Mae sefydliadau Gwasanaeth Ieuenctid ledled Cymru'n cynnal seremonïau gwobrwyo lleol i gydnabod llwyddiant pobl ifanc drwy ddysgu anffurfiol yn eu hamser hamdden. Cyflwynir gwobrau'n aml gan y Maer a'r cynghorwyr lleol felly maent yn darparu delwedd gadarnhaol o bobl ifanc ar lefel llunio polisïau lleol.

Yn dilyn mewnbwn gan randdeiliaid yng Nghymru i'r gyfres What Are We Doing To Our Kids? ar y BBC, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi dechrau trafodaethau er mwyn mynd i'r afael â phroblem syniadau negyddol a chyflwyno safonau ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc mewn cynyrchiadau realiti.

Mae Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru yn strategaeth ymyrryd wedi'i thargedu, a'i nod yw dileu'r anghydraddoldeb sy'n digwydd os nad yw plant yn cael mynediad at y cwricwlwm oherwydd bod ganddynt sgiliau sylfaenol gwael. Bydd cynlluniau o'r fath yn dal yn nodwedd allweddol o'r strategaeth newydd a fydd yn cael ei lansio yn 2010. Mae Sgiliau Sylfaenol hefyd wedi bod yn faes lle mae llwyddiant wedi cael ei amlygu drwy'r rhaglen Darllenwch Filiwn o Eiriau.

Beth fydd yn digwydd:

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n awyddus i sefydlu mwy o ddealltwriaeth o'r syniadau negyddol am blant a phobl ifanc yng Nghymru a sut y mae hyn yn gysylltiedig ag ymwybyddiaeth o hawliau a mynediad at hawliau. Bydd hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y gwaith o ddatblygu polisïau yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ac i roi mwy o sylw i'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan blant a phobl ifanc a'u cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned. Mae hefyd yn awyddus i sicrhau ei bod yn dal i hybu delweddau cadarnhaol o blant a phobl ifanc ac yn dathlu eu llwyddiant. Bydd ymgyrchoedd cyffrous yn cael eu hategu gan negeseuon cyffredinol sy'n seiliedig ar y Confensiwn er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau a mynediad at hawliau. Bydd **gweithgareddau marchnata a chyfathrebu sy'n cael eu datblygu**, megis Lle Nawr, Cynghorau Ysgol, Llwybrau Dysgu 14-19, Wythnos Gwaith Ieuenctid a Ffrind i dy Deulu, yn cynnwys neges y Confensiwn.

Mae **ymarfer mapio adnoddau** wedi amlygu nifer o fylchau yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r Confensiwn mewn ystod eang o sectorau, gan gynnwys adnoddau ar gyfer newyddiadurwyr. Rydym yn awyddus i roi sylw i'r mater hwn yng Nghymru ac rydym wrthi'n edrych ar hyn o bryd ar yr adnoddau sy'n bodoli'n barod yn y maes hwn a sut y gallwn ddefnyddio'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn fel sail o bosibl ar gyfer adnoddau i'w defnyddio yn y dyfodol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n barod i weithio gyda'n partneriaid cenedlaethol a lleol er mwyn gweithredu'r argymhelliad hwn. O'n profiad ni, bydd hyn yn galw am ddull strategol a chynaliadwy o ddarparu cyflenwad rheolaidd o storïau 'newyddion da' a chynnwys wedi'i lunio gan ddefnyddwyr am blant a phobl ifanc, a chan blant a phobl ifanc, yn genedlaethol ac yn lleol. I'r perwyl hwn, bydd prosiectau fel CLIC yn cynnal digwyddiadau dathlu i ategu'r rhai a gynhaliwyd yn flaenorol ar lefel genedlaethol er mwyn dathlu llwyddiant (gan gynnwys Draig Ffynci). Bydd angen dal i ganolbwyntio ar gyfleoedd i hybu cyflawniadau cadarnhaol plant a phobl ifanc ym mhob un o'r rhaglenni sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn sicrhau bod pob person ifanc mewn ysgolion a gynhelir ac mewn sefydliadau addysg bellach yn gallu manteisio ar yr ystod lawn o gyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr drwy Lwybrau Dysgu 14-19. Bydd hyn yn eu cynorthwyo i wneud dewisiadau doeth yn ymwneud â'u diddordebau a'u dyheadau eu hunain, i feithrin y sgiliau ehangach y mae arnynt eu hangen ar gyfer bywyd ac i oresgyn unrhyw rwystrau personol neu rwystrau eraill sy'n eu hatal rhag dysgu ac, o ganlyniad, i gyflawni eu potensial yn llawn.

Ym Mawrth 2010, cynhelir **seremoni wobrwyo genedlaethol** hefyd i gydnabod rhagoriaeth mewn gwaith ieuenctid yng Nghymru. Bydd y seremoni hon yn dathlu prosiectau gwaith ieuenctid a'r canlyniadau cadarnhaol y mae pobl ifanc yn eu cael drwy ryngweithiad effeithiol â gweithwyr ieuenctid. Bydd Gweinidogion, swyddogion a chynghorwyr lleol yn bresennol yn y seremoni a bydd ymgyrch yn y cyfryngau drwy Gymru yn dilyn hynny er mwyn lledaenu gwybodaeth am yr hyn a gyflawnwyd gan bobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn cyfarfod y gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn nodi meysydd cyffredin ar gyfer gweithredu, gan gynnwys mynd i'r afael â syniadau negyddol yn y cyfryngau am blant a phobl ifanc a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd er mwyn mynd i'r afael â'r broblem ar lefel y DU.

Mae Comisiynydd Plant Cymru'n datblygu prosiect gyda'r nod o ysgogi newid a dylanwadu ar agweddau'r cyhoedd tuag at blant a phobl ifanc drwy hybu delweddau cadarnhaol a gweithio gyda nifer o wahanol asiantaethau partner, gan gynnwys sefydliadau'r cyfryngau yng Nghymru.

Cyhoeddwyd **Cynllun Cydraddoldeb Sengl** Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mawrth 2009. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn hybu cydraddoldeb a sut y bydd yn cyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb statudol (anabledd, hil a rhyw). Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cymhwyso'r un egwyddorion cyffredinol i'r meysydd cydraddoldeb newydd - oedran, crefydd neu gred neu ddiffyg cred, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywedd. Mae'n Gynllun tair blynedd a bydd cynnydd yn cael ei fonitro bob chwe mis ac yn cael ei adolygu'n ffurfiol yn flynyddol. Bydd Grŵp Cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn darparu gwasanaeth craffu allanol a fydd yn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y gwaith o fonitro a chyflawni **cynlluniau gweithredu'r Cynllun** drwy drafod, cael dadl a herio'r cynnydd a wnaethpwyd, gan ddarparu mecanwaith i rannu arferion da yn ogystal â chynnig cyngor ynglŷn â rhoi camau gweithredu adrannol ar waith.

Y nod yw sicrhau y bydd y gyfraith newydd ar gydraddoldeb yn cytgordio ac yn cryfhau cyfraith wahaniaethu'r DU. Pan fydd yn dod i rym, bydd yn sefydlu'r nodweddion sy'n

cael eu diogelu, sef oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Bydd hefyd yn rhoi diffiniadau o wahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd, gwahaniaethu anuniongyrchol, aflonyddu ac erledigaeth.

Darlledwyd y gyfres '**What are we doing to our Kids**'?' gan BBC Cymru yn ystod 2009. Rhaglen ar ddydd **Sul 29 Mawrth 2009**. Mae'r prosiect yn ceisio rhoi statws uwch ar yr agenda gyhoeddus i'r ddadl ynglŷn â materion sy'n ymwneud â phlentyndod, a chael trafodaeth ynglŷn â sut y gall Cymru, fel gwlad, ymateb i her magu plant. Roedd BBC Cymru hefyd wedi comisiynu'r Sefydliad Materion Cymreig i wneud gwaith ymchwil er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer rhaglenni'r tymor ac ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd â diddordeb. Lansiwyd y ddogfen hon ddydd Mawrth, 3 Mawrth 2009 mewn cynhadledd hanner diwrnod yng Nghaerdydd.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Holl Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Ymgyrchu i hybu delweddau cadarnhaol o blant a phobl ifanc	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS
Dal i amlygu a dathlu cyflawniadau cadarnhaol plant a phobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS
Sefydlu seremoni wobrwyo flynyddol CLIC	Prosiect CLIC	Dechrau yn 2010
Pennu hyd a lled problem gwahaniaethu a syniadau negyddol ynglŷn â phlant a phobl ifanc, ac ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau yn 2010
Cynnal seremoni wobrwyo genedlaethol i gydnabod rhagoriaeth mewn gwaith ieuenctid yng Nghymru a chyflawniadau pobl ifanc	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mawrth 2010

BLAENORIAETH 14:

Gweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru (e.e. ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf) yn gallu mwynhau eu holl hawliau dan y Confensiwn a'u hawliau dynol

ERTHYGL: 27

Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai llywodraethau helpu teuluoedd sy'n methu â fforddio darparu hyn.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Roedd nifer o argymhellion terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn ceisio canolbwyntio ar y maes blaenoriaeth hwn. Tynnwyd sylw at yr angen i ddarparu cymorth priodol i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol mewn perthynas â chyflawni eu cyfrifoldebau magu plant, ynghyd â'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau iechyd drwy ddulliau cydgysylltiedig ar gyfer holl adrannau'r llywodraeth a'r rhai hynny sy'n ymwneud yn benodol â lleihau anghydraddoldeb incwm a thlodi.

Dywedodd y Pwyllgor hefyd fod safon byw ddigonol yn hanfodol ar gyfer datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol plentyn, a bod tlodi plant hefyd yn effeithio ar gyfraddau marwolaethau babanod, mynediad at iechyd ac addysg yn ogystal ag ansawdd bywyd bob dydd plant. Cyfeiriwyd at hyn yn yr argymhellion a wnaethpwyd ym Mharagraffau 45a, 55, 57 a 65 a-d.

Beth sydd wedi digwydd:

Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau tlodi yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae gweithgareddau'r rhaglen, sydd wedi'i lleoli mewn 166 o ardaloedd, ac sy'n ymwneud ag oddeutu 20% o boblogaeth Cymru, yn seiliedig ar waith Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ym mhob ardal sy'n cyflawni ei blaenoriaethau dan chwe thema Fframwaith Gweledigaeth Cymunedau yn Gyntaf. Bydd Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio ar wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at y gwaith o fynd i'r afael â thlodi drwy gynyddu incwm a gweithgaredd economaidd. Rhaid i Bartneriaethau ddangos sut mae eu gweithgareddau o fudd i blant a phobl ifanc yn eu hardaloedd, ond mae hefyd yn ofynnol iddynt ddangos sut y maent yn sicrhau ac yn adeiladu ar gyfraniad plant a phobl ifanc tuag at dwf ac adfywiad eu cymunedau.

Yn fwy penodol, yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2008, mae 'Tlodi Plant' erbyn hyn yn thema benodol y dylai Partneriaethau ganolbwyntio arni yn Fframwaith Gweledigaeth Cymunedau yn Gyntaf. I ategu hyn, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau hyfforddi yn ymwneud â rôl Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wrth fynd i'r afael â Thlodi Plant.

Mae prosiect Datrys Tlodi Plant Cymru'n bartneriaeth rhwng Achub y Plant - Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Datblygwyd y prosiect er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol dau safle peilot i ddatblygu dulliau ymarferol o fynd i'r afael â thlodi plant yn eu hardaloedd a datblygu pecyn cymorth ar y we er mwyn helpu i ddatblygu polisi cadarnach ar lefel leol i fynd i'r afael â thlodi. Y pecyn cymorth yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru, ac fe'i bwriadwyd er mwyn helpu llywodraeth leol a phartneriaethau i gyfnerthu ac adeiladu ar y gwaith y maent yn ei wneud yn barod er mwyn mynd i'r afael â thlodi yn eu hardaloedd. Mae'r wefan wedi cael ei diweddaru yn ddiweddar i gynnwys tudalennau sy'n ymwneud yn benodol â chynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o adfywio cymunedau.

Beth fydd yn digwydd:

Bydd ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn dal yn flaenoriaeth, yn enwedig o ran mynd i'r afael â thlodi plant. Mae Tlodi Plant bellach wedi dod yn thema benodol yn Fframwaith Gweledigaeth Cymunedau yn Gyntaf, ac mae mwy o sylw'n cael ei roi erbyn hyn i rôl Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn y gwaith o fynd i'r afael â Thlodi Plant er mwyn sicrhau bod cyswllt cliriach yn cael ei wneud. Bydd nifer o gamau'n cael eu cymryd er mwyn cefnogi hyn.

Bydd camau gweithredu dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys **Canllawiau manwl, rhaglen hyfforddi fwy strwythuredig** wedi'i chysylltu â'r cyllid sy'n cael ei ddarparu dan **Gronfa Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf**.

Bydd camau gweithredu dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys Canllawiau manwl, rhaglen hyfforddi fwy strwythuredig wedi'i chysylltu â'r cyllid sy'n cael ei ddarparu dan Gronfa Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf.

Diwygio'r canllawiau partneriaeth a chynllunio ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc er mwyn darparu rhagor o fanylion ynglŷn â dyletswyddau awdurdodau lleol dan Fesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru).

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Llunio Canllawiau ar fynd i'r afael â Thlodi Plant yng nghyd-destun y Confensiwn ar gyfer Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf	Uned Tlodi Plant ac Uned Cymunedau yn Gyntaf, Llywodraeth Cynulliad Cymru	Hydref 2009
Fel rhan o Gontract Hyfforddiant newydd Cymunedau yn Gyntaf, cynhelir digwyddiadau hyfforddi yn ymwneud â "Thlodi Plant a Chymunedau yn Gyntaf"	Uned Cymunedau yn Gyntaf a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Rhagfyr 2009 ar gyfer y rownd gyntaf o seminarau (5 i gyd) yna'n barhaus
Bydd prosiectau a fydd yn cael eu gwneud dan Gronfa Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn mynd i'r afael â Thlodi Plant, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yng nghyd-destun y Confensiwn	Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a darparwyr gwasanaeth perthnasol	PARHAUS
Diweddaru canllawiau cynllunio i gynnwys cyfrifoldeb awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol i weithredu'r Mesur Plant a Theuluoedd drwy ymgorffori cynlluniau strategol ar Dlodi Plant yng Nghynllun Plant a Phobl Ifanc pob awdurdod lleol	Llywodraeth Cynulliad Cymru; Awdurdodau lleol; partneriaid perthnasol	Canllawiau i'w cyhoeddi ym Mawrth 2010. Y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc nesaf i'w cyhoeddi ym Mawrth 2011
Asesu manteision y prosiect Datrys Tlodi Plant yng Nghymru er mwyn ystyried sut y gellir cyflwyno'r gwersi a ddysgwyd yn ehangach i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru; Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf	PARHAUS

BLAENORIAETH 15:

Gwella tryloywder y gwaith o bennu cyllidebau ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru

ERTHYGLAU: 4 a 12

Dylai Llywodraethau weithredu'r Confensiwn a'r hawliau sydd ynddo gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, a dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys pan fo penderfyniadau'n sy'n effeithio arnynt hwy'n cael eu gwneud.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Roedd y prif argymhellion yn y maes hwn yn cynnwys sicrhau bod y gwaith o weithredu'r confensiwn yn cael ei gydgysylltu'n effeithiol, yn lleol hefyd, yn enwedig lle mae gan awdurdodau lleol bŵer sylweddol i bennu eu blaenoriaethau a dyrannu cyllidebau (Para 13). Ar nodyn tebyg, ac yn unol ag Erthygl 4 o'r Confensiwn, dylai'r llywodraeth ddyrannu cymaint o adnoddau ag sy'n bosibl er mwyn gweithredu hawliau, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddileu tlodi a lleihau anghydraddoldeb ym mhob awdurdodaeth. I'r perwyl hwn, dylai ystyried argymhellion a wnaethpwyd yn dilyn y drafodaeth ar Adnoddau ar gyfer hawliau'r plentyn - cyfrifoldeb gwladwriaethau. Argymhellwyd hefyd y dylid gwneud defnydd rheolaidd o asesiadau o effaith Hawliau'r Plentyn er mwyn gwerthuso sut y mae dyraniadau cyllidebol yn gymesur â gwireddu datblygiadau polisi a gweithredu deddfwriaeth (Para 19).

Beth sydd wedi digwydd:

Mae dechrau cadarnhaol wedi'i wneud yng Nghymru o ran pennu maint y gyllideb sydd ar gael i blant ar lefel genedlaethol. Cyhoeddwyd gwybodaeth yng Nghymru yn ddiweddar yn nodi'r gyllideb amcangyfrifedig ar gyfer plant a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd er mwyn ei phennu. Mae hwn wedi bod yn gam pwysig er mwyn annog rhagor o ddadleuon ac mae'n gam cyntaf pwysig mewn cyllidebau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi rhoi Cymru ar y blaen i 3 gwlad arall y DU wrth geisio sicrhau'r tryloywder angenrheidiol. Er bod y gwaith hwn wedi'i groesawu'n gyffredinol cydnabyddir mai dechrau'r daith tuag at well tryloywder a chywirdeb ydyw a bod gennym lawer iawn o waith i'w wneud eto er mwyn darparu darlun mor gywir ag sy'n bosibl.

Mae adolygiad o'r Cyllid ar gyfer Plant yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru a bydd adroddiad yn nodi casgliadau'r Pwyllgor yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2009. Derbyniwyd tystiolaeth o nifer o wahanol ffynonellau a disgwylir y bydd y canfyddiadau ar gael ddechrau Rhagfyr. Gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth o achosion lle mae plant a phobl ifanc wedi cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau o'r fath, ond ar hyn o bryd nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn eang nac yn cael ei rhannu ar lefel leol na chenedlaethol.

Sefydlwyd yr Uned Addysg Ariannol Gymreig fel un edefyn o strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Sefydlwyd yr Uned er mwyn darparu cymorth i ymarferwyr sy'n darparu addysg ariannol i blant a phobl ifanc 7-19 oed. Mae wedi'i lleoli

yng Ngrŵp Cymwysterau, Cwricwlwm a Gwella Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd ei sefydlu i ddechrau tan Ebrill 2011, gyda'r bwriad o adolygu ei rôl a'i chylch gwaith bryd hynny.

Mae'r Uned yn gyfrifol am ddarparu addysg ariannol drwy raglen dreigl. I ddechrau, bydd yn gweithio gydag ymarferwyr mewn ysgolion, awdurdodau lleol a'r sector addysg bellach er mwyn helpu i ddarparu addysg ariannol i blant a phobl ifanc 7-19 oed mewn addysg amser llawn.

Beth fydd yn digwydd:

Wrth gynhyrchu ei hamcangyfrif o'r gyllideb a'r papur methodoleg mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod angen gwneud mwy o waith er mwyn gwella'i methodoleg ac ystyried dulliau gweithredu amgen. Er mwyn symud ymlaen â'r gwaith hwn sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cael ei gynghori gan randdeiliaid allweddol, er mwyn ceisio sicrhau gwell dealltwriaeth o'r cynnydd a'r datblygiadau presennol mewn cyllidebau ar gyfer plant a phobl ifanc yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru. Bydd hyn yn datblygu syniadau a chynigion i'w hystyried gan Weinidogion ar gyfer ffyrdd o wella dulliau rhagweld cyllidebau a gwariant ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys mwy o dryloywder ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd hefyd yn ystyried materion megis cyllidebu cyfranogol, gwariant sy'n ffafrio'r tlawd a'r cysylltiad rhwng cyllidebau, gwariant a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd hefyd yn ystyried casgliadau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc pan fydd yn cyhoeddi ei adroddiad yn hydref 2009.

Yn gysylltiedig â'r gwaith hwn, a chan adeiladu arno (a nifer o brosiectau peilot blaenorol), bydd dau brosiect newydd yn cael eu sefydlu. Bydd y prosiect cyntaf yn ceisio **datblygu adnodd newydd i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc** i'w helpu i wella eu gwybodaeth ariannol mewn lleoliadau cymunedol ac mewn ysgolion. Bydd hwn yn adeiladu ar adnoddau blaenorol a bydd yn cael ei dreialu mewn nifer o leoliadau lle mae pobl ifanc yn dod i gysylltiad â gwasanaethau.

Bydd yr ail brosiect yn adeiladu ar y prosiect cyntaf drwy ddynodi gwaith blaenorol sydd wedi cael ei wneud ym maes cyllidebu cyfranogol cyn datblygu a darparu hyfforddiant. Bydd hyn wedyn yn arwain at nifer o brosiectau peilot lleol a chenedlaethol a fydd yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o wneud penderfyniadau ynglŷn â chyllidebau yn unol ag Erthygl 12 o'r Confensiwn.

Bydd canllawiau diwygiedig ar ddatblygu partneriaethau a chynlluniau lleol yn ystyried sut y gellid datblygu cyllidebu cyfranogol ar lefel leol gan adeiladu ar waith y prosiectau peilot.

Bydd yr Uned Addysg Ariannol Gymreig yn gweithio gydag ymarferwyr mewn ysgolion, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a'r gwasanaethau ariannol a'r sectorau gwirfoddol er mwyn:

- Cynyddu ymwybyddiaeth ymarferwyr o bwysigrwydd addysg ariannol a'r cymorth y gall yr Uned ei ddarparu.
- Darparu canllawiau a chyngor i ymarferwyr ynglŷn â gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd ar gyfer addysg ariannol yn y cwricwlwm.

- Darparu cyngor ynglŷn â deunydd addysgu priodol ac adnoddau a chefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
- Gweithio gyda darparwyr adnoddau addysgu er mwyn datblygu adnoddau sy'n cydnabod anghenion cwricwlaidd ac ieithyddol nodedig yng Nghymru.
- Adnabod a lledaenu arferion da wrth ddarparu addysg ariannol ym mhob rhan o Gymru a'r DU.

Bydd y gwaith hwn yn ategu cynlluniau ehangach gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a phob rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cefnogi addysg ariannol i bobl ifanc, gan gynnwys darparu Undebau Credyd mewn ysgolion uwchradd a gwaith yn ymwneud â Sgiliau Sylfaenol. Cynhelir gwerthusiad o effaith yr Uned yn hydref 2009 a bydd yn sail ar gyfer adolygiad ac argymhellion i Weinidogion ynglŷn â'r camau nesaf yn 2011.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Tîm Hawliau, APADGOS, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Rhagor o waith i ddatblygu rhaglenni gwaith sy'n datblygu gallu ariannol a sgiliau gwneud penderfyniadau*	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau erbyn Rhagfyr 2009
Datblygu a gweithredu rhaglen dreigl o gefnogaeth i ysgolion cynradd ac uwchradd wrth ddarparu addysg ariannol, gan gynnwys cynhyrchu canllawiau ar gyfer ymarferwyr	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mawrth 2010
Cynhyrchu cynllun gwaith i'w ystyried gan Weinidogion yn amlinellu dewisiadau o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer gwaith yn y dyfodol yn y maes hwn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Cwblhau erbyn Mehefin 2010
Dynodi arferion presennol mewn cyllidebu cyfranogol a sefydlu prosiect i dreialu dulliau o gyflawni hyn yn lleol ac yn genedlaethol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau erbyn Rhagfyr 2009
Cynnwys cyngor ynglŷn â sut y gellir cynnwys cyllidebu cyfranogol fel rhan o ganllawiau diwygiedig ar gyfer cynhyrchu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc lleol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Cynlluniau'n cael eu cyhoeddi yn Ebrill 2014
Cyhoeddi canllawiau ar arferion da wrth ddarparu addysg ariannol i blant a phobl ifanc 7-19 oed mewn addysg amser llawn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mawrth 2011

BLAENORIAETH 16:

Gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol yn gallu mwynhau eu hawliau dan y Confensiwn a'u hawliau dynol

ERTHYGLAU: 37 a 40

Ni ddylai plant sy'n torri'r gyfraith gael eu trin yn greulon, ac ni ddylent gael eu rhoi mewn carchar gydag oedolion. Dylent hefyd allu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Dylent gael cymorth cyfreithiol, a dim ond pan nad oes dewis arall y dylid eu hanfon i garchar.

Argymhellion a wnaethpwyd:

Dylai'r llywodraeth weithredu'r safonau rhyngwladol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yn llawn (gan gynnwys erthyglau 37, 39 a 40 o'r Confensiwn a nifer o ganllawiau eraill, gan gynnwys Sylw Cyffredinol 10 o reolau Beijing a Havana a chanllawiau Riyadh).

- cyflwyno adolygiadau awtomatig, annibynnol a chyhoeddus o farwolaethau annisgwyl yn y ddalfa
- codi oed cyfrifoldeb troseddol
- datblygu trefniadau amgen ar gyfer cadw yn y ddalfa, a gwneud hynny dim ond pan nad oes dewis arall
- ymdrin â phlant o fewn systemau cyfiawnder ieuenctid yn unig
- cadw plant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid ar wahân i oedolion, ac eithrio lle bo hynny er pennaf les y plant
- darparu'r hawl statudol i addysg
- sicrhau bod pob plentyn sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol mewn gwlad arall yn cael yr hawliau sy'n cael eu nodi dan Erthygl 40 o'r Confensiwn
- diogelu hawliau a lles plant sydd wedi dioddef o ganlyniad i drosedd neu sy'n dystion i drosedd
- cynnal adolygiad annibynnol o ASBOs gyda'r bwriad o ddileu ASBOs ar gyfer plant.

Nodwyd yr argymhellion hyn ym mharagraffau 29, 78 ac 80

Beth sydd wedi digwydd:

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am Gyfiawnder Ieuenctid. Mae polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfiawnder ieuenctid wedi'u hamlinellu yn Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn 2004. Mae Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn rhoi arian i asiantaethau lleol yn flynyddol er mwyn hwyluso cynlluniau atal a dargyfeirio troseddau ieuenctid. Mae'r Strategaeth yn nodi y dylai dewisiadau dedfrydu cymunedol effeithiol amgen fod ar gael yn lle'r ddalfa ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu lle mae hyn er budd gorau'r plentyn.

Mae *Menter dysgu ar gyfer pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol (Cymru)* gan Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn hyn yn faes polisi parhaol yn yr Adran Plant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae'r prosiect hwn yn ceisio hybu mynediad at yr hawl i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc yng Nghymru yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys 'Prosiect Cefnogaeth Bersonol yn y Ddalfa' gyda Gweithwyr Ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc o Gymru sy'n treulio'u dedfryd yn Lloegr ac wedyn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau yn ôl i'w cymunedau yng Nghymru. Mae gwaith cyfranogi (cynnwys pobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau) wedi'i wneud, gyda phobl ifanc yn datblygu llyfryn cyflwyno addas ar gyfer plant a phobl ifanc a gwybodaeth i deuluoedd sy'n dod i gysylltiad â Hillside, Cartref Diogel i Blant sydd wedi'u lleoli gan Awdurdodau Lleol, yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Darparwyd cyllid hefyd ar gyfer pob un o'r sefydliadau diogel lle mae pobl ifanc o Gymru'n treulio'u dedfrydau. Cynorthwyo'r bobl ifanc i benderfynu pa fath o adnoddau y byddent yn hoffi cael mynediad atynt fel rhan o'u darpariaeth lyfrgell.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i weld rhagor o gyfleusterau diogel ar gyfer ieuenctid yn cael eu datblygu yng Nghymru, er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n cael eu lleoli mewn sefydliadau diogel yn Lloegr, gan fod hynny wedi peri pryder am nifer o resymau: pellter oddi wrth deuluoedd a chymunedau, bwlio a materion addysgol a diwylliannol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r cyfrifoldeb llawn am Gyfiawnder Ieuenctid wedi'i ddatganoli i Gymru.

Beth fydd yn digwydd:

Gan adeiladu ar Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan (2004) cyhoeddwyd Cynllun Cyflenwi strategol newydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn 2009. Roedd y strategaeth wreiddiol yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r angen i ystyried hawliau plant a phobl ifanc. Mae'r cynllun cyflenwi newydd yn parhau â'r ymagwedd hon ac yn cydnabod mai'r ffordd fwyaf effeithiol o osgoi traddodi pobl ifanc i'r ddalfa yn yr hirdymor yw drwy eu hatal rhag mynd i'r system cyfiawnder troseddol yn y lle cyntaf.

Roedd y **Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu'n** cynnig dyletswyddau yn ymwneud ag addysg troseddwyr ifanc gyda'r bwriad o ddarparu gwell addysg a hyfforddiant i bobl ifanc yn y ddalfa. Bwriad hyn oedd hybu gwell canlyniadau, gan gynnwys datblygiad a chyflawniad mewn addysg, a helpu drwy hynny i leihau aildroseddu. Elfen allweddol o hyn yw ei fod yn sicrhau am y tro cyntaf y bydd gan bobl ifanc o Gymru sydd mewn canolfan gadw ar gyfer ieuenctid hawl sylfaenol i addysg yn unol â'r Confensiwn. Bydd hefyd yn sicrhau bod y bobl ifanc hynny sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig eto am y tro cyntaf yn cael y gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddi drwy roi dyletswydd ar yr awdurdod lleol cartref i ddarparu adnoddau a gwybodaeth a chadw mewn cysylltiad â'r person ifanc yn y sefydliad a phan fydd yn adsefydlu yn ôl yn ei gymuned.

Mae **cynlluniau sy'n cynorthwyo pobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru** wedi cael eu hymestyn yn ddiweddar drwy brosiect ESF Cyrraedd y Nod. Bydd y meysydd craidd lle gwelir mwy o weithgaredd yn cynnwys nifer o brosiectau peilot i gefnogi:

- Merched ifanc - lleoliadau cymunedol a diogel

- Pobl ifanc sydd ag AAA - lleoliadau cymunedol a diogel
- Pobl ifanc ddu a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru - lleoliadau cymunedol a diogel
- Allgymorth a 'mewngymorth' i bobl ifanc hyd at 20 oed mewn lleoliadau diogel yng Nghymru a Lloegr (yn gymwys hyd at un diwrnod cyn y pen-blwydd hwn).

Bydd y prosiect yn cefnogi ymyriadau sy'n ceisio hybu pobl ifanc i gynnal, gwella ac ailymwneud â darpariaeth addysgol, hyfforddiant a/neu gyflogaeth. Dylai addysg a hyfforddiant fod wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â Chynllun Dysgu Unigol y person ifanc a dylent fod ag amcanion clir sy'n adlewyrchu llwybrau cyflogaeth posibl ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn ceisio cael unigolion neu sefydliadau i ddarparu cyfres o weithdai/sesiynau hyfforddi ar gyfer staff timau troseddau ieuenctid yng Nghymru sy'n dod dan gylch gwaith Cydgyfeirio cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Bydd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth o'r mathau o **Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) sydd gan bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol**. Bydd yr hyfforddiant hefyd yn canolbwyntio ar y ffyrdd mwyaf priodol o weithio gyda'r grŵp hwn sydd wedi cael ei ddynodi, e.e. atgyfeiriadau. Daw'r gwaith hwn dan bennawd 'Troedle Cyntaf' Cyrraedd y Nod. Bydd 'Troedle Cyntaf' yn gweithio gyda'r bobl ifanc fwyaf difreintiedig yng Nghymru gan eu helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu a symud ymlaen.

Y llynedd, adolygodd a diweddarodd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y trefniadau ar gyfer gweithredu Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan. Mae Cynllun Cyflenwi 2009-2011 yn disgrifio'r newidiadau sydd wedi'u gwneud ac yn amlinellu'r themâu blaenoriaeth y mae angen mynd i'r afael â hwy a'r camau y mae angen eu cymryd. Mae hefyd yn dangos sut y bydd partneriaid yn gweithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn gweithredu'r agweddau hynny ar y system cyfiawnder troseddol sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, megis y Cynllun Gweithredu ar Droseddau Ieuenctid. Mae mwy o leoedd wedi cael eu datblygu yn Hillside ac yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl ifanc o Gymru sy'n treulio'u dedfrydau yn Lloegr.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi comisiynu'r Athro Rod Morgan (cyn Bennaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid) i gynnal astudiaeth o'r risgiau a'r manteision a fyddai'n gysylltiedig â datganoli'r system cyfiawnder ieuenctid i Gymru. Bydd yr Athro Morgan yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gynnar yn y flwyddyn newydd a bydd ei argymhellion yn cael eu hystyried gan y Cabinet yn dilyn hynny.

Cyfrifoldeb Arweiniol:

Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Disgrifiad o'r camau sydd i'w cymryd	Sefydliad	Amserlen
Datblygu a gweithredu prosiectau peilot sy'n cefnogi pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid drwy fenter Cyrraedd y Nod	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2009 - 2013
Cynyddu ymwybyddiaeth a datblygu hyfforddiant ynglŷn ag AAA pobl ifanc sydd yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Ebrill 2010
Dal i weithredu Cynllun Cyflenwi Strategol newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2009 - 2010
Dal i ddarparu cefnogaeth dan y Gronfa Cymunedau Diogelach i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar gyfer prosiectau a mentrau lleol sy'n ceisio cadw plant allan o'r system cyfiawnder ieuenctid	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS
Dal i weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac Adrannau San Steffan er mwyn cynyddu nifer y lleoliadau diogel ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS

6. Meysydd eraill yng Nghymru lle mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn rhoi sylw i'r Argymhellion Terfynol

6.1 Bwydo ar y fron

Ym mharagraff 59, argymhellodd y Pwyllgor y dylid gweithredu'r Cod Marchnata Rhyngwladol ar gyfer Amnewidiadau Llaeth o'r Fron yn llawn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi egwyddorion y Cod Marchnata Rhyngwladol ar gyfer Amnewidiadau Llaeth o'r Fron er nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli.

Cafwyd adroddiadau eleni bod Gwasanaethau Cofrestru Genedigaethau'n rhoi deunydd masnachol gan gwmnïau sy'n cynhyrchu llaeth powdwr i fabanod i rieni newydd. Mae Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru wedi tynnu sylw Prif Weithredwr pob awdurdod lleol yng Nghymru at hyn, gan ddweud ei fod yn tanseilio'r negeseuon hybu iechyd sy'n cefnogi bwydo ar y fron. Mae Swyddogion Safonau Masnach yng Nghymru hefyd yn gweithio er mwyn sicrhau bod manwerthwyr yn cydymffurfio â'r rheoliadau presennol sy'n ymwneud â hysbysebu amnewidiadau llaeth o'r fron i'r cyhoedd.

Lluniwyd rhaglen genedlaethol er mwyn cefnogi a hyrwyddo bwydo ar y fron i famau ifanc yng Nghymru. Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys nifer o weithgareddau wedi'u hariannu sy'n cynnwys gweithio gyda'r GIG a chyda'r gymuned, ysgolion a'r sector gwirfoddol. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cefnogaeth broffesiynol i wasanaethau mamolaeth, ymwelwyr iechyd a gwasanaethau cymunedol eraill ledled Cymru. Yng Nghymru, mae 42% o'r mamau dan 20 oed yn dechrau bwydo ar y fron, mewn cymhariaeth â 71% o famau dros 30 oed.

Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig yn y Rhaglen Genedlaethol yn cynnwys darparu grant er mwyn cael Swyddog Proffesiynol Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF y DU ar gyfer Cymru i ddarparu cefnogaeth broffesiynol i wasanaethau mamolaeth, ymwelwyr iechyd a gwasanaethau cymunedol eraill ledled Cymru. Mae grantiau ar gael ar gyfer grwpiau cefnogi lleol, ar gyfer darparu Cynllun Hyfforddiant Bwydo ar y Fron gan Rwydwaith y Coleg Agored ac ar gyfer rhwydwaith cefnogi i'r Cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys sicrhau bod gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth yn cael mwy o effaith yng Nghymru yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Fwydo ar y Fron a thrwy gydol y flwyddyn.

6.2 Sipsiwn-Teithwyr

Roedd Para 25b o'r Argymhellion Terfynol yn nodi y dylai Plaid y Wladwriaeth gymryd camau er mwyn 'cryfhau ei gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth, a gweithgareddau ataliol eraill yn erbyn gwahaniaethu a chymryd camau cadarnhaol, os oes angen, er budd grwpiau o blant sy'n agored i niwed, er enghraifft: *Teithwyr Roma a Gwyddelig; plant mudol, plant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n ffoaduriaid*.'

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer addysg plant Sipsiwn a Theithwyr ac yn hwyluso fforwm cenedlaethol o ymarferwyr addysg sy'n gweithio gyda'r grŵp hwn o ddysgwyr. Mae grant penodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Addysg Sipsiwn a Theithwyr yn eu cynorthwyo drwy annog plant teuluoedd teithiol i gael addysg a gwella'u presenoldeb a'u cynnydd mewn ysgol.

Ledled Cymru, mae Gwasanaethau Addysg Teithwyr yn darparu cyfleoedd dysgu addas ar gyfer anghenion dysgu'r plant hyn, sy'n aml yn anghenion anodd. I ategu hyn, dosbarthwyd canllawiau dan y teitl, Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn-Teithwyr, i bob ysgol yng Nghymru yn 2008. Mae'r canllawiau hyn yn darparu arweiniad cynhwysfawr ar bresenoldeb, ffyrdd o reoli dysgu bylchog, gwneud y cwricwlwm yn berthnasol a rheoli'r cyfnod trosglwyddo i ysgol uwchradd. Mae'r pwyslais drwy gydol y ddogfen ar osod addysg y disgyblion hyn yng nghyd-destun eu treftadaeth ddiwylliannol a hunaniaeth falch eu cymuned. Cynhelir cynhadledd genedlaethol Cymru gyfan ar gyfer cydgysylltwyr Gwasanaethau Addysg Teithwyr a staff addysgu am ddeuddydd yn Hydref 2009.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi cais i gronfa Cydgyfeiriant Cronfa Gymdeithasol Ewrop gan gonsortiwm o awdurdodau lleol, ar ran Gwasanaethau Addysg Teithwyr, gan ddefnyddio'r Grant ar gyfer Addysg Sipsiwn a Theithwyr fel arian cyfatebol. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd y cyllid yn cefnogi mwy o brosiectau gyda'r grŵp hwn o ddysgwyr, gan gynnwys cynlluniau i gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau, yn ogystal â chynnwys pobl ifanc o gymunedau Sipsiwn-Teithwyr drwy ymgynghoriad a chyfranogiad.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cymryd camau cadarnhaol er mwyn hybu cyflawniad addysgol lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys hybu cyflawniad lleiafrifoedd ethnig mewn addysg ymhlith plant Sipsiwn, Teithwyr a theuluoedd Roma, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phlant gweithwyr mudol. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru'n cael dyfarniad blynyddol gan Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn helpu'r disgyblion hyn i ddysgu Cymraeg (neu Saesneg) fel iaith ychwanegol, os yw'n berthnasol, a gwella lefelau cyrhaeddiad, yn enwedig ymhlith grwpiau a nodwyd fel rhai y mae perygl iddynt dangyflawni. Bydd DVD newydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cyfeirio at yr arferion gorau wrth hybu cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig mewn addysg, yn cael ei ddosbarthu i bob ysgol yng Nghymru yn ddiweddarach eleni.

Bydd **Ar Lwybr Arall - Strategaeth Ddrafft ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr** yn dechrau ar gyfnod ymgynghori o 16 wythnos cyn bo hir. Bydd y Strategaeth yn cynnwys adran benodol ar blant. Er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer y strategaeth comisiynasom waith ymchwil penodol ar ymgysylltiad a chyfranogiad plant Sipsiwn-Teithwyr mewn dwy ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd y strategaeth yn adlewyrchu canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn. Bydd yr ymgynghoriad yn ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc o dras Sipsiwn-Teithwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r strategaeth.

Y llynedd, darparwyd arian gennym i gynhyrchu DVD dan y teitl Travelling Ahead. Gwnaethpwyd y DVD hwn gan blant a phobl ifanc o dras Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru. Bydd y tîm Sipsiwn-Teithwyr yn Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda'r plant hyn er mwyn edrych beth sy'n cael ei wneud ynglŷn â'r materion a godwyd ganddynt yn y DVD.

Yn ychwanegol at hyn, rydym yn darparu cyllid i nifer o sefydliadau sy'n gweithio mewn cysylltiad agos â'r gymuned Sipsiwn-Teithwyr a byddwn yn dal i ariannu prosiectau sy'n darparu gwasanaethau a chyngor i Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru. Bydd DVD newydd, sy'n cyfeirio at yr arferion gorau wrth hybu cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig mewn addysg, yn cael ei ddosbarthu i bob ysgol yng Nghymru yn ystod hydref 2009.

6.3 Iechyd a Gwasanaethau Iechyd

Ym Mharagraff 55 argymhellodd y Pwyllgor y dylid mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau iechyd a sicrhau mwy o gydgysylltiad rhwng polisïau iechyd a pholisïau sydd wedi'u hanelu tuag at leihau anghydraddoldeb incwm a thlodi.

Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion hefyd ym mharagraffau 61 a 63 yn ymwneud ag iechyd y glasoed yng nghyswllt darparu gwasanaethau iechyd atgenhedlol priodol, gan gynnwys addysg iechyd atgenhedlol mewn ysgolion a pharhau i fynd i'r afael â phroblem defnyddio sylweddau ymhlith y glasoed.

Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal ar bapur gweithio drafft **Iechyd a Lles Rhywiol** 2009 - 2014. Mae'n cynnwys camau gweithredu er mwyn sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i wybodaeth a gwasanaethau iechyd rhywiol, beth bynnag eu hoedran, hil, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd.

Mae maes gweithredu 2 ym mhapur gweithio drafft Iechyd a Lles Rhywiol yn canolbwyntio ar waith cychwynnol i atal afiechydon rhywiol drwy roi i bobl ifanc yr wybodaeth, yr hysbysrwydd, y sgiliau a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen i wneud dewisiadau iach ynglŷn â'u hiechyd a'u lles rhywiol.

Mae'r ddeddfwriaeth ddi-fwg a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Ebrill 2007 yn sefydlu'r arferiad o beidio ag ysmygu fel y norm, a dylai annog pobl ifanc i beidio â dechrau ysmygu. Mae gwledydd eraill wedi gweld lleihad yn nifer y bobl ifanc yn eu harddegau sy'n ysmygu ar ôl cyflwyno gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Nid yw ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod rhieni'n ysmygu mwy yn eu cartrefi ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth ddi-fwg.

Mae pobl ifanc yn faes blaenoriaeth ar gyfer **Dim Smygu Cymru**, y gwasanaeth sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac sy'n cael ei redeg gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol er mwyn helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu. Lansiwyd Gwobr Ansawdd Genedlaethol Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach yn ddiweddar. Mae'r Wobr hon yn asesu beth mae ysgolion yn ei weithredu ar sail dangosyddion allweddol ar gyfer 7 pwnc sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Mae **Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau** newydd Cymru'n rhoi pwyslais clir ar atal, mynd i'r afael â risgiau allweddol a ffactorau diogelu, ac ymgysylltu â theuluoedd a rhieni. Rydym yn cyllido Rhaglenni Cryfhau Teuluoedd newydd ar hyd a lled Cymru sy'n targedu pobl ifanc 10-14 oed a'u rhieni gyda'r bwriad o gryfhau agweddau ar fywyd teuluol sy'n diogelu rhag camddefnyddio sylweddau (rhianta, cyfathrebu, a sgiliau gwrthsefyll pobl ifanc). Cafwyd adroddiadau bod y rhaglen yn effeithiol wrth hybu integreiddiad teuluol, gohirio adeg dechrau defnyddio alcohol, lleihau'r nifer sy'n dechrau ysmygu, a lleihau nifer yr achosion o ddefnyddio cyffuriau caletach.

Mae Mesur Iechyd 2009 yn cynnig nifer o gamau i gyfyngu ar fynediad at gynnyrch tybaco ac i annog pobl ifanc i beidio â'u defnyddio. Mae'r rhain yn gyson ag amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes iechyd cyhoeddus er mwyn diogelu pobl ifanc rhag cysylltiad â chynnyrch tybaco a rhoi cefnogaeth i ysmygwyr sy'n awyddus i roi'r gorau i'r arferiad. Mae'r Mesur yn cynnig datganoli pwerau i wneud rheoliadau yn ymwneud ag arddangos a gwerthu cynnyrch tybaco, ac i reoleiddio neu wahardd peiriannau gwerthu sigaréts, i Weinidogion Cymru.

6.4 Comisiynydd Plant Cymru

Mae'r Comisiynydd Plant wrthi ar hyn o bryd yn pennu hyd a lled meysydd yn yr Argymhellion Terfynol y bydd ei swyddfa'n canolbwyntio arnynt yn ystod y blynyddoedd nesaf. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â Grŵp Monitro'r Cyrff Anllywodraethol, Draig Ffynci, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain. Bydd hyn yn sicrhau bod modd gwneud y gorau o'r ymdrechion a'r adnoddau.

7. Monitro ac Adolygu

Elfen bwysig wrth geisio deall a yw'r cynllun yn cyflawni'r hyn y bwriadwyd iddo'i gyflawni, ac a yw'n sicrhau gwell canlyniadau, fydd y broses fonitro, gwerthuso ac adolygu. Mae'r cynllun yn ymwneud ag amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion trawsbynciol sydd wedi datblygu yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gan lawer o'r meysydd hyn drefniadau monitro, gwerthuso ac adolygu yn barod. Yr un pryd, mae llawer mwy o bwyslais yn cael ei roi ar fesur a chofnodi canlyniadau ar nifer o wahanol lefelau. Mae llawer o gynlluniau'n cael eu gweithredu er mwyn datblygu dulliau mesur perfformiad a newid sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Yn hytrach na dyblygu'r rhain a chynyddu'r baich adrodd byddwn yn ceisio manteisio ar gynlluniau o'r fath sy'n bodoli'n barod a gweithio mewn cysylltiad â hwy. Amlinellir hyn yn y model sy'n dangos y bydd cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am hawliau yn arwain at fwy o gyfle i arfer a mwynhau hawliau, a hynny yn ei dro'n helpu i wella canlyniadau a lles plant a phobl ifanc.



Mae'n hanfodol bod ffynonellau data a gwybodaeth sy'n bodoli'n barod yn cael eu defnyddio, yn y lle cyntaf, lle bynnag y bo modd, er mwyn gosod llinellau sylfaen y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd yn y dyfodol. Yn ail, mae'n hanfodol eu bod yn gallu profi a yw polisïau a gweithredoedd yn cael yr effaith ddisgwyliedig o wella lles plant a phobl ifanc. Mae'r adran isod yn nodi sut y gellir cyflawni hyn.

7.1 Rôl Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc

Mae Pwyllgor Cabinet wedi'i sefydlu o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru i ganolbwyntio'n benodol ar bolisi ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Mae aelodaeth y Pwyllgor Cabinet hwn yn cynnwys:

- Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Cadeirydd)
- Prif Weinidog Cymru
- Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
- Y Gweinidog dros Dreftadaeth
- Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol

Fel rhan o'i gylch gwaith mae Pwyllgor y Cabinet yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru a Saith Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Bydd Pwyllgor y Cabinet felly'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o adolygu cynnydd a chynlluniau diwygiedig ar gyfer y gwaith hwn, er mwyn sicrhau'r adolygiad cyfnodol o effeithiolrwydd polisïau a rhaglenni, ac er mwyn sicrhau cydlyniaeth yn y mentrau polisi trawsbynciol hyn sy'n helpu i wireddu blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer plant a phobl ifanc.

7.2 Rôl y Rhwydwaith Datblygu Plant a Phobl Ifanc yn Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae grŵp trawsadrannol mewnol wedi'i sefydlu yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ers dechrau 2008 er mwyn hwyluso ymagwedd drawsbynciol, gydgysylltiedig at bob mater polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc 0-25 oed. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol ac mae'n cynyddu ymwybyddiaeth swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r Confensiwn, ei egwyddorion a'i erthyglau unigol, ynghyd â'u heffaith ar feysydd polisi allweddol. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Plant a Phobl Ifanc.

7.3 Rôl Grŵp Monitro'r Cyrff Anllywodraethol

Mae grŵp monitro sy'n cynnwys y prif gyrff anllywodraethol sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru a chynrychiolwyr Comisiynydd Plant Cymru a Draig Ffynci wedi'i sefydlu ers blynyddoedd. Gwahoddir Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynychu'r grŵp hwn hefyd fel sylwedyddion.

Mae'r grŵp yn cydgysylltu dulliau cyrff anllywodraethol o weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn unol ag Erthygl 45 o'r Confensiwn. Mae cylch gorchwyl y grŵp hwn yn cynnwys monitro gweithrediad y Confensiwn yng Nghymru a datblygu dangosyddion. Bydd yn bwysig sicrhau bod y grŵp hwn yn cael adroddiadau cyfnodol am adolygiadau o'r cynllun gweithredu a'i fod yn cael cyfle i ddarparu mewnbwn i fersiynau o'r cynllun gweithredu yn y dyfodol wrth i'r agenda bolisi ddatblygu.

7.4 Rôl y Rhwydwaith Gweithredu

Fel y nodwyd ar dudalen 3 o'r Cynllun Gweithredu hwn, bydd rhwydwaith yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu hwn. Bydd yn cynnwys y rhanddeiliaid allweddol a bydd yn cynnig mewnbwn pwysig i'r gwaith o fonitro a datblygu

fframwaith gwerthuso yn seiliedig ar y dull gweithredu a ddisgrifir isod. Mae cylch gorchwyl y rhwydwaith a manylion ynglŷn â'i aelodaeth yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a bydd y grŵp yn cael ei sefydlu cyn diwedd 2009.

7.5 Tystiolaeth o Ganlyniadau i Gefnogi Adrodd am y Cynnydd a Wnaethpwyd wrth Weithredu'r Confensiwn

Mae llawer o ddatblygiadau wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bydd angen defnyddio'r rhain er mwyn darparu darlun cynhwysfawr o'r newidiadau sy'n deillio o weithredu'r Confensiwn yng Nghymru dros gyfnod. Bydd pob dull gweithredu'n darparu mynegiant pwysig o newid dros gyfnod, a chyda'i gilydd byddant yn darparu darlun cynhwysfawr o'r cynnydd a wnaethpwyd ac o'r newid mewn canlyniadau. Elfen allweddol o'r dull gweithredu hwn yw prif ffrydio canlyniadau sy'n ymwneud â'r Confensiwn mewn systemau a dulliau gweithredu sydd wedi cael eu datblygu, neu sydd yn cael eu datblygu, ar wahanol lefelau. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei weld fel rhan o'r gwaith cyffredinol o gofnodi ac adrodd am ganlyniadau, ac nid fel rhywbeth ychwanegol.

Bwriedir i'r datblygiadau hyn ddigwydd yng nghyd-destun yr haenau neu'r lefelau a ddiffinnir yn y Model Dangos Llwyddiant[10] ac, o ganlyniad, bydd yn cynnwys nifer o ddangosyddion a mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau o lefel poblogaeth i lawr i lefel y plentyn neu'r person ifanc unigol. Serch hynny, cydnabyddir bod llawer o'r meysydd sydd yn y model hwn wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd a bydd angen gwneud rhagor o waith i'w wella. Mae enghraifft o'r model i'w weld isod.

Canlyniadau a Dangosyddion ar Lefel Genedlaethol

Ffynhonnell Sylfaenol - Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc
Ffynonellau Eilaidd - Ystadegau swyddogol ac Arolygon perthnasol

Canlyniadau a Dangosyddion ar Lefel Leol

Ffynhonnell - Fframwaith Mesur Canlyniadau

Canlyniadau a Dangosyddion ar Lefel Sefydliad

Ffynhonnell - Data sefydliad sy'n gysylltiedig â'r data canlyniadau uchod, data a gyflwynwyd gan wasanaethau unigol a'r plant a'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi e.e. Datblygu Sgiliau Cymdeithasol, Sgiliau Emosiynol a Sgiliau Allweddol.

Canlyniadau a Dangosyddion ar Lefel Unigolyn

Ffynhonnell - Data a gyflwynwyd gan wasanaethau unigol a'r plant a'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi e.e. Datblygu Sgiliau Cymdeithasol, Sgiliau Emosiynol a Sgiliau Allweddol.

10 Ceir mwy o fanylion am y model yn http://www.demonstratingsuccess.co.uk/

Mae'n hanfodol bod data'n llifo'n rhwydd drwy'r model hwn er mwyn sicrhau bod modd cofnodi ac adrodd am ddata sy'n ymwneud â newidiadau mewn canlyniadau. Bydd hyn yn hanfodol hefyd er mwyn dangos gwelliannau wrth bontio'r bwlch ymddangosiadol rhwng polisi ac ymarfer yng Nghymru. Ceir mwy o wybodaeth isod am brif ffynonellau'r data hyn ar bob lefel.

7.5.1 Lefel Genedlaethol - Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru

Yn ystod 2008 cyhoeddwyd Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Monitor yn canolbwyntio ar les plant a phobl ifanc 0 i 18 oed yng Nghymru, gyda'r bwriad o ddarparu darlun cyfannol o'u bywydau. Mae'n dod ag ystadegau a gwaith ymchwil o nifer o wahanol ffynonellau at ei gilydd ac yn adrodd am wahanol fathau o ddangosyddion lles plant. Mae'r monitor wedi'i seilio ar themâu o saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n crynhoi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r gwaith o ddatblygu fersiwn diwygiedig o'r Monitor ar gyfer 2010 wedi'i ddechrau. Bydd y fersiwn diwygiedig yn adrodd am les mewn cysylltiad llawer agosach â'r Confensiwn a saith nod craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc. Nododd Monitor 2008 nifer o fylchau yn y dystiolaeth ynglŷn â lles plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd comisiynu ymchwil ansoddol gyda phlant a phobl ifanc er mwyn canfod beth yw eu barn ynglŷn â lles yng Nghymru yn helpu i roi sylw i un o'r bylchau pwysicaf a amlygwyd gan y Monitor blaenorol. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn dechrau yn hydref 2009 a chyhoeddir adroddiad yn hanner cyntaf 2010.

Bydd y Monitor diwygiedig yn canolbwyntio ar y grŵp 0 i 25 oed (yn wahanol i Fonitor 2008 a oedd yn canolbwyntio ar y grŵp 0 i 18 oed). Bydd y Monitor yn ffynhonnell bwysig ar gyfer gwybodaeth i ddarparu tystiolaeth o gynnydd wrth weithredu'r Confensiwn yng Nghymru a bydd yn defnyddio ystod eang o ffynonellau ac arolygon data.

7.5.2 Arolwg Cenedlaethol Newydd i Gymru

Mae holiadur plant a phobl ifanc yn cael ei gynnwys fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2009-10, sy'n gynllun peilot ar gyfer arolwg cenedlaethol posibl a fyddai'n cael ei gynnal yn flynyddol. Bydd arolwg 2009-10 yn cynnwys holiadur i'w gwblhau gan blant a phobl ifanc 10 i 15 oed amdanynt eu hunain. Mae cwestiynau penodol wedi'u cynnwys yn yr holiadur hwn am weithgareddau hamdden, lles cyffredinol, cyfranogiad mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac ymwybyddiaeth o'r Confensiwn. Bydd y pynciau hyn yn cael eu cynnwys ym Monitor Lles 2010 hefyd.

Ar ôl cwblhau arolwg 2009-10 gobeithir cynnal yr Arolwg Cenedlaethol yn flynyddol. Os bydd elfen holiadur y plant a'r bobl ifanc yn llwyddiannus, mae'n bosibl y bydd yn cael ei gynnwys mewn arolygon yn y dyfodol. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn 2009-10 er mwyn asesu pa bynciau y gellid ymdrin â hwy, a bydd y gwaith hwn yn cysylltu â gwaith pellach i ddatblygu'r Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc.

Cynhelir nifer o arolygon eraill ledled Cymru hefyd a bydd y rhain yn ceisio darparu gwybodaeth yn ymwneud â phynciau penodol y gellir ei defnyddio i ddarparu dadansoddiad manylach o faterion mewn meysydd penodol, e.e. bwlio, ymddygiad iechyd ac ati.

7.5.3 Lefel Leol - Prosiect Datblygu Fframwaith Mesur Canlyniadau

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc, a'u cyfleoedd mewn bywyd, ac i weithio mewn partneriaeth â darparwyr lleol, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn gwireddu'r ymrwymiad y mae wedi'i wneud i weithredu'r Confensiwn.

Mae gwaith cynllunio strategol ar lefel leol yn cael ei wneud gan Bartneriaethau, dan arweiniad awdurdodau lleol, sy'n cynhyrchu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc bob 3 blynedd, wedi'u strwythuro o amgylch 7 Nod Craidd sy'n crynhoi 41 hawl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig. Mae'r canllawiau ar gyfer y Cynlluniau i'w gweld yn Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007). Mae'r canllawiau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Mae gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc gyfrifoldeb cyfunol am wella canlyniadau i bob plentyn a pherson ifanc yn eu hardal (h.y. y boblogaeth blant a phobl ifanc yn ei chyfanrwydd). Mae hyn yn golygu mwy na dim ond y rhai sy'n defnyddio neu'n cael gwasanaethau. Mae mesur canlyniadau ar lefel poblogaeth yn cydnabod nad oes un gwasanaeth neu asiantaeth unigol yn gyfrifol ar ei phen ei hun am wella lles y boblogaeth - yn hytrach, mae gwelliannau'n deillio o'r holl gamau sy'n cael eu cymryd, yng nghyd-destun amgylchiadau ehangach bywydau pobl. Er mwyn asesu cynnydd Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, mae'n bwysig dangos 'atebolrwydd poblogaeth'; mae hyn yn ychwanegol at ddangos 'atebolrwydd perfformiad' (sy'n disgrifio canlyniadau gwasanaethau unigol i'r rhai hynny sy'n eu defnyddio).

Gan ddefnyddio ymagwedd 'atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau',[11] bydd y prosiect Fframwaith Mesur Canlyniadau'n ceisio clustnodi a dod i gytundeb ynglŷn â nifer o fesurau data y gellir eu defnyddio ar ffurf Fframwaith Mesur Canlyniadau, sy'n dangos y gwahaniaethau yn y boblogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn ardal partneriaeth. Bydd yn cael ei strwythuro er mwyn adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n cael ei fynegi a'i grynhoi drwy'r saith nod craidd.

Cyhoeddir y Fframwaith Mesur Canlyniadau yn Ebrill 2010, yn dilyn ymgynghoriad. Bydd yn cynnwys mesurau lefel uchel, y mae'n rhaid i bob Cynllun roi adroddiad arnynt, a grwpiau o fesurau ychwanegol y gellir dethol ohonynt wrth fesur perfformiad ar sail blaenoriaethau lleol. Bwriedir i'r Fframwaith, pan fydd wedi'i ddatblygu'n llawn, alluogi Llywodraeth y Cynulliad i adrodd ar berfformiad wrth weithredu hawliau plant yng Nghymru. Bydd y Fframwaith Mesur Canlyniadau'n ffurfio rhan o strwythur cydlynol sy'n cefnogi rheoli perfformiad ar draws gwasanaethau, rhaglenni a phrosiectau cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, a'u teuluoedd.

11 Friedman M, Trying Hard Is not Good Enough - How to produce measureable improvements for customers and communities (Trafford Publishing, 2005)

Bydd hyn yn gyson â'r symud yn y pen draw at Gytundebau Canlyniadau ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Dylai'r rhain ffurfio sail perthynas newydd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth leol, lle mae mwy o hyblygrwydd 'enilledig' ar wariant yn cael ei gydbwyso gan atebolrwydd drwy gytundebau ar ganlyniadau allweddol.

Bydd y Fframwaith Mesur Canlyniadau yn ategu cynlluniau cenedlaethol sy'n ceisio gwella dulliau mesur perfformiad ac atebolrwydd darparwyr, gan gynnwys:

- rhaglen IDeAS (Llywodraeth Cynulliad Cymru), ei hamcanion o ran canlyniadau strategol a gofynion 'dangosfwrdd';
- datblygu system gydlynol ar gyfer mesur perfformiad a rheoleiddio gwasanaethau cyhoeddus;
- datblygu cytundebau canlyniadau ar gyfer pob awdurdod lleol, gan gynnwys y gwaith peilot gyda phedwar awdurdod lleol yn hydref 2009;
- gweithredu'r Mesur Plant a Theuluoedd i leddfu tlodi plant â'i 12 nod eang;
- datblygu'r Mesur arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc, a'i weithredu yn dilyn hynny;
- datblygu Cynllun Plant a Phobl Ifanc Cymru; a'r
- Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion sy'n ymgorffori diben cenedlaethol ar gyfer ysgolion sy'n adlewyrchu gwaith ymchwil a syniadau rhyngwladol ynglŷn ag ysgolion effeithiol, wedi'u gosod yn eu cyd-destun er mwyn adlewyrchu polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc.

Bydd y fersiwn cyntaf hwn o'r Fframwaith Mesur Canlyniadau'n seiliedig i raddau helaeth ar y mesurau presennol, a bydd yn defnyddio data arolygon a data gweinyddol sy'n cael eu casglu'n rheolaidd, gan gynnwys data a amlinellir yn y Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc, y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc cyntaf, a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer llywodraeth leol. Bydd hyn yn golygu bod modd dadansoddi tueddiadau'n rheolaidd. Bydd yn eu gwneud yn fwy cynaliadwy, ac yn sicrhau eu bod yn fwy na 'rhestr o ddymuniadau'.

Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau presennol yn canolbwyntio ar berfformiad, y gwasanaethau sydd ar gael ac uchelgais, yn hytrach na chanlyniadau ar lefel poblogaeth. Bydd y Fframwaith Mesur Canlyniadau'n canolbwyntio ar atebolrwydd poblogaeth, gan gynnwys mesurau atebolrwydd perfformiad lle bernir bod y rhain yn briodol. O ganlyniad, bydd cynnyrch prosiectau'n cynnwys tasgau ar gyfer camau pellach, gan gynnwys datblygu mesurau canlyniadau poblogaeth y gellir eu casglu ar lefel leol.

7.5.4 Lefel Sefydliad - Data Canlyniadau a Gesglir gan Sefydliadau

Wrth i fwy o bwyslais gael ei roi ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol, yn unol â pholisïau cyffredinol yng Nghymru a'r camau blaenorol (uchod), bydd angen i sefydliadau ganolbwyntio mwy ar y data a gesglir ganddynt am y canlyniadau a geir o ganlyniad i'r gefnogaeth a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt i blant a phobl ifanc. Gall hyn fod yn rhan o'u contractau, cytundebau lefel gwasanaeth neu arferion da cyffredinol er mwyn sicrhau bod gwelliannau yn y gwasanaethau a ddarperir a'u heffeithiolrwydd yn seiliedig ar dystiolaeth o'r canlyniadau a geir.

7.5.5 Data Lefel Unigolyn - Canlyniadau a Geir gan Blant a Phobl Ifanc

Mae llawer o sefydliadau a gwasanaethau ledled Cymru wedi defnyddio dulliau sy'n ceisio mesur y canlyniadau a geir gan blant a phobl ifanc. Mewn llawer o achosion mae'r rhain wedi canolbwyntio ar y sgiliau y mae plant a phobl ifanc yn eu cael drwy gymhwyster neu achrediad, neu sgiliau sy'n cael eu datblygu a'u harddangos (Sgiliau Allweddol, Sgiliau Cymdeithasol a Sgiliau Emosiynol ac ati). Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd i'r diben hwn wedi canolbwyntio ar y sgiliau a ddatblygwyd neu'r pellter a deithiwyd gan blant a phobl ifanc sy'n cael gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn annog dulliau gweithredu o'r fath.

Mae'n bwysig bod data o'r fath yn cael eu cofnodi a'u defnyddio i wella gwasanaethau, a hefyd bod plant a phobl ifanc yn gallu gweld a deall beth maent wedi'i gyflawni, a bod cyflawniadau o'r fath yn cael eu cydnabod a'u dathlu. Cynhyrchwyd llawlyfr ymarferwyr dan y prosiect Dangos Llwyddiant i helpu i gynnig ffyrdd cyffredin o wneud hyn a goleuo/gwella'r arferion presennol. Bydd y prosiect peilot yn arwain at ragor o ddatblygiadau er mwyn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth i fesur y newid sy'n digwydd yn y plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy.

7.5.6 Cysylltu mesur canlyniadau â gwerthuso polisïau a rhaglenni

Mae'r Fframwaith Mesur Canlyniadau'n cynnig cyfle i ddefnyddio data canlyniadau a gasglwyd yn lleol ochr yn ochr â thystiolaeth ymchwil arall er mwyn cael gwerthusiad cadarn o effeithiolrwydd y rhaglenni a'r polisïau allweddol a fwriadwyd er mwyn cyflawni amcanion y Confensiwn. O ganlyniad, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio sicrhau bod gwerthusiadau o raglenni unigol Llywodraeth y Cynulliad (fel yr un ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion) yn mabwysiadu data canlyniadau sy'n cael eu casglu drwy'r Fframwaith Mesur Canlyniadau. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd yn bwysig adolygu a dilysu ansawdd y data, yn ogystal â sicrhau bod dulliau cadarn o werthuso effaith rhaglenni unigol a strategaethau trosfwaol yn cael eu mabwysiadu. Gallai'r gwaith hwn adeiladu ar brosiect sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd er mwyn datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso'r Strategaeth Tlodi Plant newydd ar lefel rhaglen unigol a strategaeth drosfwaol.

8. Crynodeb a Chasgliadau

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn amlinellu cyfanswm o 90 o gamau gweithredu a fydd yn cael eu cwblhau er mwyn rhoi sylw i Argymhellion Terfynol y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn a'r 16 blaenoriaeth benodol a ddynodwyd ar gyfer Cymru. Mae'r cynllun yn cwmpasu ystod eang o feysydd polisi trawsbynciol a nifer o wahanol gynlluniau cyfredol sy'n seiliedig ar bolisi ac ymarfer. Lle bo'n berthnasol, mae'r rhain wedi cael eu dynodi a'u hamlygu fel cynlluniau allweddol â chamau gweithredu cysylltiedig. Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys cyfuniad o weithgareddau newydd a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio o'r blaen. Mae llawer o'r gweithgareddau newydd wedi'u seilio'n uniongyrchol ar y Confensiwn a'r Argymhellion Terfynol. Lle bo'r camau gweithredu'n ymwneud â gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio o'r blaen, bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw eu bod yn cael eu hailystyried yn awr yng ngoleuni'r Argymhellion Terfynol. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i bolisïau a rhaglenni roi ystyriaeth lawnach i'r materion sy'n cael eu codi drwy *blygu rhaglenni*.[12] Mae hyn yn golygu ailedrych ar bolisïau, strategaethau a chynlluniau, a'u haddasu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Confensiwn a Chynllun Gweithredu'r Confensiwn ar gyfer Cymru lle bo'n berthnasol. Defnyddir yr ymagwedd gychwynnol hon fel sail i gamau pellach sy'n cael eu cymryd, er mwyn eu gwneud yn fwy cydnaws ag egwyddorion y Confensiwn, a'u seilio ar yr egwyddorion hynny o'r dechrau, gan adlewyrchu'r cysyniad o *Wireddu Cynyddol.*[13]

Drwy'r cynllun hwn, mae'r camau gweithredu'n pwysleisio ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu'r Confensiwn. Mynegir hyn yng nghyd-destun y gred y bydd hybu mynediad at hawliau a'r cyfle i arfer a mwynhau hawliau yn gwella canlyniadau a lles plant. Mewn llawer o achosion bydd plant a phobl ifanc yn cael profiad o'u hawliau drwy'r gwasanaethau a'r cymorth sy'n cael ei gynnig iddynt. Mae'n hanfodol ailganolbwyntio darpariaeth o'r fath ar hawliau a gweithredu hawliau er mwyn i'r gwaith o hybu hawliau a mynediad at hawliau fod yn llwyddiannus.

Nid oes cyhoeddiad wedi'i wneud ynglŷn ag adnoddau newydd i gefnogi'r camau gweithredu sy'n cael eu cynnig yn y Cynllun Gweithredu. Mae'r adnoddau i gefnogi'r gwaith o roi'r cynllun ar waith yn bodoli'n barod ar lefel genedlaethol a lleol ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pwysleisio bod ei threfniadau polisi a chynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefelau cenedlaethol a lleol yn seiliedig ar y Confensiwn, sy'n cael ei grynhoi drwy ei saith nod craidd. Mae llawer o waith wedi'i wneud ledled Cymru er 2004 er mwyn rhoi'r agenda hon ar waith, ond nid yw'r gwaith wedi cael ei labelu na'i gydnabod yn llawn eto. Bydd gwaith gweithredu pellach yn galw am ad-drefnu ac ailgyfeirio'r adnoddau presennol er mwyn gweithredu Erthyglau'r Confensiwn yn fwy effeithiol, fel y maent yn cael eu crynhoi dan bob un o'r saith nod craidd.

12 Gweithio er mwyn sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn holl Adrannau'r Cynulliad a thu allan i'r Cynulliad yn sensitif i'r Confensiwn, yr argymhellion terfynol a'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru fel y maent wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu hwn.

13 Gwireddu'r Confensiwn yn llawn drwy broses gynyddol gan gydnabod y bydd mynd i'r afael â diffygion sy'n ymwneud â hawliau'n broses raddol, ac y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â blaenoriaethau, a dangos er hynny bod cynnydd yn cael ei wneud.

Bydd llawer o'r camau gweithredu sydd yn y cynllun yn cael eu rhoi ar waith yn ystod 2-3 blynedd gyntaf cylch bywyd y cynllun gweithredu. Mae dyddiadau o'r fath, gan mwyaf, yn cyfeirio at gyhoeddi polisïau a chynlluniau sy'n rhoi cyfeiriad strategol, a byddant yn arwain ynddynt eu hunain at roi camau gweithredu ar waith dros gyfnod hwy. Mae'r prif gerrig milltir strategol y cyfeirir atynt yn y cynllun gweithredu'n ymwneud â'r prif gynllun neu bolisi. Pan fydd y rhain wedi'u datblygu byddant yn rhoi manylion am gamau gweithredu amrywiol eraill a fydd yn cael eu rhoi ar waith. Gan fod y cynllun hwn wedi'i fwriadu i fod yn ddogfen organig a byw, cynhelir adolygiadau cynnydd drwy gydol ei rychwant oes arfaethedig o bum mlynedd a bydd camau gweithredu'n cael eu diweddaru'n rheolaidd er mwyn ystyried datblygiadau o'r fath.

Cynhyrchwyd fersiwn cryno o'r ddogfen hon ar gyfer plant a phobl ifanc ac mae ar gael i bawb. Defnyddir hwn fel mecanwaith a all gyfrannu tuag at weithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth yn unol â chyfrifoldebau Llywodraeth Cynulliad Cymru dan Erthygl 42 o'r Confensiwn.

9. Crynodeb o'r Camau Gweithredu

Blaenoriaeth 1 Ymdrin â thlodi plant a phobl ifanc yng Nghymru

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Gweithredu rheoliadau sy'n gysylltiedig â Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Ar ôl eu cymeradwyo, gweithredir y rheoliadau'n raddol
Cynhyrchu Strategaeth Tlodi Plant	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Rhagfyr 2010
Gweithredu Strategaeth Tlodi Plant a monitro'n gyson	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2010 ymlaen
Datblygu a gweithredu canllawiau i gefnogi Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)	Llywodraeth Cynulliad Cymru	O Ebrill 2010 ymlaen

Blaenoriaeth 2 Sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Gweithredu'r model Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau yng ngwanwyn 2010
Rhoi'r Cynllun Gweithredu ar Gam-drin Domestig ar waith	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2009 ymlaen
Llunio canllawiau statudol ar Pe bai'n blentyn i mi a Rôl a Swyddogaethau Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Gorffennaf 2009
Cyhoeddi adroddiad cyfunol ar yr Adolygiadau Achosion Difrifol sydd wedi cael eu cynnal er 2007, a dosbarthu canlyniadau'r ymarfer hwn i Fyrddau Lleol Diogelu Plant i helpu i wella dysgu	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mai 2010
Ystyried canlyniad yr astudiaeth beilot ar weithredu adolygiad o farwolaethau plant drwy Gymru gyfan yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2010
Datblygu a gweithredu hyfforddiant yn cynyddu ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol o briodasau dan orfod, anffurfio organau cenhedlu menywod a thrais er anrhydedd	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2011

Blaenoriaeth 3 Cynyddu Ymwybyddiaeth o'r Confensiwn a'r Sylwadau Terfynol

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Sicrhau bod pob polisi, strategaeth a chyfarwyddyd sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru'n cynnwys cyfeiriad at y Confensiwn a'r elfennau y mae'r ddogfen yn anelu at eu cefnogi	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau ar unwaith
Sicrhau bod y Confensiwn yn ganolog i'r Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc a'r Craidd Cyffredin o Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Rhagfyr 2009
Datblygu a dosbarthu adnoddau newydd i gynyddu ymwybyddiaeth gyda phlant, pobl ifanc, gweithwyr proffesiynol, rhieni a'r cyhoedd yn gyffredinol	Llywodraeth Cynulliad Cymru; Achub y Plant, Cymru a Draig Ffynci	Dechrau erbyn Rhagfyr 2009
Datblygu adnoddau/deunyddiau am y Confensiwn i'w defnyddio mewn prosiectau CLIC lleol a chenedlaethol	Prosiect CLIC	Erbyn Rhagfyr 2009
Datblygu rhagor ar y ffyrdd o fonitro newidiadau mewn lefelau ymwybyddiaeth o'r Confensiwn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau yn Ebrill 2010

Blaenoriaeth 4 Lleihau'r bwlch rhwng polisi a chanlyniadau i blant a phobl ifanc

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Gweithredu Strategaeth Gweithlu Plant a Phobl Ifanc a'r Craidd Cyffredin drwy sefydlu Grŵp Gweithlu swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhaglen Rhwydwaith Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc o sefydliadau partner. Rhaglen 3 blynedd wedi'i chyhoeddi yn y ddogfen Strategaeth	Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid	2009-2011
Cynhyrchu canllawiau diwygiedig ar gynllunio lleol a phartneriaethau â chyfeiriad cryfach at y Confensiwn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Ebrill 2010
Hybu'r Confensiwn drwy ddatblygu brand cydnabyddedig ar gyfer holl waith Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda Phlant a Phobl Ifanc dan faner Cymry Ifanc	Llywodraeth Cynulliad Cymru; Achub y Plant, Cymru a Draig Ffynci	Manylion i'w cyhoeddi cyn bo hir
Cynhyrchu ac ymgynghori ynglŷn â chynllun strategol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn seiliedig ar y Confensiwn	Prosiect CLIC	Spring 2010
Datblygu rhagor ar y ffyrdd o fonitro newidiadau mewn lefelau ymwybyddiaeth o'r Confensiwn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS

Blaenoriaeth 5 Gwella cyrhaeddiad addysgol pob plentyn a pherson ifanc

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Sefydlu'r system, newid a chyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i ysgolion	Llywodraeth Cynulliad Cymru / Llywodraeth Leol / Ysgolion / Estyn	Erbyn Medi 2010
Llunio canllawiau ar Blant sy'n Colli Addysg er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu manteisio ar ei hawl i addysg a llunio canllaw ymarfer da	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau yn hydref 2009
Llunio canllawiau diwygiedig ar Wasanaethau Cymorth Ieuenctid a'u rôl er mwyn hybu hawliau a mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a gwneud gwaith pellach i wella trefniadau a systemau Cadw mewn Cysylltiad yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau erbyn Rhagfyr 2010
Sefydlu Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd newydd i gefnogi gwelliannau parhaus yn ansawdd dysgu ôl-16 sy'n gysylltiedig â'r Confensiwn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	O hydref 2009 ymlaen
Gwneud gwaith pellach i leihau effeithiau cefndir cymdeithasol plant ar eu cyrhaeddiad yn yr ysgol drwy gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen*; dal i adolygu'r cwricwlwm seiliedig ar sgiliau diwygiedig** ac ymateb i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygu Addysg 8-14, gan ganolbwyntio ar leihau effeithiau cefndir cymdeithasol plant ar eu cyrhaeddiad yn yr ysgol***	Llywodraeth Cynulliad Cymru	*2008/9 - 2011/12 **Dechrau ym Medi 200 ***Mawrth 2010
Cynnal ymchwiliad i ymddieithrio o ddysgu fel yr amlinellwyd yn nogfen Cymru'n Un	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mawrth 2010
Lansio Strategaeth Sgiliau Sylfaenol newydd a gweithredu camau sy'n gysylltiedig â hi	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Diwedd 2010 ymlaen

Blaenoriaeth 6 Cefnogi lles emosiynol pob plentyn a pherson ifanc

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Cyflwyno rhaglen hyfforddi ar gyfer Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Haf 10/11
Llunio canllawiau arferion da dan y teitl Meddwl yn Gadarnhaol - Iechyd a Lles Emosiynol mewn Ysgolion a Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Rhagfyr 2009
Cwblhau adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Haf 2010
Dal i weithredu'r Rhaglen Cryfhau Teuluoedd	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2009
Gwerthusiad cenedlaethol o Gwnsela mewn Ysgolion	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Y gwerthusiad cychwynnol wedi gwblhau erbyn hydref 2010
Monitro'r Fframweithiau Gweithredu Blynyddol ar gyfer CAMHS	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2007/10 a 2010/11
Parhau â'r gwaith mapio a'r adolygiad o ddarpariaeth CAMHS arbenigol yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2009/10 parhaus

Blaenoriaeth 7 Gwella cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc chwarae'n ddiogel

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Cyhoeddi fersiwn terfynol Cynllun Gweithredu Strategol Dringo'n Uwch: Creu Cymru Egnïol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau 2010
Byddwn yn dal i weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac yn ei gynorthwyo i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymwneud â'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt drwy weithgareddau fel cynllun Sblash Cymru a chyrff megis Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ac Asiantaeth Genedlaethol Cymru ar gyfer Theatr i Bobl Ifanc	Chwaraeon, ARTS	PARHAUS
Canlyniadau'r adolygiad/gwerthusiad o'r Strategaeth ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid i fod yn sail ar gyfer datblygu strategaeth arloesol newydd ar gyfer 2010 - 2013	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2010-13
Gwerthuso Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae a datblygu Strategaeth Chwarae newydd	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth yn mynd rhagddo
Bydd Cynllun Gweithredu'n cael ei roi ar waith er mwyn gwella Perfformiad a Rhagoriaeth mewn Chwaraeon yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	O Ebrill 2010 ymlaen

Blaenoriaeth 8 Cynyddu cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt hwy

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Bydd prosiect peilot eiriolaeth cenedlaethol yn cael ei sefydlu yng Nghymru a bydd yn dechrau cyn diwedd 2009*. Yr un pryd, bydd ymarfer tendro'n dechrau ar gyfer gwasanaeth tymor hwy**	Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol	* Rhagfyr 2009 ** Hydref 2010
Datblygu Strategaeth Cyfranogiad Genedlaethol i Gymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Hydref 2010
Gwerthuso Strategaethau Cyfranogiad Lleol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Hydref 2010
Cynhyrchu Rheoliadau a Chanllawiau ar gyfranogiad disgyblion mewn lleoliadau addysgol ffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc 3 - 18 oed	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Hydref 2010
Datblygu deddfwriaeth dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) a Mesur Addysg (Cymru)	Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid	2010-12

Blaenoriaeth 9 Gweithio er mwyn dileu gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc sydd ag anabledd; gwella'u mynediad at wasanaethau a chefnogaeth

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Cyflwyno estyniad i'r rhaglen Datgloi Potensial	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2009 hyd Awst 2011
Datblygu Marc Ansawdd Cynhwysiant ar gyfer Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Cwblhau erbyn Gorffennaf 2010
Sefydlu cynlluniau peilot ar ôl diwygio'r fframwaith asesiadau statudol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2009 - Gorffennaf 2011
Drwy symud ymlaen â Mesur arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) cynnal prosiectau peilot mewn dau Awdurdod Lleol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2010-12

Blaenoriaeth 10 Gweithio er mwyn gwneud cosb gorfforol i blant a phobl ifanc yn anghyfreithlon ym mhob sefyllfa

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Dal i hybu ffyrdd cadarnhaol, di-drais o ddisgyblu drwy ein Cynllun Gweithredu Rhianta a thrwy gefnogi'r gynghrair 'Sdim Curo Plant yng Nghymru'	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Parhaus
Dal i ofyn i ymwelwyr iechyd ddosbarthu'r llyfryn Help wrth Law i rieni newydd, tua phedair i chwe wythnos ar ôl geni'r plentyn. Y trydydd llyfryn, Ymddygiad Dros Ben Llestri mewn Plant dan Ddeg bob Gorffennaf	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Gorffennaf 2010
Cyhoeddi cynllun gweithredu strategol i roi sylw i drais yn erbyn merched a phlant a diweddaru Strategaeth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Diwedd 2009

Blaenoriaeth 11 Gweithio er mwyn dileu bwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Dal i hybu'r wythnos gwrth-fwlio. Fel rhan o Wythnos Gwrth-fwlio 2009, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda phartneriaid allweddol o'r Rhwydwaith Gwrth-fwlio i drefnu sioe deithiol a fydd yn ymweld â gwahanol rannau o Gymru. Bydd gweithgareddau'n cael eu hystyried ar gyfer y dyfodol	Llywodraeth Cynulliad Cymru, NSPCC, Stonewall Cymru, Barnardo's a Phlant yng Nghymru	4 - 20 Tachwedd 2009
Datblygu cyfres newydd o ganllawiau gwrth-fwlio â phwyslais ar fathau penodol o fwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig	Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda'r Rhwydwaith Gwrth-fwlio	Rhagfyr 2009
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda Childnet International er mwyn cynhyrchu DVD dwyieithog ar seiberfwlio a fydd yn cael ei ddosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghymru erbyn Rhagfyr 2009	Llywodraeth Cynulliad Cymru a Childnet	Rhagfyr 2009

Blaenoriaeth 12 Gweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu sy'n ceisio lloches yng Nghymru'n gallu mwynhau eu hawliau dan y Confensiwn a'u hawliau dynol

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Cyhoeddi'r Strategaeth Cydlyniant Cymunedol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Rhagfyr 2009
Cynnal y Cyfrifiad Plant mewn Angen a chynhyrchu gwybodaeth yn ymwneud â Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS
Ariannu cynllun peilot ar gyfer Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru Gyfan	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Tachwedd 2009
Cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn gwanwyn 2010

Blaenoriaeth 13 Gweithio er mwyn dileu gwahaniaethu / anghydraddoldeb yn erbyn plant a phobl ifanc

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Ymgyrchu i hybu delweddau cadarnhaol o blant a phobl ifanc	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS
Dal i amlygu a dathlu cyflawniadau cadarnhaol plant a phobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS
Sefydlu seremoni wobrwyo flynyddol CLIC	Prosiect CLIC	Dechrau yn 2010
Pennu hyd a lled problem gwahaniaethu a syniadau negyddol ynglŷn â phlant a phobl ifanc, ac ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau yn 2010
Cynnal seremoni wobrwyo genedlaethol i gydnabod rhagoriaeth mewn gwaith ieuenctid yng Nghymru a chyflawniadau pobl ifanc	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mawrth 2010

Blaenoriaeth 14 Gweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru (e.e. ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf) yn gallu mwynhau eu holl hawliau dan y Confensiwn a'u hawliau dynol

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Llunio Canllawiau ar fynd i'r afael â Thlodi Plant yng nghyd-destun y Confensiwn ar gyfer Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf	Uned Tlodi Plant ac Uned Cymunedau yn Gyntaf, Llywodraeth Cynulliad Cymru	Hydref 2009
Fel rhan o Gontract Hyfforddiant newydd Cymunedau yn Gyntaf, cynhelir digwyddiadau hyfforddi yn ymwneud â "Thlodi Plant a Chymunedau yn Gyntaf"	Uned Cymunedau yn Gyntaf a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Rhagfyr 2009 ar gyfer y rownd gyntaf o seminarau (5 i gyd) yna'n barhaus
Bydd prosiectau a fydd yn cael eu gwneud dan Gronfa Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn mynd i'r afael â Thlodi Plant, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yng nghyd-destun y Confensiwn	Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a darparwyr gwasanaeth perthnasol	PARHAUS
Diweddaru canllawiau cynllunio i gynnwys cyfrifoldeb awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol i weithredu'r Mesur Plant a Theuluoedd drwy ymgorffori cynlluniau strategol ar Dlodi Plant yng Nghynllun Plant a Phobl Ifanc pob awdurdod lleol	Llywodraeth Cynulliad Cymru; Awdurdodau lleol; partneriaid perthnasol	Canllawiau i'w cyhoeddi ym Mawrth 2010. Y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc nesaf i'w cyhoeddi ym Mawrth 2011
Asesu manteision y prosiect Datrys Tlodi Plant yng Nghymru er mwyn ystyried sut y gellir cyflwyno'r gwersi a ddysgwyd yn ehangach i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru; Awdurdodau lleol; Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf	PARHAUS

Blaenoriaeth 15 Gwella tryloywder y gwaith o bennu cyllidebau ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Rhagor o waith i ddatblygu rhaglenni gwaith sy'n datblygu gallu ariannol a sgiliau gwneud penderfyniadau*	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau erbyn Rhagfyr 2009
Datblygu a gweithredu rhaglen dreigl o gefnogaeth i ysgolion cynradd ac uwchradd wrth ddarparu addysg ariannol, gan gynnwys cynhyrchu canllawiau ar gyfer ymarferwyr	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mawrth 2010
Cynhyrchu cynllun gwaith i'w ystyried gan Weinidogion yn amlinellu dewisiadau o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer gwaith yn y dyfodol yn y maes hwn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Cwblhau erbyn Mehefin 2010

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Dynodi arferion presennol mewn cyllidebu cyfranogol a sefydlu prosiect i dreialu dulliau o gyflawni hyn yn lleol ac yn genedlaethol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Dechrau erbyn Rhagfyr 2009
Cynnwys cyngor ynglŷn â sut y gellir cynnwys cyllidebu cyfranogol fel rhan o ganllawiau diwygiedig ar gyfer cynhyrchu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc lleol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Cyhoeddir cynlluniau yn Ebrill 2014
Cyhoeddi canllawiau ar arferion da wrth ddarparu addysg ariannol i blant a phobl ifanc 7-19 oed mewn addysg amser llawn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	March 2011

Blaenoriaeth 16 Gweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol yn gallu mwynhau eu hawliau dan y Confensiwn a'u hawliau dynol

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Datblygu a gweithredu prosiectau peilot sy'n cefnogi pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid drwy fenter Cyrraedd y Nod	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2009 - 2013
Cynyddu ymwybyddiaeth a datblygu hyfforddiant ynglŷn ag AAA pobl ifanc sydd yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Ebrill 2010
Dal i weithredu Cynllun Cyflenwi Strategol newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid	Llywodraeth Cynulliad Cymru	2009 - 2010
Dal i ddarparu cefnogaeth dan y Gronfa Cymunedau Diogelach i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar gyfer prosiectau a mentrau lleol sy'n ceisio cadw plant allan o'r system cyfiawnder ieuenctid	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS
Dal i weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac Adrannau San Steffan er mwyn cynyddu nifer y lleoliadau diogel ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	PARHAUS

Camau Gweithredu Eraill y Cyfeirir atynt yn y Cynllun Gweithredu hwn

Camau Gweithredu	Sefydliad	Amserlen
Ystyried y posibilrwydd o ddatblygu mesur arfaethedig i roi rhagor o effaith gyfreithiol i gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r plentyn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	I'w chadarnhau
Cynhelir gweithgareddau i gynyddu ymwybyddiaeth o fanteision bwydo ar y fron yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Bwydo ar y Fron a thrwy gydol y flwyddyn yng Nghymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Ar y gweill
Cynhelir ymgynghoriad ar Ar Lwybr Arall - Strategaeth Ddrafft ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr. Bydd yr ymgynghoriad 16 wythnos yn ymgysylltu'n benodol â phlant a phobl ifanc o dras Sipsiwn - Teithwyr	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2009
Bydd DVD newydd yn tynnu sylw at yr arferion gorau wrth hybu cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig ym maes addysg yn cael ei anfon i bob ysgol	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Tymor yr Hydref 2009
Lansiwyd Gwobr Ansawdd Genedlaethol Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach yn ddiweddar a bydd yn asesu'r hyn y mae ysgolion yn ei weithredu ar sail dangosyddion allweddol: 95% o'r ysgolion a gynhelir i gyrraedd Cam 3 o'r Wobr Ansawdd. 10% o'r Ysgolion a gynhelir i gyflawni'r Wobr Ansawdd Genedlaethol**	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Mawrth 2015**
Bydd Rhaglen Cryfhau Teuluoedd newydd ledled Cymru'n targedu pobl ifanc 10 - 4 oed	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Medi 2009
Mae Mesur Iechyd 2009 yn cynnig nifer o gamau i gyfyngu ar fynediad at gynnyrch tybaco ac i annog pobl ifanc i beidio â'u defnyddio	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Ymgynghori ar reoliadau Cymreig yn 2010
Gwneud rhagor o waith i ddatblygu fframweithiau monitro a gwerthuso a mynegiannau ar gyfer y cynllun gweithredu hwn	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Rhagfyr 2010
Diwygio'r Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc gan ymestyn yr ystod oedran o 0-18 i 0-25	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Rhagfyr 2010
Treialu'r rhan sy'n ymwneud â phobl ifanc mewn arolwg cenedlaethol newydd ar gyfer Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Erbyn Rhagfyr 2010
Datblygu Fframwaith Mesur Canlyniadau ac ymgynghori ar ei gynnwys	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Ebrill 2010